# ECO'R WYDDFA

Rhif 71 Mehefin 1982 Pris 20c

# DAL I GICIO – AR ÔL 500 GÊM!



*Ddydd Sadwrn Mai 15 chwaraeodd Alan Vincent Owen ei bum canfed gêm i dîm pêl-droed Llanrug. I ddathlu'r achlysur arbennig yma, cyflwynodd Eric Roberts, Ysgrifennydd Cynghrair Arfon dancard arian i Alan ar ran y clwb cyn dechrau'r gêm yn erbyn Nefyn ar gae Eithin Duon. Trowch i'r dudalen gefn am ragor o'r hanes.*

# BRAWDGARWCH YM METHEL



*Ar ôl clywed fod ardal Deiniolen wedi casglu arian i un o ddisgyblion Ysgol y Gogarth, Llandudno, aeth rhai o ieuenctid Bethel ati i wneud yr un peth i Dewi Jones, Cenarth, Bethel, sydd hefyd yn ddisgybl yn yr ysgol. Penderfynwyd prynu recordydd fideo iddo, a ffurfiwyd pwyllgor i gasglu arian. Y saith oedd Eirian Wyn Jones, Geraint Williams, Iona Williams, Alan Owen, William Wayne Owen, Jane Richards a Mrs M. Williams. Pythefnos yn unig oedd ei angen i gasglu £460, a daeth yr arian o Fethel a'r pentrefi cyfagos yn ogystal ag o Fôn a Meirionnydd.*

*Dymuna'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd, ac yn enwedig i Mr Enstone, Bontnewydd o'r "Charity Fund Organisation", Siop Curry's Caernarfom am roi'r "remote control" ar y fideo yn rhad ac am ddim, ac i Mr Wavell Roberts, Llanrug am ganiatáu i gasglu arian yn ei siop.*

*Yn y llun gwelir Dewi yn cael ei gyflwyno â'r recordydd fideo.*

# CYFARFOD CYFFREDINOL YR ECO

Cynhaliwyd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn 'Angorfa', Llanberis nos Iau, Mai 6. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Mr Llion Jones, ond siomedig iawn oedd y cynulliad, gyda dim ond chwech o bobl yn bresennol, a'r rheini i gyd yn swyddogion yr *Eco*. Gobeithio yn wir nad adlewyrchiad o boblogrwydd yr *Eco* mo hyn.

Derbyniwyd adroddiadau boddhaol gan y gwahanol olygyddion a threfnwyr, a chyfeiriwyd yn arbennig at safon y lluniau yn y papur. Apeliodd y Golygydd am fwy o gyfranwyr rheolaidd.

Cyfeiriwyd at y ffaith fod Mr Ian Pierce yn ymddiswyddo o fod yn drefnydd gwerthiant y papur, a diolchwyd iddo am yr holl waith a wnaeth i hybu'r *Eco*. Nid oes neb hyd yma wedi dangos diddordeb yn y swydd hon. Apeliwn ar i unrhyw un sy'n fodlon helpu'r *Eco* i gysylltu **ar fyrder** ag Ian Pierce neu unrhyw un arall o'r swyddogion.

Mae swydd y Trysorydd a'r Trefnydd Busnes bellach wedi ei huno'n un, a'r Trefnydd Ariannol yw Goronwy Hughes, Llanrug. Gweler y daflen ariannol am fanylion gwerthiant a chostau'r papur.

Calondid oedd adrodd fod gweithgareddau cymdeithasol ynglŷn â'r papur bellach wedi dechrau, a diolchwyd i Miriam Hughes am ei gwaith da hyd yma. Cyfeiriwyd yn arbennig at lwyddiant y ffug-eisteddfod. Mae gweithgareddau eraill ar y gweill erbyn diwedd yr haf a dechrau'r hydref. Bydd manylion yn dilyn yn y rhifynnau nesaf.

Etholwyd yr holl swyddogion ar wahân i'r rhai a nodwyd eisoes.

**CYFRIF INCWM A GWARIANT AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 1982**

| GWARIANT | | INCWM | |
|---|---|---|---|
| Costau argraffu | 6432.45 | Gwerthiant | 4150.20 |
| Costau ffotograffi | 169.62 | Hysbysebion | 2080.62 |
| Stampiau, labelau etc | 143.06 | Rhoddion | 170.11 |
| Ffôn a threuliau | - | Grantiau | 335.00 |
| Costau banc | 5.66 | Elw'r Ffug Eisteddfod | 72.00 |
| Gwobrau | 8.00 | | |
| Defnyddio ystafell | 1.00 | | |
| Incwm yn fwy na gwariant | 48.14 | | |
| | 6807.93 | | 6807.93 |

**MANTOLEN AR 31 MAWRTH 1982**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cronfa'r Eco 1.3.81 | 306.22 | Arian yn y banc | 965.10 |
| Elw am y flwyddyn 1981-82 | 48.14 | Arian mewn llaw | 10.50 |
| | | Arian heb ei dderbyn | 1287.56 |
| | 354.36 | | |
| Dyledion | 1908.80 | | |
| | 2263.16 | | 2263.16 |

# PENCAMPWYR CYMRU!



Len Jones o Ddeiniolen yw pencampwr codi pwysau Cymru am 1982 a gall Clwb Codi Pwysau Pŵer Dinorwig, ei bentref, ac yn wir, yr holl fro ymhyfrydu yn ei lwyddiant.

Profodd Len, sy'n hyfforddi Clwb Dinorwig, mai ef yw'r gorau drwy'r wlad yn y dosbarth 60 kilo yn y pencampwriaethau a gynhaliawyd yn Llanelli yn ddiweddar. Dyma'r tro cyntaf iddo gystadlu am y teitl! Roedd cyfanswm y pwysau a gododd yn y tair adran angenrheidiol yn record Gymreig.

Bu gorchest Len yn ysbrydoliaeth i aelodau eraill Clwb Dinorwig oedd hefyd yn cystadlu yn Llanelli. Mae'r manylion amdanynt ar y dudalen gefn.

# AIL DRWY GYMRU

Yn rhifyn olaf yr Eco roedd Ian Jones o Benisarwaun yn cael ei longyfarch am ei gampau nofio. Carem ei longyfarch eto y mis hwn am ddod yn ail yn y ras dull broga dros 100 medr i rai dan 13 oed. Roedd Ian yn cynrychioli Gogledd Cymru mewn cystadleuaeth rhwng gwahanol ranbarthau Cymru ym Mhont-y-pŵl.

Yn ystod mis Mehefin bydd Pencampwriaethau Nofio Cymru yn cael eu cynnal yn yr Afan Lido Aberafan. Bydd Ian yno'n cystadlu ar yr un ras, ac y mae'n gobeithio dod un yn well y tro hwn. Dymuniadau da yr ardal iddo a phob lwc.

# ECO'R WYDDFA

RHIF 71
MEHEFIN 1982

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon*

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru*

## SWYDDOGION A GOHEBWYR

**GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:** Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)
**GOLYGYDD ERTHYGLAU:** Dafydd Whiteside Tomas, Bron y Nant, Pontrhythallt, Llanrug (C'fon 3515)
**GOLYGYDD NEWYDDION:** Tony Elliot, Crud y Wawr, Bryneglwys, Penisarwaun (Llanberis 872438)
**TREFNYDD NEWYDDION YSGOLION:** Iwan Lloyd Williams, Bryn Idris, Llanberis (870515)
**DYDDIADUR Y MIS:** Miss Jane Morris, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont, Ffordd Capel Coch, Llanberis (871561)
**FFOTOGRAFFWYR:** Ifan Parry, Morwel, Ceunant, (Waunfawr 321) Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug
**TREFNYDD HYSBYSEBION:** John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (C'fon 5605)
**TREFNYDD GWERTHIANT:** Ian Pierce, Swyn-yr-Awel, Llanrug (C'fon 3776)
**TREFNYDD ARIANNOL:** Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (C'fon 4839)
**TREFNYDD GWERTHIANT POST:** Mrs M. Evans, Lloc, Llanrug (C'fon 3227)
**GOHEBWYR PENTREFI:** Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:
**BETHEL:** Geraint Elis, Sycharth (Portdinorwic 726)
**BETWS GARMON:** Mrs Brenda Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)
**BRYNREFAIL:** D.G. Ellis, Gweledfa (Llanberis 871223)
**CEUNANT:** Ifan Parry, Morwel, (Waunfawr 321)
**CWM-Y-GLO:** Dafydd Price, Tŷ Capel (Llanberis 870550)
**DEINIOLEN:** Mrs Nancy Rowlands, 12 Pentre Helen (Llanberis 870267)
**DINORWIG:** O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)
**LLANBERIS:** Mrs Siân Thomas, Tŷ'r Ysgol (Llanberis 870220)
**NANT PERIS:** T.J. Roberts, Llys Awel
**LLANRUG:** Mrs Eirlys Pierce, Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)
**PENISARWAUN:** Mrs Mary Davies, 9 Llys y Gwynt, (Llanberis 872329)
**TAN-Y-COED:** Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)
**WAUNFAWR:** Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626)
**TREFNYDD PLYGU:** Gwyndaf Hughes, 20 Glanffynnon, Llanrug


## Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
**GORFFENNAF 1**
Deunydd i law'r golygyddion perthnasol
**NOS FAWRTH MAI 22**
os gwelwch yn dda

### CURIAD A PAIS

### ANGEN GWIRFODDOLWYR

Gan gydnabod mai problem cylchrediad yw pennaf broblem nifer o gyhoeddwyr cylchronau Cymraeg, y mae'r Cyngor Llyfrau wedi cytuno i gefnogi cynllun arbrofol am flwyddyn i geisio chwyddo cylchrediad dau gylchgrawn poblogaidd sy'n derbyn nawdd ganddo, sef *Curiad* a *Pais*.

Cytunodd cyhoeddwyr y ddau gylchgrawn i weithio ar y cyd i drefnu cynllun a fydd yn canolbwyntio ar nifer o ardaloedd ledled Cymru. Gobeithir cael gwasanaeth person addas ym mhob ardal i drefnu'r gwaith, a'r dasg, yn syml, fydd cynyddu gwerthiant y ddau gylchgrawn yn yr ardaloedd dan sylw. Bydd y personau'n ymweld â siopau lleol o fewn eu hardaloedd; byddant yn cysylltu â chymdeithasau, grwpiau a mudiadau a all fod yn barod i dderbyn copïau ac yn manteisio ar bob cyfle posibl i dynnu sylw'r cyhoedd at fodolaeth y cylchgronau. Telir costau mewn perthynas â'r cynllun.

Os bydd gan unrhyw berson ddiddordeb mewn ymuno â'r cynllun, a bod yn gyfrifol am ardal arbennig, dylent roi gwybod ar unwaith i un o'r canlynol:

**Dafydd Meirion, 40 Stryd yr Wyddfa, Penygroes, Caernarfon.**
**Ffôn: Penygroes 302.**

**Hefin Wyn, 13 St. John's Crescent, Treganna, Caerdydd.**
**Ffôn: Caerdydd 20872.**

**Gwerfyl Pierce Jones, Cyngor Llyfrau Cymraeg, Castell Brychan, Aberystwyth, Dyfed.**
**Ffôn: Aberystwyth 4151.**

### CWRS AR HAWLIAU LLES

**Mae Canolfan Gynghori a Hybu Gwaith Gogledd Cymru (NWERAC) a Mudiad Addysg Gweithwyr wedi dod at ei gilydd i drefnu cwrs arbennig ar fudd-daliadau lles a nawdd cymdeithasol. Cynhelir y cwrs ddydd Iau a dydd Gwener Mehefin 24 a 25.**

**Cyhoeddir taflen arbennig i amlinellu ffurf a phwrpas y cwrs ynghyd â deunydd swmpus a fydd yn crynhoi'r holl wybodaeth angenrheidiol yn y maes. Mae arbenigwyr y 'Child Poverty Action Group' wedi cytuno i weithredu fel athrawon a threfnwyr y dosbarthiadau. Dyma'r tro cyntaf erioed i'r corff hwn gael gwahoddiad i redeg cwrs o'r fath yng ngogledd Cymru.**

**Dywedodd llefarydd ar ran NWERAC y "bydd y cwrs hwn yn gynhwysfawr dros ben ac o les arbennig i bawb sy'n ymwneud â'r maes. Ein gobaith yw y bydd y cwrs o help arbennig i'r rhai fydd yn gweithio yn y Canolfannau i'r di-waith yr ydym yn eu hagor yng ngogledd Cymru. Bydd y canolfannau hyn yn unig yn cyflogi 30 o weithwyr."**

**Cynhelir y cyrsiau yng Nghanolfan y Di-waith, Bangor, dros y ffordd i Sinema'r Ddinas yn 133 Stryd Fawr. £5 fydd cost y cwrs i unigolion; £10 i gyrff statudol, cynghorau ac ati, a £2 i rai heb fod yn derbyn cyflog. Danfoner unrhyw gais am le ar y cwrs i Ganolfan y Di-waith, 133 Stryd Fawr, Bangor.**

### OND O DDIFRI MADAM SERA!



Awydd noson allan yng nghwmni Madam Sera? Mae croeso i chwi ddod i Theatr Gwynedd, Bangor nos Fawrth Mehefin 8 i weld recordiad o sioe Madam Sera, ble bydd yn sgwrsio â nifer o westeion.

Bydd y noson yn cael ei recordio ar gyfer S4C – felly cofiwch fod yno erbyn saith o'r gloch gan y bydd y drysau'n cau am 7.10.

Ceir tocynnau **am ddim** o Theatr Gwynedd neu oddi wrth Cwmni Teledu Burum, 40 Stryd yr Wyddfa, Penygroes, (Nantlle 722).

## AWDURDOD S4C A HTV YN CYTUNO

**Mae Awdurdod Sianel Pedwar Cymru a HTV wedi dod i gytundeb ar y rhaglenni Cymraeg fydd yn cael eu cyflenwi gan HTV ac a brynir gan yr Awdurdod ar gyfer S4C.**

Bydd y cytundeb mewn grym o 1982 hyd ddiwedd 1989 ac wedi ei rannu yn ddau brif gyfnod. Bydd y rhan gyntaf yn parhau hyd nes bydd HTV wedi paratoi cyfleusterau cynhyrchu ychwanegol yn Culverhouse Cross, Caerdydd, ym 1984 mae'n fwy na thebyg. Yn ystod y cyfnod hwn bydd HTV yn cyfrannu ar gyfartaledd 7¾ awr yr wythnos ar gost o tua £34,500 yr awr – £13,871,000 mewn blwyddyn lawn.

Ar ôl cwblhau'r cyfleusterau cynhyrchu ychwanegol yn Culverhouse Cross bydd HTV, hyd ddiwedd 1989, yn cyfrannu naw awr yr wythnos am £35,790 yr awr – £16,750,000 mewn blwyddyn lawn.

Mae'r prisiau uchod wedi eu seilio ar lefelau disgwyliedig yn y flwyddyn yn gorffen Mawrth 31, 1983, a byddant yn cael eu haddasu wedyn yn unol â newidiadau ym Mynegai Pris Manwerthiant. Bydd y taliadau i HTV yn gaeth i ostyngiad os y bydd lleihad mewn unrhyw flwyddyn yn y cyfalaf sydd gan S4C ar gyfer prynu rhaglenni. Disgwylir y bydd cynnydd yng nghyfalaf S4C a fydd yn eu galluogi i brynu 1¼ awr yr wythnos o raglenni pan fydd Culverhouse Cross yn barod, tra'n cynnal y Cynhyrchwyr Annibynnol ar y lefel o 4¼ awr yr wythnos a fydd yn cael ei gyfrannu i S4C o Dachwedd 1982 ymlaen.

Gellir adolygu'r cytundeb ar gais un o'r ddwy ochr ar unrhyw adeg rhwng Ionawr 1, 1985 a Mawrth 31, 1986, a'i ddiddymu pe bai un ai bod cytundeb rhwng HTV a'r ADA i gyflenwi rhaglenni ar gyfer Cymru yn dod i ben neu pe bai Awdurdod Sianel Pedwar Cymru yn cael ei ryddhau o'r cyfrifoldeb am y bedwaredd sianel yng Nghymru cyn diwedd 1989.

Dywedodd Syr Goronwy Daniel, Cadeirydd Awdurdod Sianel Pedwar Cymru, bod y cytundeb gyda HTV yn un o brif gerrig sylfaen Sianel Pedwar Cymru. Gyda'r trefniadau a wnaed eisoes â'r BBC, yr ADA, Sianel Pedwar Prydain a'r Cynhyrchwyr Annibynnol, a'r ffaith fod y gwaith o baratoi cyfleusterau trosglwyddo yn mynd rhagddo ynghyd â phenodi staff o'r radd flaenaf, mae gan yr Awdurdod Cymreig erbyn hyn bob reswm i deimlo'n hyderus iawn ac y bydd y Sianel newydd yn llwyddiant.

Meddai'r Arglwydd Harlech, Cadeirydd HTV: "'Rydym wedi bod yn awyddus erioed i wneud cyfraniad pwysig i ddarlledu yn yr iaith Gymraeg. Mae'r ffordd yn glir erbyn hyn i HTV gyfrannu'n sylweddol er cyfoethogi gwasanaeth rhaglenni S4C fel y rhagwelwyd yn y Ddeddf Darlledu. Bydd datblygu'r cyfleusterau newydd a'r cynnydd mewn staff ar gyfer hyn yn cael ei gyflymu ar unwaith.

### HELP I'R DYSGWYR

Mae Siop Siarad, cylchgrawn i'r rhai sy'n dysgu'r Gymraeg, yn paratoi rhestr o bobl sy'n gosod llety mewn ardaloedd Cymraeg a fuasai'n falch o gael dysgwyr i aros.

Mae'r cylchgrawn yn paratoi rhestr o 'Gyfeillion trwy'r Post', pobl a fyddai'n barod i ohebu â dysgwyr yn achlysurol a'u helpu i ymgydnabod â Chymru a'r Gymraeg.

Os gallwch helpu mewn un ffordd neu'i gilydd, ysgrifennwch at Siop Siarad, 40 Stryd yr Wyddfa, Penygroes, Caernarfon, Gwynedd.

## BWS I'R EISTEDDFOD

Bydd bws yn teithio i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Pwllheli yn cychwyn o Lanrug ddydd Mercher Mehefin 2 am 9 o'r gloch. Ceir gwybodaeth ychwanegol gan Mrs Morfudd Roberts, Tai Minffordd – Ffôn Caernarfon 5057 neu Mrs Menna Williams, Ffordd Minffordd, Ffôn Caernarfon 4016.

## NEWID BYD

Dyma rai enwau sydd bellach wedi diflannu oddi ar fapiau o'r byd. Beth yw eu henwau cywir heddiw?

1. Constantinople
2. Persia
3. Siam
4. Saigon
5. Dwyrain Pakistan
6. Y Congo
7. De-Orllewin Affrica
8. Rhodesia
9. Llyn Nyasa
10. Honduras Brydeinig

# LLANRUG

**APÊL AT AELODAU MERCHED Y WAWR** – Gwahoddir aelodau'r gangen i'r Ysgol Gynradd, **nos Lun, Mehefin 28 am 7.30** i'r rhaglen radio 'Malu ar yr Awyr'. Disgwylir cynulleidfa deilwng. Dewch i gefnogi os gwelwch yn dda.

DIOLCH – Dymuna Miss Mary Owen, Tai Plastirion ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, anrhegion a'r blodau a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 mlwydd oed Ebrill 1. Diolch yn fawr.

PLAID CYMRU – Cynhaliwyd Ffair Wanwyn yn yr Ysgol Gynradd nos Fercher, Mai 11. Diolch i'r holl gefnogwyr am eu rhoddion.

NOSON GOFFI – Nos Iau, Mehefin 10 am 7 o'r gloch cynhelir Noson Goffi yng Nghanolfan Hafan Elan, yr elw at y Sefydliad Coffa.

CROESO ADREF – i Mrs Gwyneth Evans, 18 Glanmoelyn ar ôl treulio cyfnod yn yr ysbyty yn Lerpwl. Dymunwn adferiad iechyd buan iawn iddi.

GWELLHAD BUAN – Dymunwn adferiad buan hefyd i Mr Oswald Davies, Plas Gwyn sydd wedi derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Môn ac Arfon.

CLWB BLODAU'R GRUG – Ddydd Iau, Mai 13 yn y Neuadd Goffa cynhaliwyd cyfarfod o Glwb Blodau'r Grug dan lywyddiaeth y Llywydd, Mr John Williams, Gweledfa.

Y gŵr gwadd oedd Mr Cledwyn Williams, Tŷ'r Ysgol. Cafwyd sgwrs ddiddorol ganddo ar y testun 'Geiriau' a'u hystyr. Diolchwyd iddo gan Mrs M. Lloyd Williams, Llys Awen, ac ategwyd gan Mrs N. Owen, Trigle.

Rhoddwyd y te gan Mrs M. Jones, Bronallt, Mrs N. Pritchard, Glanfa, Mrs Williams, Llys Meirion, Mrs N. Owen, Trigle.

Enillwyd y raffl oedd yn rhoddedig gan chwiorydd y te, gan Mrs Hughes, Bwthyn. Mae gwibdaith wedi ei threfnu ym mis Gorffennaf i Bwllheli ac Aberdaron. A fyddwch cystal a rhoi eich henwau i'r ysgrifennydd mor fuan ag sy'n bosibl. Bydd y cyfarfod nesaf Mehefin 10.

NOSON GOFFI – Nos Iau, Mai 6 cynhaliodd Cymdeithas Chwiorydd y Capel Mawr eu Noson Goffi yn Sŵn y Gwynt ar wahoddiad Mrs Jones. Anfonwyd cofion i'r rhai oedd yn absennol oherwydd gwaeledd. Gwnaed elw sylweddol at yr Achos. Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ym mis Medi. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Nansi Roberts, Manod, Ffordd Glanffynnon, a diolchodd i Mrs Jones am ei chroeso ac i bawb arall a gynorthwyodd i wneud y noson yn gymaint o lwyddiant.

BEDYDDIO – Bnawn Sul, Mai 9 yn y Capel Mawr bedyddiwyd Einir Wyn ac Emyr Thomas, efeilliaid Elwyn ac Anwen Roberts, Elan Wen. Gweinyddwyd gan y Parch W.O. Roberts.

ANREHGU – Nos Fercher, Ebrill 28 yng Ngwesty Victoria, Llanberis cynhaliodd Cymdeithas Chwiorydd y Capel Mawr swper arbennig i anrhegu Mrs Nansi Roberts ar ymddeoliad ei phriod y Parch W.O. Roberts, am ei gwasanaeth i Eglwys y Capel Mawr am dros ugain mlynedd. Derbyniodd Mrs Roberts gloc hardd gan y chwiorydd. Cyflwynwyd y rhodd mewn geiriau dethol gan Miss Mary Owen, 3 Tai Plastirion, aelod hynaf yr eglwys. Ar ran y Gobeithlu a'r Ysgol Sul cyflwynodd Nia Wyn Jones, Y Wern a Wendy Pierce Jones, Gwydryn hambwrdd arian i Mrs Roberts. Diolchodd Mrs Roberts a'r Parch W.O. Roberts yn gynnes am y rhoddion a'r dymuniadau da. Siaradwyd ymhellach gan nifer o frodyr a chwiorydd yn mynegi eu dymuniadau da. Yr oedd yr oll o'r trefniadau yng ngofal Mrs Beryl Thomas, Gerallt, ysgrifennydd y Gymdeithas a'r drysorydd, Mrs Dorothy Jones, Tegerin.

MERCHED Y WAWR – Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen nos Fawrth, Mai 11, gyda Miss Phyllis Ellis yn y gadair. Dangoswyd ffilmiau a chafwyd hanes diddorol o'i thaith i Awstralia gan Mrs Mary Vaughan Jones, y Waunfawr. Diolchwyd iddi gan Mrs J.C. Williams, Bod Fair.

Llongyfarchwyd Nia ar ei phriodas a dymunwyd gwellhad buan i Mrs J. Hughes, Oerddwr. Gan mai dyma'r cyfarfod olaf ond un i Miss Phyllis Ellis fel llywydd, wedi dwy flynedd, diolchodd ar ran y swyddogion am gydweithrediad a ffyddlondeb yr aelodau. Diolchodd Mrs Beth Ann Williams iddynt hwythau am eu gwaith trylwyr.

Diolchodd Mrs Margaret Parry i'r merched canlynol a baratodd y te – Mrs Dilys Williams, Mrs Megan Williams, Mrs Ceinwen Roberts, Mrs Catherine Vaughan Jones a Miss Megan Humphreys – i gyd o Dan-y-coed. Mrs Jane Williams, Bryn Eifion enillodd y raffl.

GWIBDAITH MERCHED Y WAWR – Bydd y daith ddirgel nos Fawrth, Mehefin 8 yn cychwyn o'r Sgwâr am 6 o'r gloch (ac ar hyd Ffordd yr Orsaf fel arfer) o dan arweiniad Mrs Mary Vaughan Jones. Byddwn yn diweddu'r noson yng ngwesty Plas Gwyn, Pentrefelin. Enwau ac arian – Cyw lâr £1.65; Scampi £2.25 – i Eirlys Pierce neu Margaret Parry erbyn Mehefin 1 fan bellaf.

CYMANFA YSGOLION DOSBARTH CAERNARFON – Bu'r plant canlynol o Eglwys Pontrhythallt yn llwyddiannus yn yr Arholiad Llafar – Kevin a Martin Reed Davies; Adrian, Christine a Steven Lloyd Jones; Rhodri a Gwion ap Llwyd; Dyfed a Catrin Thomas; Ieuan a Iolo Griffith; Delyth a Judith Jones; ac Iwan Llŷr.

Yn adran yr oedolion, bu Mrs M. Lloyd Williams, Mrs Nesta Pritchard a Mrs E.W. Thomas yn llwyddiannus.

Gwobrwywyd Rhodri, Iwan a Delyth yn yr Arholiad Ysgrifenedig yn ogystal.

Llongyfarchiadau iddynt oll.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL – Bydd Taith Hanesyddol, dan nawdd y Gymdeithas Undebol yn mynd i'r ardal o gwmpas Harlech ar Fehefin 12. Yr hanesydd fydd Mrs Mary Vaughan Jones.

CYMDEITHAS CHWIORYDD PONTRHYTHALLT – Cynhaliwyd Cymdeithas Chwiorydd Pontrhythallt brynhawn Iau Mai 18 gyda mrs Ceridwen Williams yn llywyddu. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn gan Mr W.A. Jones, a diolchwyd iddo gan Mrs N. Roberts, Manod. Croesawyd Mrs G. Griffith Dolanog yn ôl wedi ei hymweliad ag Awstralia. Rhoddwyd y te gan Miss B. Williams Glan Padarn a Mrs M. Lloyd Williams Llys Awen, a diolchwyd iddynt gan y llywydd.

Y SEINDORF – Cynhaliwyd cystadleuaeth flynyddol y Seindorf yn yr Ysgol Gynradd Mai 1. Mr J.T. Conway o'r Rhyl oedd y beirniad, a'r arweinydd oedd Mr Emyr Jones o Gaernarfon. Y cyfeilyddion oedd Mrs Mair Huws a Mrs Carys Jones. Y canlyniadau oedd:

**Dan 12**: 1. Paul Hughes, 2. Dylan Owen, 3. Kevin Tame. **Dan 16**: 1. Iwan W. Williams, 2. Berwyn Owen, 3. Gareth Jones. **Dan 19**: 1. Keith Jones, 2. Hefin Williams, 3. Kevin Richardson. **Adran Agored**: 1. John Tame, 2. Gareth Hughes, 3. Gwyrfai Williams. **Deuawd**: James a Keith Jones. **Pedwarawd**: Elfyn Williams, Colin Jones, Gareth Hughes a Raymond Lloyd Jones o dan arweinyddiaeth Glyn Williams.

Cafwyd lluniaeth ysgafn wedi ei ddarparu gan Bwyllgor y Merched ar ddiwedd y prynhawn. Enillydd y raffl oedd Albert Rees. I gloi'r diwrnod aeth aelodau'r Seindorf a'r pwyllgor i Westy'r Foelas i fwynhau noson gymdeithasol.

Mae gwaith yr haf yn dechrau Mai 31 pan fydd y Seindorf yn arwain gorymdaith Carnifal Pwllheli.

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Maggie Lewis, Madryn House ar ddod yn hen nain am y tro cyntaf.



*Rhai o'r ymgeiswyr ieuengaf yn y Gystadleuaeth gyda'r beirniad Mr J.T. Conway.*

DIOLCH – Dymuna Mrs Buddug Morris, 23 Hafan Elan ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion, blodau a'r cardiau a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 oed. Hefyd am y noson a drefnwyd yn y Ganolfan i ddathlu yr amgylchiad.



*Torri'r deisen yn Hafan Elan yn ystod y dathliadau.*


## WYTHNOS CARNIFAL LLANRUG

**Mehefin 20 – 26**

**Gwyliwch y posteri yn y siopau am y manylion**

Mynnwch eich
PAENT a PHAPUR PAPURO
oddi wrth

**E.WILSON HUGHES**
**84 Stryd Fawr**
**LLANBERIS**

Ffôn: Llanberis 870491

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

# LLANBERIS

YSGOL FEITHRIN – Collodd pum mam gyfanswm o 28 pwys rhyngddynt yn y gystadleuaeth colli pwysau noddedig, Mrs Catherine Williams a Mrs Dilys Roberts a gollodd fwyaf sef wyth bwys yr un.

Codi ei phwysau o un pwys a hanner a wnaeth un fam ac mae am ennill mwy yn y chwe mis nesaf.

Diolch yn fawr i bawb a noddodd y mamau.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Ym mis Mawrth aeth yr aelodau i Goleg Technegol Gwynedd ym Mangor i weld arddangosfa goginio gan y 'Meat Promotions Executive', a mwynhawyd y noson yn fawr iawn.

Yn ein cyfarfod mis Ebrill cawsom Ffair Prynu a Gwerthu, a gwnaed elw sylweddol i gronfa'r Sefydliad. Ar ôl yr arwerthiant cawsom weld a chlywed hanes hen greiriau yn perthyn i'r aelodau, llawer ohonynt wedi eu hetifeddu. Noson ddifyr iawn, a diolch yn fawr i'r aelodau am gyfrannu mor hael, ac i Mrs Netta Jones a Mrs Annie Blodwen Jones am ofalu am y raffl. Yr oedd tair o'n haelodau wedi bod yn wael yn ddiweddar, sef Mrs H.O. Roberts, Mrs Peris Thomas a Mrs Betty Arfon Owen, ac yr oeddym yn falch iawn o'i gweld yn bresennol yn y cyfarfod.

DIOLCH – Dymuna Mrs J.M. Jones, 81 Maes Padarn ddiolch yn ddiffuant i'w theulu, cymdogion a chyfeillion am bob caredigrwydd, cardiau ac anrhegion a dderbyniodd tra'n yr ysbyty. Diolch hefyd i staff Ward Llawfeddygol Isaf ym Mangor a staff Ward Peblig yng Nghaernarfon.

TRIP I FANGOR – Aeth y plant a'u mamau i Fangor ddydd Mercher Mai 12 i gyfarfod Mudiad Ysgolion Meithrin gyda tua thri chant o blant a'u mamau o wahanol ysgolion yn Arfon.

Roedd pob ysgol yn cymryd rhan ac roedd y plant yn ddigon o sioe – bratiau a chapiau coch i'r genethod a'r bechgyn yn eu 'overalls' a'u capiau, yn canu am Mam a Dad yn gweithio yn y tŷ. Yr unig broblem oedd meddwl beth oedd Dad yn ei wneud yn y tŷ. Mam oedd yn gwneud popeth meddai'r plant!!

CYMORTHWRAIG – Mrs Catherine Williams, Rallt Goch sydd wedi ei phenodi yn gymorthwraig i Mrs Eiddwen Thomas yn yr Ysgol Feithrin.

NOSON GOFFI – Cynhaliwyd noson goffi er budd yr Ysgol Feithrin nos Iau, Mai 13. Hoffai'r pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth yno ac a gyfrannodd yn ariannol ac at y gwobrau, a'i gwneud yn noson mor lwyddiannus. Cafwyd elw o £110.

**Enillwyr – Enw'r Ddol: (Ceri):** Mrs Hilda Thomas. **Dol Glwt**: Marian Jones. **Raffl**: **Hamper**: Mrs Mair Roberts, **Cyw lâr**: Hirfron, **Siocled**: Mrs Carys Williams, **Sieri**: 71 Maes Padarn, **Sebon**: Peris View, **Potel Spageti**: Nicola Prydderch.

YN 21ain OED – Llongyfarchiadau i chi Rosemarie Foulkes, Ysgubor Uchaf ar gyrraedd eich pen-blwydd yn 21 oed.

PRIODAS – Yn Eglwys Sant Padarn Ebrill 10 prodwyd Kenneth, mab Mr a Mrs George Owen, New Street, Deiniolen a Rhiannon Ann, merch Mr a Mrs Stanley Wyn Griffiths, Dôl Elidir. Gwasanaethwyd gan y Canon Alun Jones, gyda Mr Huxley Thomas wrth yr organ. Mwynhawyd y wledd briodasol yng Ngwesty Bron Eryri pryd y daeth tua 65 o gyfeillion i ddymuno'n dda i'r pâr ifanc. Addurnwyd yr eglwys yn hardd iawn gan Mrs G.M. Jones, Alwyn, Stryd Capel Coch. Bydd Kenneth a Rhiannon yn gwneud eu cartref yn 13 Teras Marian, Deiniolen, a dymunir bob dedwyddwch a hir oes iddynt.

CYDYMDEIMLAD – Estynnir y cydymdeimlad dwysaf i Janet Thomas, Afon Teras ar ôl iddi golli ei mam a fu'n aros yng nghartref ei merch yn y Bontnewydd. Bu Mrs Roberts, a oedd yn 86 oed, yn byw y rhan fwyaf o'i hoes yn yr ardal hon, yn briod i'r diweddar Owen William Roberts, Talafon.

Hefyd cydymdeimlir â Mrs Annie Pritchard, 1 Ffordd Padarn a Mrs Mary G. Pritchard, Stryd Turner, hwythau wedi colli eu brawd, Dafydd Griffith, a drigai ger Wrecsam. Bu yntau'n byw yn yr ardal am flynyddoedd, ac 'roedd yn boblogaidd iawn ym myd y bêl-droed yn y cylch.

NOFIO – Mae brwdfrydedd mawr ar hyn o bryd ymysg y plant ynglŷn â dysgu nofio. Mae'r plant a ganlyn wedi ennill bathodynnau i brofi eu medrusrwydd gyda'r nofio yng Nghanolfan Nofio Bangor:

Robert, mab Mr a Mrs Gray-Williams, Creigiau, wedi ennill y Fedal Efydd, Arian ac Aur, ac mae'n awr yn dysgu sut i achub bywyd. Da iawn Robert – rhywbeth gwerth ymarfer ag ef ynte! Daliwch ati. Hefyd Trystan Thomas wedi ennill bathodyn am nofio 10 medr a 20 medr, Euron Thomas wedi ennill y bathodyn cyntaf – bathodyn y dysgwyr. Mae Catherine, chwaer Robert, wedi ennill medal am nofio 800 medr. Byddwch wedi dal Robert yn fuan iawn Catherine. Ardderchog iawn.

YN YR YSBYTY – Yn yr ysbyty ym Mangor mae Mr Alun Roberts, Rhes y Faenol, hefyd Mrs Parry, Sryd Ceunant, hithau wedi disgyn a thorri ei choes.

Dymunir iddynt adferiad llwyr yn fuan iawn.

PERSONOL – Deallwn fod Mr John Hugh Hughes, prifathro ysgol Dolbadarn yn cwyno, ac mae wedi mynd am seibiant bach at ei ferch i'r Bala. Brysiwch fendio Mr Hughes – dyna ddymuniad y plant a'u rhieni – hefyd yr athrawon i gyd.

CLWB Y MAMAU IFAINC – Yn ystod y mis diwethaf cafwyd nosweithiau difyr iawn, nosweithiau llawen, ysgafn, a nosweithiau difyr ac addysgiadol. Gyda Mrs Carys Hughes yn llywyddu bu Mr Hugh R. Jones yn sôn am Y Chwarel a'r Cymeriadau Doniol a fu'n gweithio yno. Roedd mor ddifyr, ni phetrusai yr un o'r aelodau pe bai wedi siarad am awr arall. Diolchwyd iddo gan Mrs Carys Hughes. Noson ddifyr arall a gafwyd gyda 'Doctor Pam', un o ddoctoriaid y cylch. Cafwyd llawer o wybodaeth gwerthfawr iawn ganddi. Diolchwyd iddi gan y llywydd, Mrs Mary Owen, Dôl Elidir.

DYWEDDÏAD – Cyhoeddir dyweddïad Robin, mab Mr a Mrs Ieuan Ellis Jones, Erw'r Coed ac Anna Christine, merch hynaf Mr a Mrs Neville Anthony Jones, Pant y Crug, Cydweli, Dyfed. Llongyfarchion i'r ddeuddyn.

DAMWAIN – Dair wythnos yn ôl ar fore Sadwrn syrthiodd Mrs Roberts, Arfryn yn Eglwys Sant Padarn a thorri asgwrn yn ei garddwrn. Deallwn ei bod yn gwella'n araf – a da iawn yw clywed hyn – dymunir iddi lwyr wellhad yn fuan iawn.

LLWYDDIANT – Llongyfarchiadau i Rhiannon, merch Mr a Mrs Pritchard, Madryn, Stryd Newton ar ei llwyddiant yn arholiad Gradd 6 gyda'r piano. Hefyd Trystan Thomas, Tŷ'r Ysgol yn llwyddiannus yn y radd 1af. Hefyd yn yr 2il Radd – Christine Pitts, 3edd Radd – Sian Llywelyn, Gwenno Parri, Alison Povey, Leri Gwennan, Helen Mai, Hannah Rudkin, Myfanwy Roberts. 4edd Radd – Catrin Lloyd Roberts, Catrin Lennon (Theori), 5ed Gradd – Alison Edwards, Einir Parri, 6ed Gradd – Bethan Wyn Jones, Eleri Owen, Cheryl Parry. 7ed Gradd – Stephen Williams.

## ARWAIN GORYMDAITH



CYMANFA – Cynhaliwyd cymanfa dosbarth Llanberis a Dinorwig yng nghapel Coch ddydd Sul Mai 2 gyda Mr Irfon Ellis yn arwain a Mrs Vera Griffith yn llywyddu. Yr organyddion oedd Mr Hugh Peris Pritchard a Mrs Eluned Mai Jones.

**Arholiad Llafar. Dan 4 oed**: Beverley Roberts, Rehoboth, **Dan 5:** Carys Reynolds a Manon Ll. Williams, Gorffwysfa. **Dan 6:** Rhian Rhomas, Gorffwysfa. **Dan 7**: Marc Reynolds, Gorffwysfa. **Dan 9**: Alan Pritchard a Iestyn Roberts, Rehoboth. Glenda Jones, Capel Coch. 2. Annette Sellars, Gorffwysfa. **Dan 10:** Einir Thomas, Gorffwysfa. **Dan 11**: Jacqueline Ann Sellars, Gorffwysfa. **Dan 12**: 1. Arwyn Roberts, Rehoboth. 2. Sian Ellen Pritchard, Rehoboth. **Dan 13**: Sharon Roberts, Rehoboth. **Dan 14**: Ann Vaughan Evans, Gorffwysfa. **Dan 16**: Melanie Tina Sellars, Gorffwysfa.

**Arholiad Ysgrifenedig.** *(Arholwr y Parch W.O. Roberts, Llanrug).* **Dan 9**: 1. Iestyn Roberts, Rehoboth, 2. Alan Wyn Pritchard, Rehoboth. **Dan 11:** 1. Arwyn Roberts, Rehoboth, 2. Sian Elen Pritchard, Rehoboth, 3. Sian Gwyn Griffith, Preswylfa, 4. Nia Gwyn Griffith, Preswylfa. **Dan 14**: 1. Helen Mai Pritchard, Rehoboth, 2. Derek Hughes, Preswylfa, 3. Sharon Roberts, Rehoboth, 4. Catrin Lloyd Roberts, Gorffwysfa, 5. Ann Vaughan Evans, Gorffwysfa, 6. Eirian Wyn Hughes, Preswylfa, 7. Gillian Vaughan Jones, Gorffwysfa.

CRONFA'R ARENNAU – Ar hyd misoedd y gaeaf mae'r Pwyllgor lleol a ffurfiwyd i godi arian tuag at Yr Ymchwil i Afiechyd yr Arennau wedi dangos gweithgarwch aruthrol drwy gynnal gwahanol weithgareddau yma ac acw. Mae amryw o'r aelodau wedi trefnu nosweithiau llawen yn eu cartrefi er codi arian i'r gronfa.

Cyflwynodd Sian Thomas, Tŷ'r Ysgol, llywydd y Pwyllgor ym mis Ionawr siec o £300 i Mr Robert Sells, Yr Ysbyty Frenhinol Lerpwl, ac ym mis Mai fe gyflwynodd siec am £300 i'r ysbyty. Mae'r cyfran yn profi gweithgarwch a fu, a dymuna Mrs Thomas ar ran Mr Robert Sells a'r ysbyty ddiolch i'r Pwyllgor am eu ffyddlondeb diffuant, ac i'r ardalwyr am eu cefnogaeth i'r ymdrech.

Swyddogion y Pwyllgor yw – Ysgrifennydd, Mrs Joan Hughes, Trysorydd, Mrs Eiddwen Thomas, ac aelodau'r pwyllgor yw – Mrs Mair Roberts, Stryd Warden, Nyrs Marian Jones, 'Rallt Goch, Mrs Enid Jones, Delfryn, Mrs Jean Roberts, Stryd Goodman, Mrs Madeline Rogers, Stryd Newton, Mrs Bet Roberts, Stryd Goodman, Mrs Doris Hughes, Beech Bank, Mrs Barbara Owen, Miss Jane Morris, Penbont, Mrs Carol Torr, Prince of Wales Hotel, Mrs Carys Williams, Graianfryn.

CLWB METHEDIG ERYRI – Ar Fai 10 bu'r aelodau am drip i Sir Fôn. Arhoswyd am ychydig ym Miwmares a chafwyd te yn Henllys Hall. Mwynhawyd y cyfan gan yr oll o'r aelodau.

MARWOLAETHAU – Y mis hwn eto mae amryw o'r ardalwyr wedi ein gadael – rhai ar ôl gwaeledd hir a phoenus, eraill yn frawychus o sydyn, ac mae'r colledion yma nid yn unig yn cyffwrdd â'r teuluoedd ond â'r ardal yn gyfan gwbl.

**Griffith Roberts** – Ar Ebrill 21 yn frawychus o sydyn bu farw Griffith Roberts, Gwesty Dolbadarn. Symudodd Griffith Roberts a'i deulu i Lanberis o Gors, Ty'n Rhos, Llithfaen rai blynyddoedd yn ôl, ac er mai byr fu ein hadnabyddiaeth ohono, roedd wedi ei dderbyn yn gynnes iawn gan yr ardalwyr.

Adnabyddwyd ef gan y mwyafrif fel 'Taid' – roedd mor gartrefol ei arddull, mor barod ei gymwynas, ac yn barchus o bawb bob amser. Roedd yn hynod o weithgar a'i brif ddiddordeb gyda garddio.

Claddwyd ei weddillion ym mynwent Llithfaen gyda'r gwasanaeth angladdol yn Eglwys Sant Padarn gyda'r Parchn Ganon Alun Jones a Herbert Thomas, yn gwasanaethu ddydd Llun, Ebrill 26. Estynnir cydymdeimlad yr ardal i'r teulu.

**George Parry** – Yn ei gartref, ar Fai 1 bu farw George Parry yn 85 oed.

Roedd yn enedigol o'r ardal ac


E.W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis

Ffôn: 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

## LLANBERIS (parhad)

wedi byw yma erioed, oddigerth y blynyddoedd y bu'n gwasanaethu yn y fyddin. Saer coed ydoedd wrth ei alwedigaeth ac wedi ei brentisio yn yr ardal gan y diweddar John Owen, y Saer. Er na chafodd iechyd perffaith ar ôl dod o'r rhyfel – daliodd ati i weithio'n ddygn yma ac acw, ac roedd galw mawr am ei wasanaeth. Roedd yn hwyliog bob amser, ac yn barod iawn ei gymwynas. Magodd bedwar o fechgyn, a bu'r pedwar, gyda'u gwragedd, yn fyddlon iawn iddo, nid yn unig y misoedd diwethaf yma, ond ar hyd y blynyddoedd aeth heibio. Ei brif ddiddordeb mewn bywyd oedd ei gartref a llwyddiant ei blant. Cynhaliwyd gwasanaeth yn Eglwys Sant Padarn gyda'r Parchn Canon Alun Jones a T. Jones, Caernarfon yn gwasanaethu a chladdwyd ei weddillion yn mynwent Nant Peris. Estynnir y cydymdeimlad dwysaf â'i weddw, y meibion a'u gwragedd, a'r teulu i gyd yn eu colled.

**William Huw Williams** – Ar Fai 6 yn 72 oed bu farw William Huw Williams yn ei gartre. Bachgen wedi ei eni a'i fagu yn yr ardal ydoedd Wil Penry, fel yr adwaenai'r trigolon ef. Wedi gadael yr ysgol aeth i weithio yn y Chwarel ac roedd yn boblogaidd iawn ymysg ei gydweithwyr. Ei brif ddiddordeb ydoedd pêl-droed, ac roedd yn aelod o dîm pêl-droed Llanberis am flynyddoedd, a bu'n aelod o'r pwyllgor hefyd. Cymeriad hynod o gyfeillgar ydoedd Wil, pawb â ryw sgwrs neu stori gydag ef ar gongl stryd, ac roedd yn dynnwr coes heb ei ail – ac yn gellweirus dros ben. Onid yw yn resyn ein bod yn colli'r cymeriadau difyr, doniol yma o'n plith? Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yng Nghapel Gorffwysfa gyda'r Parch Marcus Robinson yn gwasanaethu, a chladdwyd ei weddillion ym mynwent Nant Peris. Cydymdeimlir â'i frawd Glyn Penry Williams, ei ferch Sandra, ei wyrion a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

**Mrs C.M. Hughes** – Ar Ebrill 30 yng nghartref ei merch yn Llandegfan, Môn bu farw C. May Hughes, Bryn Mêl, gweddw'r diweddar Willie Hughes, Bron Eryri. Ganwyd a magwyd hi yng Nghwm-y-glo, ond ar ôl priodi daeth i fyw i Bron Eryri, lle y bu'n ffermio gyda'i phriod. Dioddefodd salwch blin iawn am amser maith, ond dioddefodd y cyfan yn dawel gan gadw ei hysbryd yn uchel. Cymerodd ddiddordeb yn ei theulu a'i chartref hyd yr eithaf a bydd colled fawr ar ei hôl. Bu'n weithgar yng ngwaith yr Eglwys yn Preswylfa, yn fyddlon gyda Sefydliad y Merched, ac yn aelod o Gôr Merched Llanberis dan ofalaeth y diweddar L. James, Snowdon View.

Ar Fai 4 cynhaliwyd gwasanaeth yng nghapel Preswylfa gyda'r Parch Marcus Robinson yn gwasanaethu, a rhoddwyd teyrnged iddi gan Hugh R. Jones, blaenor. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent Llanrug. Cydymdeimlir â'i mab a'i merch, a'u teuluoedd, yn eu profedigaeth.

**Mrs Marie Ann Jones** – Ar Fai 4 yn Birmingham bu farw Mrs Marie Ann Jones, gweddw'r Rhingyll Emyr Jones. Cynhaliwyd Gwasanaeth Coffa iddi yn Eglwys Sant Padarn gyda'r Parch Ganon Alun Jones yn gwasanaethu. Cydymdeimlir â Iorwerth ei hunig fab yn ei brofedigaeth.

**Mr Gwilym Edwards** – Yn ei gartref, Victoria House ar Fai 9 bu farw Gwilym Edwards yn 85 oed. Bu'n wael am fisoedd lawer, ond roedd yn hynod o galonnog a hwyliog gyda phawb er ei fod wedi ei gaethiwo i'w wely. Brodor o Lanrug ydoedd, a phawb yno'n ei adnabod fel Gwilym Rhos Ddu. Wedi priodi daeth i weithio yn Llanberis i'r Co-op, a rhoddodd wasanaeth ffyddlon iawn i'r C.W.S. am 50 mlynedd, a gorffen ei yrfa fel Rheolwr y busnes. Bu'r Co-op dan ei reolaeth yn llwyddiannus iawn yn gwerthu, nid yn unig bwyd, ond glo, dillad, paraffin, blawdiau i'r ffermwyr, dodrefn, llestri a thaclau tŷ – mewn gwirionedd gwerthid popeth yno, ac roedd 'Edwards' fel y cyfeiriai pawb ato, yn barod i helpu pawb bob amser. Gwnaeth ddiwrnod gonest iawn o waith, ac roedd yn feistr caredig ac ystyriol iawn gyda'r gweithwyr yn y busnes.

Trefnwyd yr angladd ddydd Mawrth Mai 11 gyda'r gwasanaeth yn Eglwys Sant Padarn dan ofalaeth y Canon Alun Jones. Cydymdeimlir â'r weddw, y ddau fab a'u teuluoedd ac eraill o'r teulu.

DIOLCH – Dymuna Ruth, Plas Tirion ddiolch i'r teulu a ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn ddeunaw oed.

RAFFL – Trefnwyd raffl tuag at dreuliau 'Gwlith' i fynd i'r Ŵyl Geltaidd yn Iwerddon. Enillwyd yr hamper gan Mr Gordon Branigan, Maes Padarn a'r lamp (rhodd Mr Evan Wilson Hughes) gan Einir Thomas, Stryd y Ffynnon.

Dymuna'r grŵp ddiolch i Yncl Wilson, ac i bawb am eu cefnogaeth – yn arbennig i'r rhai a gymerodd ran yn y cyngerdd. Diolch yn fawr.

## GWYBODAETH, OS GWELWCH YN DDA.



*Hoffai Mr Tecwyn Hughes, Stryd Ianci, Llanberis gael gwybod pwy yw'r bachgen o Lanberis sydd yn y llun. Torwyd y llun a'r wybodaeth o bapur Cymraeg rai blynyddoedd yn ôl. Dyma'r wybodaeth: "Dau Gymro oedd yn gweithio yn Chwarel Llanberis sydd yn awr gyda'i gilydd rhywle yn Lloegr gyda'r R.A.M.C. Eu henwau yw Pte. J.M. Jones o Lanberis a Pte. G.O. Williams o Fethel."*

EISTEDDFOD EGLWYSI'R PLANT, Capel Coch, Gorffwysfa, Preswylfa, Rehoboth a Nant Padarn –

**Canu. Dan 4 oed:** 1. Marion Ll. Williams, 2. Sara Pepper, 3. Llinos Huws, 4. Lliwen Huws ac Alun Vaughn. **Dan 5**: 1. Rhian Thomas, 2. Mannon Roberts, 3. Carys Reynolds. **Dan 6**: 1. Iona Vaughn a Jason Bayliss. **Dan 7**: 1. Arwyn Hughes, 2. Mark Reynolds, Dylan Williams a Llinos H. Jones, 3. Philip Cussons. **Dan 8**: 1. Carys Hughes, 2. Ruth Cussons a Hayley Griffith, 3. Euron Thomas a Nicola Bayliss. **Dan 9**: 1. Simon Williams, 2. Trystan Thomas, 3. Julie Bayliss a Iestyn Roberts. **Dan 10**: 1. Hannah Rudkin, 2. Delyth Williams, 3. Christine Pitts, Einir Thomas a Sharon Phillips. **10-12**: 1. Helen Mai Pritchard, 2. Siân Ellen Pritchard, 3. Fiona Prydderch a Nia Thomas. **12-15**: 1. Catrin Ll. Roberts, 2. Morfen Hughes, 3. Janet Hughes. **15-17**: 1. Rhiannon Pritchard, 2. Amanda Sellars, 3. Mennai Hughes. **Modulator dan 8**: 1. Euron Thomas a Carys Hughes. **Dan 10**: 1. Julie. **Dan 12**: 1. Nia Gwyn Griffiths, 2. Sian Ellen. **Dan 14**: 1. Catrin Roberts, 2. Janet Hughes, 3. Morfen Hughes. **Dan 17**: 1. Rhiannon, 2. Bethan Hughes, 3. Bethan Jones. **Piano dan 10:** 1. Hannah, 2. Trystan, Christine ac Einir. **Dan 12**: 1. Helen Mai, 2. Nia Gwyn a Sian Ellen. **Dan 14**: 1. Ffion, 2. Timothy, Sharon, Ann a Catrin. **Dan 17**: 1. Rhiannon, 2 Bethan Jones a Bethan Hughes. **Adrodd. Dan 4**: 1. Sara, 2. Manon Ll., 3. Alun, Lliwen a Llinos. **Dan 5:** 1. Rhian, 2. Carys, 3. Manon. **Dan 6:** 1. Jason, 2. Iona. **Dan 7**: 1. Llinos Haf, 2. Dylan, 3. Philip a Nicola. **Dan 8**: 1. Nicola, 2. Euron, 3. Ruth, 4. Hayley. **Dan 9:** 1. Iestyn, 2. Trystan, Julie a Simon. **Dan 10:** 1. Christine, 2. Einir, 3. Delyth. **10-12:** 1. Nia Gwyn, 2. Helen Mai, 3. Nia Thomas. **12-15:** 1. Bethan J., 2. Catrin, Sharon a Gwyneth. **Traethodau** *(Beirniad: Mrs Eunice Owen):* **Dan 8**: 1. Euron, 2. Llinos Haf, 3. Nicola, 4. Dylan. **Dan 9**: 1. Julie, 2. Trystan, 3. Simon, 4. Annette, 5. Glenda. **Dan 10**: 1. Christine, 2. Einir Thomas, 3. Daryl a Marc. **10-12**: 1. Jacqueline, 2. Gillian Vaughn, 3. Sian Ellen, 4. Nia Thomas. **Cân Werin**: 1. Rhiannon, 2. Amanda a Janet. **Deuawd**: 1. Rhiannon ac Amanda, 2. Bethan a Janet. **Deuawd Piano**: 1. Bethan J. a Catrin Lennon, 2. Bethan a Janet Hughes, 3. Catrin Roberts a Helen Mai, ac Ann a Cheryl Edwards. **Unrhyw offeryn**: 1. Bethan Jones. **Cân Actol**: 1. Parti Nant Peris. **Cân Ysgafn**: 1. Cenin. **Parti dan 17 oed**: 1. Cenin, 2. Lleisiau Eryri. **12-15**: 1. Bethan Jones, 2. Derek, Janet a Fion, 3. Colin. **15-17**: 1. Rhiannon a Bethan, 2. Mennai. **Arlunio** *(beirniad: Mr John Williams):* **Dosb. Meithrin**: 1. Mannon Ll., 2. Rhian, 3. Mannon Roberts. **Dosb. 1**: 1. Jason, 2. Iona. **Dosb. 2:** 1. Alwyn, 2. Phillip, 3. Dylan. **Dosb. 3**: 1. Carys, 2. Llinos Haf, 3. Hayley. **Safon 1**: 1. Glenda, 2. Karen, 3. Cai. **Safon 2:** 1. Trystan, 2. Christine, 3. Simon. **Safon 3**: 1. Delyth. **Safon 4**: 1. Glyn, 2. Nia Gwyn, 3. Sian Gwyn, 4. Nia Thomas. **Dosb. 1-2**: 1. Janet, 2. Catrin, 3. Colin. **Dosb. 3-4**: 1. Gwyneth, 2. Derek. **Dosb. 5-6**: 1. Mennai, 2. Rhiannon, 3. Bethan. **Gwnïo**: *(Miss Jane Morris):* **Safon 1:** Annette Sellars. **Safon 2**: Julie Bayliss. **Safon 3**: Jacqueline Sellars. **Safon 4**: Sian Ellen Pritchard. **Dosbarth 1**: Gillian Vaughn Jones. **Dosbarth 2**: 1. Einir, 2. Ann Evans. **Dosbarth 3**: Bethan Jones. **Dosbarth 4**: Melanie Sellars. **Maes Llafur**: *(Mr Alwyn Owen, Mr Cledwyn Parry):* **Dan 4**: 1. Beverly Roberts. **Dan 5**: 1. Mannon Williams, 2. Carys Reynolds. **Dan 6**: 1. Dylan Williams, 2. Llinos Haf Jones. **Dan 9**: 1. Glenda Jones, Euron Thomas a Iestyn Roberts, 2. Alan Wyn Pritchard. **Dan 10**: 1. Trystan Thomas, 2. Einir Thomas. **Dan 11**: 1. Delyth Williams. **Dan 12**: 1. Arwyn Roberts, 2. Sian Ellen Pritchard. **Dan 14**: 1. Ann V. Evans. **Dan 15**: 1. Bethan Wyn Jones.

**Rhannu'r Rhubannau – Nos Iau**: Valerie Pryddech, Gillian Jones, Einir Hughes. **Nos Wener**: Helen Mai Pritchard, Sharon Roberts, Catrin Ll. Roberts.

**Llywyddion**: **Nos Iau**: Mr Bryn Owen. **Nos Wener**: Mr Geraint Elis. **Arweinyddion**: Y Parch Marcus Robinson, Mrs Meira Bryn Hughes, Mr John H. Hughes, Mr Alwyn Owen.

Cafodd Trystan Thomas y Tlws am fwyaf o farciau dan 10 oed, a Rhiannon Pritchard y Tlws am gyfanswm uchaf y marciau dan 17 oed.

Carai'r ysgrifennydd ar ran y pwyllgor ddiolch i'r canlynol am roddi'r tlysau at yr Eisteddfod: Mr a Mrs Alwyn Owen, Stryd Siarlot, Morris Bros, Y Becws, Cwm-y-glo, Mr a Mrs Alfred Hughes, Bron Eryri, Mr a Mrs Idwal Ll. Roberts, Mr a Mrs Ieuan E. Jones, Erw'r Coed, Mr a Mrs Meirion Pritchard, Nant Peris, Mr a Mrs Cledwyn Parry, Glan y Don, Meira Pitts a Iola Sellars, (ysgrifennydd a thrysorydd).

## DINORWIG

CROESO – Estynnir croeso cynnes i'r Parch a Mrs Aled Edwards, B.A. a'r mab bychan, Seimon Dewi, Ficer newydd Penisarwaun, Llandinorwig a St. Mair Dinorwig i'n plith. Pob bendith iddo ar ei weinidogaeth yn y plwyf.

LLONGYFARCHION i Mrs Katie L. Hughes, 2 Maes Eilian, Dinorwig ar enedigaeth ŵyr bach iddi, sef Eilir, plentyn Mr a Mrs Isfryn Evans, Bryniau Fawnog, Bangor.

LLONGYFARCHION i Miss Annette Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol, ar dderbyn gwobr Grace Williams, – tlws – am y marciau uchaf yng nghystadleuaeth Adran Cerddoriaeth yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Llŷn ac Eifionydd eleni. Cyflwynir y tlws iddi yn Seremoni Agor Arddangosfeydd yr Eisteddfod ddydd Mawrth, Mehefin 1 1982 am 3.30 p.m. ar faes yr Eisteddfod.

COFION – Anfonir cofion at gleifion a rhai mewn profedigaeth yn yr ardal.


CYMYSGWR CONCRIT AR FENTHYG

£10 yr wythnos
£2.50 y dydd

HEFYD CLUDO LLWYTHI YSGAFN CLIRIO SAFLEOEDD, DANFON TYWOD, GRO A DEFNYDDIAU ADEILADU ERAILL

ERIC GOVER
11 STRYD YR WYDDFA
LLANBERIS
Ffôn: LLANBERIS 872285 NEU 871327

Y Bistro
45 Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: LLANBERIS 871 278
(Danny a Nerys Roberts)
Pryd gorau'r fro

# O LANRUG I PAPUA

*Cyfres o erthyglau achlysurol gan Bryn Roberts yn adrodd hanes ei fywyd, ei deulu a'i waith yn Papua.*

## 1. CYRRAEDD A DECHRAU ADNABOD Y WLAD

**CYCHWYN y daith ar y 6ed o Dachwedd 1981 o Lanrug. Daeth y teithio i ben i'r teulu ar y 9ed o'r un mis, ond i mi, teimlaf nad wyf wedi glanio yn iawn hyd yn hyn. Teithio yr oeddem i Papua New Guinea i mi lanw swydd fel awdur llyfrau mathemateg arbennig ar gyfer plant gwlad o lawer diwylliant gwahanol. Ehedeg o Lundain i Rufain, yna i Galcutta, Hong Kong, Manila ac o'r diwedd i Port Moresby, Papua New Guinea. Er ein bod fel teulu yn weddol gyfarwydd ag ehedeg, (wedi treulio dros 12 mlynedd yn Affrica) roedd y siwrnai hon yn anarferol o faith. Dau ddiwrnod cyfan mewn chwech sêt a dim ond cyfle i symud coes bob rhyw 3,000 o filltiroedd!**

Roedd yn poethi fesul tipyn, ac erbyn cyrraedd maes awyr Calcutta, roedd yn llethol o boeth a ninnau'n chwysu chwartia' yn ein "dillad Llanrug." Roedd hi'n dipyn ysgafnach yn Hong Kong gan fod yr ystafelloedd yn y maes awyr wedi eu claearu. Roedd Manila yn hollol wahanol – fel bod mewn cegin boeth ychydig amser cyn cinio dydd Sul yn yr haf! Cyrraedd Port Horesby am 6.30 y bore ar y 9ed o Dachwedd, a theimlo'n union fel crempog mewn padell ffrïo. Cipiwyd ni i westy distaw a'i ystafelloedd wedi eu hoeri fel rhewgell, ac yno buom yn cysgu am ddeuddydd.

Ond nid wedi dod yma i gysgu yr oeddwn, ac ar ôl y ddeuddydd byr o gwsg, roedd yn rhaid gadael y teulu (a oedd yn parhau i geisio torri'r record byd am gysgu!) ac ehedeg i Goroka ym mynyddoedd uchel Papua N.G. Yno, roedd cynhadledd fathemateg. Cefais groeso, er bod un neu ddau'n teimlo y dylwn fod wedi cyrraedd yno'n gynt! Os oedd Port Moresby yn boeth, roedd Goroka fel diwrnod o haf yn Llanrug – braidd yn oer! Treuliais dridiau yn crynu ac yn difaru na fyddai "dillad Llanrug" yn dal gen i! Trwy brofiad mae dysgu. Ar ddiwedd y gynhadledd ehedeg yn ôl yn y jet fach F28 i Port Moresby.

Erbyn cyrraedd Port Moresby yn ôl, roedd y teulu wedi deffro, ac yn weddol fywiog. Doeddwn i ddim. Teimlo'n llipa iawn – tebyg i Popeye heb ei 'spinach' goelia i.

O dow i dow a chyn y Nadolig, cawsom dŷ i fyw ynddo. Yn y flwyddyn newydd dechreuodd y genod – Alison, Sian a Glenda – mewn ysgol gynradd ac Elfed mewn ysgol uwchradd. Cafodd Dianne, y wraig, hithau waith mewn ysgol gynradd gyfagos. Roeddem fel teulu, yn dechrau setlo'i lawr yn ein gwlad newydd; yn dod i arfer â'r tywydd poeth ac ag amryw ffyrdd y bobl leol.

xxx

Yma, mae saith gant o ieithoedd gwahanol, ac am fod y wlad yn anodd i'w chroesi, mae llaweroedd o bobl nad ydynt yn gwybod am un byd ond eu llecyn bychan eu hunain. Mae hyn yn golygu fod rhai pobl nad ydynt ond wedi prin dod i gysylltiad â'r byd o'r tu allan. Yn wir, mae rhai llwythau yn bod heddiw sydd yn raddol ddatblygu o fod yn bobl oes y cerrig.

Mae wyneb y wlad mor amrywiol â lliw y bobl – o liw brown golau pobl yr arfordir, i frown tywyllach pobloedd yr ucheldir, ac i ddüwch pobl y Solomons.

Nid oes obaith gyrru car o un rhan o'r wlad i'r llall, ac y mae cerdded trwy'r coedwigoedd trwchus a'r 'swamps' yn drech na dyn. Yn yr awyr y mae teithio hwylusaf, ac o awyren, mae'r wlad fel carped o wlân gwyrdd, trwchus gyda phatrwm o afonydd llydan yma ac acw.

Dywedais eisoes nad wyf yn teimlo fy mod wedi glanio yn iawn eto. Eleni, hyd yn hyn, rwyf wedi teithio mewn awyrennau bach a mawr i Mendi, Goroka (fwy nag unwaith), Mount Hagen, Lae, Maday, Rabaul, Kerema, Bereina a Gogledd y Solomons. Holl bwrpas y teithio maith yw cyfarfod ag athrawon, plant, rhieni ac arolygwyr i holi pa fath o fathemateg maen nhw'n ei dybio y dylai'r plant ei ddysgu. Gan fod y rhan fwyaf o'r bobl yn byw mewn ardaloedd gwledig, rhaid i'r pethau a ddysgant fod yn addas i'w bywydau arbennig. Beth bynnag, mae hynny yn golygu llawer o drafaelio i mi – a hynny'n aml; ond mae hefyd yn golygu fy mod yn cael cyfle i adnabod y wlad ac i sgwrsio am hydoedd â rhai o'i phobl.

*Mwy o hanes y wlad y mis nesaf a chyfarfod â rhai Cymry yno.*



*Y cartref newydd — Dolafon — ger Port Moresby, Papua New Guinea.*



*Y plant yng ngardd eu cartref newydd — Glenda, Elfed, Sian ac Alison. Cofion cynhesaf at eu holl ffrindiau yn Llanrug.*

## DRAENOG



Collodd dyn o'r fro ei waled wrth fynd i nôl sglodion tatws i'w blant. Nid oedd yn gwybod am hyn nes y ffoniodd rhyw Samariad, ac fe aeth i lawr i'r 'pentre' i ddiolch iddynt – a phrynu peint iddynt; fe gostiodd yn ddrud iddo.

**YSGOL LENYDDOL GREGYNOG**
**Gorffennaf 9-11, 1982**
**DIWYLLIANT GWERIN**


Darlithwyr: Bedwyr Lewis Jones, Meredydd Evans, Enid P. Roberts, Ann Williams, Tom Jones (Llanuwchllyn), Robin Gwyndaf a datganiad gan Sian James.

Tâl (yn cynnwys llety a bwyd) £26.

Am ragor o fanylion cysylltwch â: Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru, 10 Tŷ Cae Ffynnon, Bangor, Gwynedd. Ffôn 53248.

Sut i ddod ymlaen yn y byd. "Fyddaf i a'r 'boss' byth yn ffraeo. Mae o'n mynd ei ffordd ei hun – a finna hefyd."


AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD I BLE BYNNAG Y BO . . .



BWSIAU ARFON
LLANRUG
(ERIC MORRIS)
Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

J.M. JONES A'I FAB
GWAITH CERRIG BEDDAU
A THREFNWYR ANGLADDAU
DEINIOLEN
Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)
Y FELINHELI 670124 (Nos)

# DEINIOLEN

CYMANFA YSGOLION DOSBARTH DEINIOLEN

Cynhaliwyd y Gymanfa yng Nghapel Ysgoldy, Clwt-y-bont, Deiniolen Mai 2, 1982. Arweinydd y Gân oedd Mrs Einir Wyn Williams, Rhiwlas. Gwobrwywyd y canlynol yn y prynhawn.

**Arholiad Llafar dan 5 oed:** 1. Shaun Davies, Bethan Williams, Tania Marie Thomas, Disgwylfa. Gwenan Elis, Richard Peters, Carwyn Morris, Dewi Owen, Cysegr. **Dan 5:** 1. Martin Owen, Brynrefail. **Dan 6:** 1. Dafydd Euron Williams, Brynrefail, Eilir Wyn Williams, Cefnywaun, Julie Jones, Llinos Angharad Morris, Huw Owen, Llinos Ann Roberts a Menna Douncey Williams, Cysegr, Elena Willliams, Gavin Saynor, Disgwylfa. 2. Euros Wyn Williams, Cefnywaun, Catrin Keller, Disgwylfa. **Dan 7:** 1. Nicola Houston, Owain Gwyn, Brynrefail, Gawr Williams, Cefnywaun, Esyllt Môn Jones, Cysegr, Maria Jane Davies, Disgwylfa. 2. Arfon Roberts, Cysegr, John Evans, Brynrefail, Barry John Thomas, Disgwylfa. **Dan 8:** 1. Bethan Jones, Ian Jones, Cysegr, 2. Sioned M. Owen, Ruth Parry, Cysegr, 3. Fiona Owen, Gwyn Hughes, Cysegr, Nia Lynne Saynor, Disgwylfa. **Dan 9:** 1. June Marie Williams, Mared Wyn Sutherland, Cefnywaun, Gwen Jones, Cysegr. 2. Eira Wyn Evans, Brynrefail, Ian Roberts, Cysegr, Dylan Price Williams, Ysgoldy. 3. Ceryl Roberts, Cysegr, Eleri Llwyd Jones, Disgwylfa. **Dan 10:** 1. Catrin Gwyn, Brynrefail, Dylan Wyn Williams, Cefnywaun. 2. Maria Evans, Brynrefail, Rhian Hughes, Carys Owen, Cysegr. 3. Kelvin Roberts, Cysegr, 4. Paula Ellen Walters, Brynrefail, Huw Llewelyn Williams, Cysegr. **Dan 11:** 1. Joanna Evans, Caron Haf Jones, Glenda Ann Walters, Brynrefail, Aled Jones, Elwyn Hope Parry, Cysegr. 2. Einir Gwyn, Brynrefail, 3. Eirlys Jones, Cysegr. **Cydadrodd Dan 9:** 1. Parti Ian, Cysegr, 2. Parti Brynrefail, Parti Cim, Cysegr, 3. Parti Huw, Cysegr, Parti Disgwylfa. **Dan 11:** 1. Parti Brynrefail, 2. Parti Disgwylfa. **Dan 12:** 1. Meinir Dauncey Williams, Helen Jane Jones, Cysegr, Nerys Williams, Brynrefail, 2. Rhian Price Williams, Ysgoldy, 3. Jacqueline Walters, Brynrefail, 4. Amanda Owen, Cysegr. **Dan 13:** 1. Alwen Jane Jones, Brynrefail, Wendy Rowlands, Disgwylfa. **Dan 14:** 1. Manon Dauncey Williams, Cysegr, 2. Enid Price, Cysegr, 3. Bethan Jones, Disgwylfa. **Dan 50:** 1. Miss Lowri P. Roberts, Brynrefail, Mrs Eurgain Jones, Myfanwy Wyn Jones, Mrs Nora Parry, Mrs Dianne Roberts, Cysegr. **Dros 50:** 1. Mrs M.L. Griffith, Brynrefail, Mrs Elsie Davies, Disgwylfa. **Cydadrodd dan 50:** 1. Parti Cysegr. **Arholiad Ysgrifenedig dan 9 oed:** 1. Eira Wyn Evans, Maria Evans, Catrin Gwyn, Brynrefail. 2. Mared Wyn Sutherland, Dylan Wyn Williams, Cefnywaun, 3. Paula Ellen Walters, Brynrefail, 4. June Marie Williams, Cefnywaun, 5. Donna Collins, Eleri Llwyd Jones, Disgwylfa, 6. Gwen V. Jones, Kelvin Roberts, Ian Roberts, Cysegr, 7. Ieuan G. Williams, Cefnywaun, 8. Mandy Williams, Cysegr. **Dan 11:** 1. Einir Gwyn, Brynrefail, 2. Glenda Ann Walters, Brynrefail, 3. Dyfrig Wyn Lewis, Disgwylfa, 4. Joanne Mai Evans, Brynrefail, Ceri Wyn Williams, Disgwylfa. 5. Della Wyn Jones, Cefnywaun, Sharon Kristie Griffiths, Disgwylfa, 6. Elwyn Hope Parry, Cysegr, Nerys Williams, Brynrefail, 7. Angharad Elis, Cysegr, Carys Owen, Cysegr, 8. Caron Haf Jones, Brynrefail, 9. Aled Jones, Cysegr, Tegid Wyn Roberts, Jenny Ann Williams, Cefnywaun, 10. Eirlys Jones, Cysegr, Sarah Davies, Disgwylfa.

Llywyddwyd cyfarfod y prynhawn gan Mrs Miriam Lewis, Disgwylfa a chyfarfod yr hwyr gan Mr John Owen, Cysegr. Cymerwyd gwasanaeth dechreuol y prynhawn gan Ceri Wyn Williams, Disgwylfa, Dylan Wyn Williams, Cefnywaun, Alwen Jane Jones a Jacqueline Walters, Brynrefail a Parti Ian, Cysegr. Yn yr hwyr cymerwyd rhan yn y gwasanaeth dechreuol gan Rhian Price Williams, Carys Lloyd Griffith a Mr E.W. Williams, Ysgoldy a chafwyd eitemau gan Manon D. Williams, Cysegr a Pharti Cydadrodd Cysegr.

LLONGYFARCHIADAU i Jennifer Jones, merch Mr a Mrs Ernest Jones, Hafan, 7 North Road, ar ennill y fedal aur am nofio. Merch fach 10 oed yw Jennifer ac mae wedi ennill y fedal efydd a'r arian yn barod, ac nawr wedi cael y fedal aur. Daliwch ati, da iawn chi.

DIOLCH – Dymuna Mrs Jane Evans, 16 Maes Gwylfa ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a'i ffrindiau am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniodd tra bu'n derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Eryri, Caernarfon. Diolch o galon i'r staff i gyd yn Ward Padarn am eu holl garedigrwydd tuag ati.

CERDDORIAETH – Llongyfarchiadau i'r canlynol ar eu llwyddiant mewn arholiadau'r piano – Helen Mair Jones, 14 Tai Marian, Gradd 5, (Teilyngdod); Cheryl Parry, 3 Tai Gwyrfai, Gradd 6. Rhian Jones, 2 Tai Gweledfa, Gradd 7 (Teilyngdod); Eleri Owen, Stryd Newydd, Gradd 6.

CYNGOR EGLWYSI – Cynhaliwyd cyfarfod dan nawdd y Cyngor i agor Wythnos Cymorth Cristnogol yn Festri Cefn-y-waun Mai 10 pryd y cymerwyd rhan gan bobl ifainc yr eglwysi.

Y SEINDORF – Nos Sadwrn nesaf bydd y Seindorf yn cymryd rhan mewn Noson o Gawl a Chân yn Aber ger Bangor. Cymerir rhan gan Hogia Llandegai, Dai Jones o Siôn a Siân (HTV), Gari Williams, (BBC Cymru, Bangor), a llu o rai eraill.

Enillwyr Clwb 200 am fis Mai: 1. £25, Rhif 74, D. Pritchard, 1 Ffordd Deiniol, 2. £15, Rhif 127, Mr H. Howells, Plas Gogarth, Llandudno, 3. £5, Rhif 100, B. Jones, Minafon, Clwt-y-bont.

DYMUNA Mrs Wenna Pritchard 67 Brongraig, Llangefni ddatgan ei gwerthfawrogiad am bob arwydd o gydymdeimlad ar golli ei hannwyl briod, Alvin Pritchard, mab y diweddar Mr a Mrs James Pritchard, New Street, Deiniolen. Hefyd am yr holl gardiau a'r blodau hardd, ac i'w holl ffrindiau a ddaeth o Ddeiniolen i'r angladd. Diolch o galon i chwi oll.

YSGOL FEITHRIN – I ddathlu'r Ŵyl Feithrin eleni cynhaliwyd y gweithgareddau canlynol gan y cylch lleol – nos Wener, Mai 7 cynhaliwyd noson Bingo yn Ysgol Gwaun Gynfi, yr enillwyr oedd Mrs Nan Roberts, Mrs R. Worth, Mrs E. Foster, Mrs Irene Williams, Mr Gwilym Rowlands, Mrs E.A. Williams, Mrs Marian Williams, Mrs Kathleen Davies, Mrs Nancy Rowlands, Mrs B. Syster, Mrs L. Lewis, Mrs Nellie Parry, Mrs Edna Jones. Enillwyr y raffl – 1af Mrs Nancy Rowlands, (pâr o gyfnasau); Mrs Cath Evans (cloc llechan); Mrs Menna W. Jones (bocs siocled). Dymuna'r pwyllgor ddiolch am gael defnyddio'r ysgol ac i Mrs Eurwen Roberts am ei chymorth yn darparu paned o de ac i Mr Ellis Wyn Williams am alw'r rhifau ac i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw ffordd. Ar y dydd Mercher yn ystod yr Ŵyl aeth y ddwy athrawes, y mamau a'r plant i Fangor i fwynhau bore o Firi Meithrin yn Neuadd John Phillips. Roedd y plant i gyd dros ugain ohonynt, wedi eu gwisgo i fyny fel cymeriadau allan o lyfr 'Hwiangerddi'r Dref Wen'.

Roeddynt yn werth i'w gweld yn cychwyn ar y bws. Dymuna'r pwyllgor ddiolch hefyd i'r deg a gymerodd ran yn y gystadleuaeth noddi 'colli pwysau' a lansiwyd gan Bwyllgor Cenedlaethol y Mudiad. Roedd yn dechrau Ebrill 1 ac yn gorffen Mai 6. Collwyd 82 o bwysi yn y cylch lleol a chasglwyd £85 mewn arian – ei hanner i'r cylch, a'r hanner arall i'r Mudiad. Y cylch a orfu oedd Tywyn Meirionnydd a'r unigolyn a gollodd fwyaf o bwysa' yn dod o Drefin. I gloi'r wythnos aeth y mamau a'u ffrindiau ynghyd â'r rhai oedd wedi bod yn ymdrechu i golli pwysau, i Westy'r Foelas Llanrug i fwynhau cyw iâr a sglodion mewn basged a chafwyd Disgo.

Ar hyd yr wythnos Feithrin 'roedd rhan o waith cylchoedd Arfon yn cael arddangos yn y llyfrgell yng Nghaernarfon, a chymerodd yr ysgol leol ran.

Y TABERNACL – Yn Eglwys Disgwylfa ddydd Sul Mai 30 cynhelir Cyfarfod Pregethu. Y gŵr gwadd yw'r Parch John Alun Roberts, Rhydfoel. Dechreuir yr oedfaon am 10 o'r gloch a 5 o'r gloch.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Nos Lun, Mai 10 darllenwyd y cofnodion gan yr ysgrifennydd Mrs B.W. Davies, a'r llythyr misol gan y llywydd, Mrs J.E. Williams.

I'n hannerch ar y penderfyniadau a draddodir yn y Cyfarfod Blynyddol yn Llundain, daeth Mrs Myfanwy Wigley, Bontnewydd. Eglurwyd y testun yn drwyadl ac eglur gan Mrs Wigley. Diolchwyd iddi gan Mrs Rita Jones, is-lywydd. Y gwestwragedd oedd Mrs B.W. Davies a Mrs J.E. Williams. Cydymdeimlwyd â dwy o'n haelodau sef Mrs Sally Lewis a Mrs Ethel M. Roberts ar farwolaeth eu brawd. Hefyd â theulu'r ddiweddar Miss Eleanor Jones, oedd yn un o rai a sefydlodd y gangen yn Neiniolen, ac a fu'n deyrngar iddi ar hyd ei hoes.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, Mehefin 7 am 7 o'r gloch pryd y croesewir Miss Hazel Bradley, Llanfairfechan fel feryllydd mewn ysbyty yn yr India. Taer erfynnir am bresenoldeb yr aelodau.

MERCHED Y WAWR – Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol nos Lun Mehefin 21 yn Ysgol Gwaun Gynfi am saith o'r gloch. Taer erfynnir am bresenoldeb yr oll o'r aelodau i'r cyfarfod pwysig yma gan y bydd angen dewis swyddogion am y cyfnod o fis Medi 1982 hyd Mehefin 1983. (Kathleen Jones, Ysgrifennydd)

CLWB ELIDIR – Cyfarfu'r aelodau yn y Clinic ddydd Mawrth Ebrill 27 dan lywyddiaeth Mrs C. Marren. Dymunwyd adferiad buan i amryw o'r aelodau oedd yn cwyno. Rhoddwyd y te gan Mrs Griffith, 26 Rhydfadog, Mes Lewis, 9 Maes Gwylfa, Mrs Williams, Chwarel Goch a Miss L. Thomas, Llidiart y Clo – y ddwy o Ddinorwig. Mynegwyd cydymdeimlad â Mrs H.J. Thomas, 6 Tai Marian ar golli ei chwaer, Mrs Ethel M. Roberts, 89 Pentre Helen a Mrs Sally Lewis, Green Terrace ar golli brawd. Enillwyd y raffl gan Mrs Katie Jones, 7 Tai Cynfi a Miss K. Jones, Prenteg. Roedd y raffl yn rhoddedig gan Mrs Nancy Rowlands, 12 Pentre Helen.

Ddydd Mawrth, Mai 11 llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs C. Marren. Treuliwyd pnawn hynod o ddifyr pryd y cafwyd cwestiynau o ddiarhebion dan ofal Mrs Nancy Rowlands, 12 Pentre Helen. Yn cadw cyfrif o'r atebion oedd Mrs Nancy Thomas, 62 Pentre Helen. Talwyd diolch i'r ddwy gan Mrs Megan Morris, Dinorwig a Mrs Griffith, 26 Rhydfadog. Y cyfrif ar y diwedd oedd: Tim A 94 o farciau, Tim B 103 o fraciau.

Cydymdeimlwyd â Mrs Laura Williams, 20 Hafod Olau a gollodd fab yn y Bontnewydd, sef William Idris. Hefyd â Mrs Mary Griffith, 57 Pentre Helen a Mrs Blodwen Parry, 2 a 3 Stryd Newydd (colli perthynas, Alvin Pritchard, yn Llangefni). Rhoddwyd y te gan y rhai canlynol, Mrs Nancy Rowlands, 12 Pentre Helen, Mrs Maggie Morris, 87 Pentre Helen, Mrs E. Williams, 2 Bwthyn, Mrs E. Williams, 8 Ffordd Deiniol. Enillydd y raffl oedd Mrs Jennie Evans, 3 Hafod Olau, rhoddedig gan Mrs Williams, 2 Bwthyn. Bydd trip Clwb Elidir ddydd Iau Mehefin 24. Ceir mwy o fanylion ymhellach ymlaen ynglŷn â'r trip.

YMDDEIHEURO – Ar ran yr *Eco* hoffwn ymddiheuro i Mrs A.M. Morris, 4 Marian Terrace a Mrs Ellen Close, 16 Maes Gwylfa am yr anffawd a ddigwyddodd yn rhifyn Mai pan ymddangosodd eu diolchiadau yng ngolofn newyddion Penisarwaun. Mae'n wir ddrwg gennyf am hyn.

Tony Elliott, Golygydd Newyddion.


**CABS PADARN**

**FFÔN: LLANBERIS 871347**

**Gwasanaeth Tacsi a Bws Mini**

**Gwasanaeth Maes Awyr a Phorthladd**

**Unrhyw bellter: Hur Gontract**



**SCIPIAU ARFON**

YMGYMERIR Â CHLIRIO SBWRIEL O BOB MATH

SBWRIEL ADEILADU, CARTREF A DIWYDIANNOL

TELERAU RHESYMOL

**Ffôn:**

**Dydd Caernarfon 5670**

**Llanfairfechan 680 329**

**Gyda'r Nos**

**Llanberis 872236**





*Diolch i Mrs M.G. Williams, Gwylfa, Bethel am anfon y llun inni. Nid yw Mrs Williams yn gwybod dim o'i hanes. Pwy yw'r dynion? Beth oedd yr achlysur ac ym mhle y cafodd ei dynnu? Anfonwch air atom os gellwch ein helpu.*

# AWSTRALIA'N GALW

Dydd Gŵyl Ddewi 1982 – derbyn llythyr oddi wrth Mrs Mary Vaughan Jones, Hafod-y-Coed, Waunfawr, a chan ei fod wedi ei gyfeirio i'm merch Gwyneth, roedd raid aros i wybod ei gynnwys nes iddi hi ddod o'r gwaith i'w agor. Y llythyr yn dadlennu'r ffaith fod 'Miss Parry Biol' fel yr adwaenem ni hi, yn cyrraedd Awstralia ar 19 o Fawrth.

Buasai un yn meddwl oddi wrth yr 'excitement' ei bod yn cyrraedd fore trannoeth. Fy mhriod, Harry, Gwyneth y ferch, Euros y mab a minnau'n penderfynu fod yr achlysur yn galw am barti, felly dyma ddechrau ffonio Cymry o ardal Eco'r Wyddfa yma yn Sydney, a'u gwahodd i barti heb hyd yn oed wybod dyddiad ei gynnal. Ateb y llythyr annisgwyl yr un noson ac yn gorfod ei gadw i ryw chwe tudalen rhag ei blino wrth ei ddarllen.

yn canu a Mrs Vaughan Jones yn galw o Gymru, ac wedi sgwrsio ychydig, yn cydweld â ni, y buasai'n aros un pen-wythnos yma hefo ni fel teulu, yn hytrach nag mewn gwesty. Yr un pryd rhoddai hynny gyfle iddi weld y ffordd o fyw yma trwy lygaid Cymry, a chael golwg ar ddinas enwog Sydney.

Gwyddem ei bod yn cyrraedd Sydney ar ddiwrnod pwysig, dydd dathlu agor Pont Harbwr Sydney 50 mlynedd yn ôl yn 1932. Rhwng amser derbyn y llythyr a'i chyfarfod, bûm yn aml yn fy myd bychan fy hun, yn mynd yn ôl i hen Ysgol Brynrefail rhwng 1943-47 lle roedd 'Miss Parry' yn dysgu Bioleg, Hoci ac Ymarfer Corff i mi. Lawer gwaith y bûm ar daith natur i fyny llethrau'r Fachwen, o'r man y gwelais gyntaf frenhines yr Wyddfa. Yn ystod y Chwedegau, yn ysgol newydd Llanrug, bu'n athrawes i Gwyneth ac Euros hefyd.

Dydd Gwener Ebrill 2 – Mrs Vaughan Jones yn treulio diwrnod o gwmpas ein prif ddinas, Canberra, ac yn hedfan i Sydney yn yr hwyr. Gwyneth a'i phriod Brian yn y maes awyr yn ei disgwyl. Wedi hir ddisgwyl, clywed sŵn corn car y tu allan i'r tŷ a rhedeg allan, a dyna gofleidio. Buaswn wedi adnabod fy nghyn-athrawes mewn torf yn rhywle ar wyneb y ddaear, ac yn hynod falch o'i gweld yn edrych mor



*Mrs Mary Vaughan Jones yn torri'r deisen i ddathlu ei hymweliad â theulu 'Roswyn'.*

ieuanc – heb ei gweld er dyddiau ysgol oddeutu 35 mlynedd yn ôl.

Mae Gwyneth yn berchennog Panda mawr, a'r peth cyntaf a welodd Mrs Vaughan Jones, wedi iddi ddod i'r ystafell eistedd, oedd Fred y Panda, yn eistedd ar bwffi, wedi ei wisgo mewn cap hogyn, tei a sgarff Ysgol Brynrefail ac yn chwifio rubannau lliwgar tai'r ysgol. Buom yn siarad yn ddi-baid dros gwpaneidiau te hyd noswylio tua hanner nos. Clywais y newyddion diweddaraf am rai o'm cyd-ddisgyblion ac hefyd ddarganfod fod ei hymenydd fel compiwtyr yn gwybod ateb i bob cwestiwn.

Bore Sadwrn Ebrill 3ydd – Gwyneth a Brian yn mynd â'n gwestai i Barc y Koala, ac yna i'r ddinas i ddangos rhai o'r pethau diddorol yno, y Bont enwog, a'r Tŷ Opera yn eu mysg.

Tra buont allan, bu Harry a minnau'n paratoi ar gyfer y parti i'w gynnal yn yr hwyr yn y 'carport'. Poeni ychydig, gan i'r gwynt godi a'r tymheredd ddisgyn, ond gwellhaodd pethau ac fe fuom allan hyd 9.30 p.m. Dyna lle roeddem yn siarad a bwyta, siarad ac yfed, a neb yn ddistaw am fwy nag eiliad, a'r camerâu yn clician o'i hochr hi. Gwledda ar gig a sosej oddi ar fflam y barbeciw, ham, salad, sosej rôls a peis bychain. Yna galw ar y westwraig i dorri teisen arbennig. Ym mysg y rhai oedd yma oedd Eira Wyn a Raymond Peters (Eira o'r Ceunant a Raymond o'r Waunfawr), Ifan, brawd Eira, a'i wraig Margaret (o Gaernarfon). Grace ac Eurwyn Roberts (o Lanrug) a Keith eu mab a'i gariad. Harry a minnau a'n teulu yn dod o Ddinorwig, ac allan o'r criw, tri yn unig oedd yn ddi-Gymraeg. Oerodd yn sydyn ar ôl 9.30 a daeth pawb i'r tŷ i gael cwpaneidiau o de neu goffi, a pharhau i siarad hyd tua 11.30. Ffarweliodd pawb â'i gilydd wedi cael amser difyr nag anghofir am gyfnod hir. Ni fel teulu, a hithau yn siarad wedyn a noswylio ychydig cyn 2 a.m. yn dra diolchgar ein bod yn troi'r cloc y noson honno, ac y caem awr ychwanegol yn y bore.

Bore Sul 4.4.82. Codi'n gynnar a chychwyn ar daith o ryw 50 milltir i Old Sydney Town. Lle wedi ei adeiladu i edrych fel 'roedd Sydney yn 1800 ac er bod llawer mwy o waith arno eto mae'n ddiddorol gweld o amgylch y lle. Yn ôl adref erbyn canol pnawn, ac wedi cael te, i lawr i'r dref at y trên oedd i gario ffrind oddi wrthym. Bu'r holl benwythnos yn wyllt ond yn un fythgofiadwy, a theimlem ni fel teulu yn ddiolchgar am y fraint o fod wedi cael Mrs Vaughan Jones i aros hefo ni.

Gobeithio y byddwch chwi fydd yn gallu mynd i wrando arni yn rhoi hanes ei thaith yn mwynhau'r rhaglen a gweld lluniau o'n dinas ni. Anfonwn ein cyfarchion at bawb yn ardal Eco'r Wyddfa, ac os bydd rhywun yn teimlo fel ysgrifennu neu ymweld â ni – CROESO.

Elizabeth a Harry Lewis
(Bryn Sardis Dinorwig gynt)

## Ffilmio ar gyfer S4C

Yn ddiweddar bu nifer o blant ysgol gynradd Llanrug yn Theatr Seilo yn paratoi rhannau o ffilm ar gyfer tair rhaglen grefyddol. Byddant yn ymddangos ar S4C rhwng y Nadolig a'r Pasg nesaf.

Dyma themâu y tair rhaglen – Dim lle yn y llety, Iesu'n tawelu'r storm a Claddu'r Iesu.

Diolch i Mrs Anwen Owen ac i Mr Edward Elias am baratoi'r plant ar gyfer y ffilmio.

## TRIM CHWIM?

Mae merch ifanc o fro Eco'r Wyddfa newydd agor siop drin gwallt yn Llanberis, Deiniolen, Bethel, Brynrefail, Cwm-y-glo, Llanrug a'r Fachwen! Ond cyn ichi, Mrs Jones, feddwl fod ganddi fwy o ganghennau na Woolworths gwell egluro mai gwasanaeth teithiol trin gwallt yn eich cartref yw syniad gwreiddiol Linda Owen, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug. Mae gan Linda dystysgrif yr *Hairdressing Council* a thros bedair blynedd o brofiad yn un o siopau trin gwallt Caernarfon, ond yn awr dyma hi'n mentro ar ei liwt ei hun. Meddai Linda, "Mae'r ffôn eisoes yn canu a chyn bo hir gobeithio, mi fydd gen i fy nghar fy hun yn lle car fy nhad!"

"Pwy fydd yn ateb y ffôn pan fyddi di allan yn trin gwallt?" meddai gohebydd craff yr *Eco*. "Mam," meddai Linda, "a'r ffôn ydi Caernarfon 3674."

Cyfrwys iawn – mae'n haeddu llwyddo!


GWASANAETH *NEWYDD*
yng nghylch Eco'r Wyddfa
TRIN GWALLT YN EICH CARTREF
**Linda**
MOBILE HAIRDRESSER
Lliwedd
Ffordd Glanmoelyn
Llanrug

Ffoniwch
**CAERNARFON 3674**
am fwy o fanylion

# BRYNREFAIL

CLWB PEDWARUGAIN – Enillwyr mis Ebrill. Ebrill 2 – 1. Aled Green, 2. Meurig Jones, 3. Peter Casey. Ebrill 9 – 1. Elwyn Jones, 2. Gari Jones, 3. Jinnie Williams. Ebrill 16 – 1. Megan Jones, 2. Geraint Roberts, 3. Alwyn, Cae'r Bythod. Ebrill 23 – 1. Delyth, Cae'r Bythod, 2. Bertie Roberts, 3. Eirlys Williams. Ebrill 30 – 1. Ann Jones, 2. Priscilla Collins, 3. Eurwyn Williams.

CLWB Y MAMAU – Yng nghyfarfod y mis yn Nhŷ Glas, cafwyd noson ddifyr yng nghwmni Mrs Hasson yn datgan hanes ei hymweliad â Rwsia ym 1977. Rhoddwyd y te gan Pat Jones a Carol Houston, anrheg y mis gan Audrey Roberts ac fe'i enillwyd gan Carol Houston.

LLONGYFARCHIADAU i Gari Jones, Cae Coch am ennill y wobr gyntaf eleni eto yn ei gwrs yng Ngholeg Technegol Gwynedd ym Mangor. Ynghyd â'r dystysgrif fe'i cyflwynwyd set o gelfi iddo ar gyfer ei grefft fel plastrwr. Mae Gari yn brentis o dan hyfforddiant medrus Mr G.A. Williams, Felinheli, ac fe roddwyd y wobr gan y cwmni 'British Gypsum' a'r mudiad cenedlaethol contractwyr plastro.

CYDYMDEIMLAD – Bu farw Mr Elwyn Pritchard, 5 Minffordd oedd wedi dioddef gwaeledd yn ddewr ers peth amser. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys â'r teulu oll, ac yn enwedig gyda'r weddw Mrs Grace Ellen Pritchard.

CYMANFA DOSBARTH DEINIOLEN – Cynhaliwyd y Gymanfa eleni ddydd Sul Mai 3 yng Nghapel Ysgoldy, Clwt-y-bont, a gwnaeth holl ddisgyblion Ysgol Sul Brynrefail M.C. waith canmoladwy iawn yn eu harholiadau ysgrythurol ac ennill safleoedd anrhydeddus.

Gwobrwywyd yn yr **arholiad llafar dan 5 oed**: Martin Owen. **Dan 5:** Dafydd Euron Williams. **Dan 7:** Nicola Houston ac Owain Gwyn. **Dan 9:** Eira Wyn Evans. **Dan 10**: Catrin Gwyn, Maria Evans a Paula Walters. **Dan 11**: Joanne Evans, Caron Haf Jones, Glenda Walters ac Einir Gwyn. **Dan 12:** Nerys Ann Williams a Jacqueline Walters. **Dan 13:** Alwen Jane Jones. Daeth **Parti Cyd-adrodd dan 9** yn ail a **pharti dan 11 oed** yn gyntaf. **Dan 50**: Miss Lowri P. Roberts. **Dros 50**: Mrs M.L. Griffith.
**Yr arholiad ysgrifenedig dan 9:** Eira Wyn Evans, Maria Evans, Catrin Gwyn a Paula Walters. **Dan 11**: Einir Gwyn, Glenda Walters, Joanne Evans, Nerys Ann Williams a Caron Haf Jones.

Ymgymerwyd â rhannau o'r gwasanaeth dechreuol yn oedfa'r prynhawn gan Alwen Jane Jones a Jacqueline Walters.

CERDDOROL – Bu'r canlynol o ddisgyblion Miss L.P. Roberts, Godre'r Coed yn llwyddiannus mewn arholiadau canu'r piano dan nawdd Coleg Cerdd y Drindod, Llundain. Arholiad Ragarweiniol: Catrin Gwyn, Min-y-nant, Cwm-y-glo (anrhydedd); Gradd 1: Einir Gwyn, Min-y-Nant; Gradd 2: Elen Wyn Roberts, Afon Rhos, Llanrug (teilyngdod); Caron Haf Jones, 1 Tai Orwig (anrhydedd); Gradd 4: Alwen Jane Jones, 1 Tai Orwig (teilyngdod); Meinir Wyn Jones, 3 Trem Eilian (teilyngdod); Gradd 5: Helen Mair Jones, Rhes Marian, Deiniolen (teilyngdod); Gradd 7: Ruth Lennon, Plas Tirion, Llanberis (teilyngdod).

TRIP YR YSGOL SUL – Bydd trip yr Ysgol Sul eleni yn mynd i Southport ddydd Sadwrn, Gorffennaf 3. Derbynnir enwau a cheir yr holl fanylion gan Mrs Carol Houston, 2 Trem Eilian.

YR ARHOLIAD SIROL – Llongyfarchiadau i saith o aelodau Ysgol Sul Brynrefail M.C. ar eu llwyddiant yn yr Arholiad Sirol. Dosbarth dan 9: Catrin Gwyn, Paula Walters, Maria Evans ac Eira Wyn Evans. Dosbarth dan 11 oed: Catrin Gwyn, Joanne Evans a Glenda Walters. Gwobrwywyd hwy mewn cyfarfod o Henaduriaeth Arfon a gynhaliwyd yn Horeb, Llanfairfechan Mai 25.

# SIBRYDION O'R YSGOLION

## NEWYDDION YSGOL BRYNREFAIL

**CWM IDWAL**
Aeth rhai o aelodau'r chweched gyda Mr J. Lloyd i Gwm Idwal, y mis diwethaf, fel rhan o gwrs Daearyddiaeth Lefel 'A', i wneud gwaith maes ymarferol.

**CYFARFOD ATHLETAU'R YSGOL, MAI 11**

**EILIAN – 275½; ELIDIR – 288½; ERYRI – 285½; GWYRFAI – 355½.**

**VICTOR LUDORUM – Mathew Antoine – 23pt.** Mathew Ward – 21pt. Dafydd Jones – 18½pt.
**VICTRIX LUDORUM – Melaine Sellers – 42pt.** Delyth Williams – 32pt. Margaret Roberts – 28pt.

**PERFFORMIADAU GORAU**

**Bechgyn dan 13 – Mathew Ward,** ennill 800m, 1500m a chael 21pt i dŷ Gwyrfai. **Dafydd Jones,** ennill 18½pt i dŷ Eilian.
**Bechgyn dan 15 – Michael Roberts,** torri record taflu'r pwysau.
**Bechgyn Hŷn** – Wrth fod amryw o fechgyn wedi methu cystadlu oherwydd arholiadau, gwell fydd cyflwyno'r wobr yma ar ôl Cyfarfod Athletau Ysgolion Arfon.
**Genethod dan 13 – Rhian Lewis,** torri record 800m a 1500m.
**Genethod dan 15 – Petula Williams,** torri record Naid Uchel. **Susan Jones,** ennill 5 cystadleuaeth. **Delyth Williams** – ennill 32pt i dŷ Gwyrfai.
**Genethod Hŷn – Margaret Roberts,** ennill 28pt i dŷ Elidir.

Dyma'r trydydd tro i Melaine Sellars ennill y Victrix Ludorum. Yn rhyfedd, nid dyma'r gorau yn hanes mabolgampau'r ysgol: fe enillodd Joan Rees Edwards y Victrix bedair gwaith rhwng 1939 a 1942 **ond** mae gan Melanie flwyddyn arall yn yr ysgol ac felly cyfle gwych i efelychu'r gamp hon.

**CYNHADLEDD HANES**
Ddydd Gwener, Mai 14, aeth rhai o aelodau'r chweched dosbarth, ynghyd â Mr Harri Jones, i gynhadledd hanes yn Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon. Cafwyd dwy ddarlith ddiddorol iawn am rai o bynciau y Cwrs Hanes Lefel 'A'.

**SEREMONI AGORIADOL LLYFRGELL NEWYDD CAERNARFON**
Yn ystod y mis, aeth parti cerdd dant o'r ysgol a Mrs Carys Jones i seremoni agor llyfrgell newydd Caernarfon. Aelodau'r parti oedd: Manon Williams, Angela Lloyd, Myfanwy Roberts, Brigid Hughes, Sharon Roberts, Alison Edwards, Delyth Hughes, Sharon V. Williams, Einir Parri, Helen Mai Pritchard, Catrin Lennon, Cheryl Parry a Nia Jones.

**SEREMONI GADEIRIOL BWYSIG**
Yn ystod y mis hefyd aeth y chweched dosbarth ac Ysgol Dyffryn Nantlle, Penygroes, i seremoni gadeirio cystadleuaeth y dair ysgol. Cynhelir cystadleuaeth am y gadair rhwng y dair ysgol – Ysgol Syr Hugh Owen, Ysgol Dyffryn Nantlle ac Ysgol Brynrefail bob blwyddyn. Cafwyd eitemau o'r ysgol hon gan Rhian a Sian, a Gwlith. Enillwyd y gadair gan ferch o Ysgol Dyffryn Nantlle, Penygroes. Diolch i Mr Wyn Hughes am wneud y gadair.

**CENEDL CILMERI**
Yn ystod y mis, daeth rhai o ddisgyblion yr ysgol i Theatr Gwynedd i weld pasiant gan Ysgol Bodedern – sef "Cenedl Cilmeri". Pwrpas y pasiant oedd i ddathlu saith gan mlwyddiant marwolaeth Llywelyn. Diolch i Mrs Mary Hughes am drefnu'r ymweliad, ac i'r holl athrawon eraill a fu'n gysylltiedig am ei helpu.

**GWLITH AR Y BRIG**
Cafodd y grŵp gwerin modern, Gwlith, lwyddiant ysgubol yn yr Wyl Ban Geltaidd yng Nghil Airne y mis diwethaf. Cawsant y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth grŵp gwerin gorau, ac hefyd wobr ychwanegol am y gân wreiddiol orau.
Bydd y grŵp yn ymddangos ar y teledu ar Raglen Rosalind a Myrddin ymhellach ymlaen yn y flwyddyn ar y Bedwaredd Sianel. Llongyfarchiadau enethod!

**ARHOLIADAU**
Daeth tymor yr arholiadau unwaith eto, a dymunir bob lwc i'r rhai sy'n sefyll arholiadau Lefel A, O a TAU, ddechrau mis Mehefin.

**CRICED**
TLWS CRICED YSGOLION GWYNEDD DAN 14 – Mewn gêm o sgorio isel fe enillodd yr ysgol yn erbyn Ysgol y Gader, Dolgellau yn rownd gyntaf y gystadleuaeth. Y sgôr oedd: Ysgol Brynrefail – 54 i gyd allan, Ysgol y Gader – 33 i gyd allan. Ysgol Dyffryn Nantlle fydd y gwrthwynebwyr yn yr ail rownd.
CRICED DAN 15 – Mae Steven Owen (Cwm-y-glo), Gwyn Morris (Ceunant), Iwan Pritchard (Nant Peris) a Malcom Allen (Deiniolen) wedi cael eu dewis i chwarae i dîm criced ysgolion Gwynedd. Mae'r bechgyn eisoes wedi chwarae i dîm ysgolion Arfon ac fe ddisgleiriodd y pedwar yn y fuddugoliaeth dros sir Fôn.



*Dyma'r perfformwyr gorau yng nghyfarfod athletau'r ysgol. Rhes gefn, o'r chwith i'r dde: Melanie Sellars, Susan Jones, Michael Roberts, Delyth Williams a Matthew Anthoine. Rhes flaen o'r chwith: Matthew Ward, Dafydd Jones, Rhian Lewis a Petula Williams. Roedd Margaret Roberts yn absennol pan dynnwyd y llun.*



*UCHOD: Melanie Sellers a Mathew Antoine, Victor a Victrix Ludorum.*


# SCIPIAU TIM



o £16

CYTUNDEB DYDDIOL
NEU WYTHNOSOL

*LLANBERIS 871354*

# 06190 – O CHWECH I NAW DEG!



## Tudalen i'r plant: hen ac ifanc gan DYFRIN Y DEWIN

### CHWEDLAU MORLADRON YR YNYSOEDD PELL

### Y CHWIBAN HUD

Un diwrnod roedd Prys y Pysgotwr wedi dal llond ei gwch o bysgod braf. Hwyliodd am adref heibio i'r graig lle'r oedd y Wrach Wen yn byw. Roedd y Wrach Wen yn eistedd o'r tu allan i'w hogof. Arhosodd Prys a chynnig rhywfaint o'i bysgod iddi. Aeth y Wrach Wen ati ar unwaith i goginio'r pysgod mewn crochan fawr ar dân o goed a gwymon. Yna, eisteddodd y ddau i lawr i fwyta pryd da o fwyd.

Roedd hi'n amser i Prys y Pysgotwr gychwyn. Ond nid oedd awel i anfon ei gwch hwylio ar draws y môr. Aeth y Wrach Wen i'w hogof a daeth â chwiban yn ôl gyda hi.

"Dyma anrheg i ti," meddai wrth Prys. "Dim ond i ti chwythu'r chwiban fel hyn, ac fe gei di awel o wynt i chwythu'r hwyliau ar dy gwch."

"Diolch yn fawr iawn i ti, Wrach Wen," meddai Prys.

"Os byddi di eisiau i'r gwynt ostegu," ychwanegodd y Wrach Wen, "yna rhaid i ti chwythu'r chwiban fel hyn."

Camodd Prys y Pysgotwr yn ôl i'w gwch hwylio, ond cyn iddo hwylio i ffwrdd, dywedodd y Wrach Wen wrtho nad oedd i roi benthyg y chwiban hud i unrhyw un arall.

Bob tro y byddai Prys eisiau mynd i bysgota, byddai'n chwythu'r chwiban hud, a deuai awel o wynt i gario'r cwch allan i'r môr. Roedd y pysgotwyr eraill i gyd eisiau benthyg chwiban hud Prys, ond cofiodd Prys am rybudd y Wrach Wen, a gwrthododd roi benthyg y chwiban hud. Er hynny, roedd Prys yn ddigon caredig i chwythu'r chwiban hud pan fyddai'r pysgotwyr eraill eisiau mynd i bysgota.

Un diwrnod, clywodd môr-leidr drwg o'r enw Drygarn y Diafol Du am y chwiban hud.

"Mae'n rhaid i mi gael y chwiban hud," meddai Drygarn y Diafol Du. "Mae'n rhaid i mi gael y chwiban hud i chwythu fy llong allan i'r môr i chwilio am aur."

Hwyliodd llong Drygarn y Diafol Du tua'r ynys lle'r oedd Prys y Pysgotwr yn byw. Roedd y llong yn llawn o fôr-ladron creulon. Roedd pob un ohonynt yn chwilio am long Prys y Pysgotwr.

Y diwrnod hwnnw, roedd Prys wedi dal llawer o bysgod. Roedd yn bnawn poeth, ac aeth Prys i gysgu ar y cwch. Yn fuan iawn daeth llong Drygarn y Diafol Du tuag ato, ond nid oedd Prys yn ei chlywed. Roedd Prys yn cysgu'n drwm.

Un, dau, tri. Neidiodd tri o fôr-ladron i gwch Prys a'i ddeffro. Er i Prys ymladd yn ddewr, ni allai ennill yn erbyn tri o fôr-ladron. Cafodd Prys ei godi i long Drygarn y Diafol Du.


"Tyrd â'r chwiban hud i mi," meddai Drygarn y Diafol Du.

"Na," meddai Prys yn ddewr, ond doedd ganddo ddim siawns yn erbyn yr holl fôr-ladron. Cyn pen dim, roedd y chwiban hud yn nwylo Drygarn y Diafol Du.

Chwythodd Drygarn y Diafol Du ar y chwiban hud. Daeth gwynt cryf i lenwi hwyliau'r llong. Daeth y gwynt yn gryfach, ac yn gryfach. O'r diwedd, rhwygwyd yr hwyliau yn ddarnau mân a dechreuodd y llong siglo o ochr i ochr. Roedd ofn mawr ar bawb.

"Rho'r chwiban yn ôl i mi," meddai Prys, "ac fe achubaf y llong." Chwythodd Prys y Pysgotwr ar y chwiban hud, a thawelodd y gwynt. Neidiodd Prys dros ochr y llong yn ôl i'w gwch pysgota, a hwyliodd i ffwrdd, gan adael y môr-ladron yn syllu'n fud ar ei ôl.

## CLUSTIAU PWY?




## AR Y FFERM

PA ADERYN SYDD AR GOLL?

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| T | C | T | W | O | E | N | R |
| C | D | I | A | F | E | D | Ch |
| A | E | S | C | R | I | G | O |
| Th | Y | Ff | A | A | W | Ll | M |
| N | Ch | H | Y | Y | I | T | I |
| Y | A | W | Dd | L | O | B | E |
| M | H | A | H | U | E | W | I |
| B | U | W | Ch | M | W | Ch | R |


MAHAREN, TARW, GWYDDAU, CEFFYL, DEFAID, MUL, ASYN, EBOL, BUWCH, IEIR, CATH, MOCH, LLO, OEN, CI, HWYAID, HWCH, MYN, BWCH.

**Wavell Roberts**
**CIGYDD**
**LONDON HOUSE**
**LLANRUG**
**Ffôn: Caernarfon 3574**
*PEN CIGYDD Y FRO!*
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU A DEWCH ATOM NI!

**GWILYM JONES**
**Monumental Works**
**LLANRUG**
FFÔN CAERNARFON 2898
COFADEILWAITH O BOB MATH
MEWN LLECHI A GWENITHFAEN
GAN GREFFTWYR LLEOL

**Wil a Val Guy**
**STORFA TREFLYN**
**BETHEL**
*felinheli 670237*
*Bwydydd Teganau*
*Diodydd Dafedd*
*Melysion*

# CASTELL I'W LIWIO



*Sawl ffenestr sydd i'r castell?*

### DRAENOG



Clywed fod rhywrai wedi dwyn wyau a nyth iâr ddŵr yn ardal Llanrug. Rhag eich cywilydd. Gwyliwch! Mae Draenog ar eich trywydd.

### CLYWED Y GOG

Mae rhai'n dweud y byddwch yn lwcus os bydd arian yn eich poced pan glywch y gog am y tro cyntaf. Mae eraill yn dweud y bydd clywed y gog yn darogan eich ffortiwn am y flwyddyn – h.y. os byddwch yn cerdded pan glywch y gog, yna, cerdded fyddwch am flwyddyn!

### ATEBION

Ar y fferm – TWRCI TEW

Enwau newydd – 1. Istanbul, 2. Iran, 3. Thailand, 4. Ho Chi Minh City, 5. Bangladesh, 6. Zaire, 7. Namibia, 8. Zimbabwe, 9. Llyn Malawi, 10. Belize.

CLUSTIAU PWY?

1. Eliffant 2. Cwningen 3. Cath 4. Llygoden 5. Mwnci 6. Ceffyl 7. Ci 8. Buwch.

Sawl ffenestr? – 12.

# CASGLU CERRIG
## Rhif 2

### PA MOR GALED YW'R GARREG?

Mae gwybod pa mor galed yw carreg yn gymorth i ddarganfod pa **fath** o garreg ydyw. Ymhell dros gan mlynedd yn ôl, 'roedd dyn o'r enw Moh wedi sefyflu graddfa ar gyfer darganfod caledwch gwahanol gerrig. Mae Graddfa Moh yn parhau i gael ei defnyddio hyd heddiw. Mae'n cychwyn ar rif 1 (y meddalaf) ac yn diweddu ar rif 10 (y galetaf). Y raddfa gyfan yw:

1. Talc
2. Carreg halen
3. Calcspar
4. Fluospar
5. Apatite
6. Felspar
7. Quartz
8. Topaz
9. Sapphire
10. Diamwnt

Mae'n bosibl prynu enghreifftiau o'r rhain o rif 1 i rif 8 ond ni ddowch o hyd i'r ddau olaf ar lawr, ac y maent yn llawer rhy ddrud i'w prynu! Gellir defnyddio Callestr (Fflint) yn lle Quartz, a gwydr cyffredin yn lle Apatite. Gyda'r rhain mae'n bosibl darganfod pa mor galed yw unrhyw garreg yn eich casgliad.

Os yw eich carreg chwi yn crafu'r pedwar cyntaf ar Raddfa Moh, ond yn methu â chrafu Apatite neu wydr, yna, mae ei rif caledwch rhwng 4 a 5.

Mae dulliau hwylus eraill hefyd ar gael, sy'n defnyddio synnwyr y fawd. Os medrwch grafu'r garreg â'ch ewin, yna mae ei rhif caledwch yn llai na 3. Os gellir crafu'r garreg â llafn cyllell boced, yna mae ei chaledwch tua 6 neu 7.

Gellir defnyddio ffeil hefyd i ddarganfod caledwch carreg. Rhwbiwch y garreg ar y ffeil. Os yw'r garreg yn galed bydd yn gwneud **llawer** o dwrw, ond yn rhoi **ychydig** o bowdr ar y ffeil. Os yw'r garreg yn feddal, bydd yn gwneud **ychydig** o dwrw, ond yn rhoi **llawer** o bowdr ar y ffeil.

*Y mis nesaf: Casglu enghreifftiau o gerrig.*


SETIAU TELEDU LLIW AIL LAW
MEWN CYFLWR RHAGOROL
SIOP DELEDU
CEPAS
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG
*Ffôn: Llanberis 870205*

Sauna
Gwely Haul
Wacsio
Slender tone
SAUNAMDANI
Dydd Llun
Dydd Gwener
12.00-9.00pm
STRYD FAWR
BETHESDA
*600140*

STORFA
Mace
O.R. & M. PARRY
Sgwâr
Llanrug
Caernarfon 2790
Dewis hael
o fwydydd, llysiau
a diodydd

W.J.GRIFFITH
PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
*Ffôn: Caernarfon 3248*
GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
GWRES BP
Aelod o'r National Association of Plumbing and Mechanical Services Contractors.
*Dim un dasg rhy fychan,*
*Dim un dasg rhy fawr.*

# WAUNFAWR

SEFYDLIAD Y MERCHED – Nos Iau Mai 6 cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn Neuadd yr Eglwys. Estynnodd Mrs C.A. Jones, y llywydd, groeso'n ôl i Mrs Buddug Rowlands ar ôl ei gwaeledd.

Darllenwyd cofnodion o gyfarfod y mis diwethaf a'r llythyr misol, a'u trafod. Bwriada aelodau'r Sefydliad gofnodi'r hen gerrig beddau ym Mynwent Betws Garmon.

Dymunodd Mrs Katie Jones, ar ran y Sefydliad, rhwydd hynt i Mrs Pat Parry ar ei thaith i'r Cyfarfod Blynyddol yn Llundain.

Gobeithir trefnu gwibdaith i Gaer Mehefin 12 neu 26. Trafododd Mrs Kate Wynn Jones, y wraig wadd, y penderfyniadau i'w trafod yn y Cyfarfod Blynyddol yn Llundain. Rhoddwyd y blodau ar fwrdd y llywydd gan Mrs Idris Jones, ac wedyn fe'u cyflwynwyd i Mrs Buddug Rowlands. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Neuadd yr Eglwys nos Iau Mehefin 3 pan fydd Mr a Mrs Twiss o Nantlle yn rhoi sgwrs ar hen bethau.

DEWIS BRENHINES Y CARNIFAL A'I GOSGORDD – Cynhaliwyd noson lwyddiannus o ddawnsio a gemau i blant y pentref yn Neuadd yr Eglwys nos Wener, Ebrill 23. Yn ystod y noson dewiswyd Brenhines y Carnifal a'i Gosgordd am y flwyddyn 1982 gan y Frenhines Wendy a dyma'r canlyniadau: Brenhines: Sandra Jones, Morwyn: Debra Ann Roberts, Blodeuferch: Emily Bethan Wills, Gwas y Llys: John Coles. Llongyfarchiadau i'r pedwar ohonynt.

Cynhelir Cymanfa Ganu'r Carnifal eleni yng Nghapel Croesywaun M.C. Waunfawr nos Sul Mehefin 27 am 7.30 o'r gloch o dan arweiniad Mr Haydn Jones, Waunfawr. Ceir eitemau gan Trefor ac Emyr Jones, Llangristiolus, Môn, a'r Llywydd fydd y Dr Prys Morgan Jones, Caernarfon. Croeso cynnes i bawb.

PLAID CYMRU – Bu aelodau'r gangen yn y Rali a gynhaliwyd y tu allan i swyddfa'r Awdurdod Dŵr ym Mangor fel rhan o'r ymgyrch i leihau'r trethi dŵr. Anerchwyd y rali gan Dafydd Iwan ac Eurig Wyn. Dosbarthwyd taflenni'r ymgyrch yn y pentref i annog pobl i wrthod talu'r dreth ddŵr hyd nes y bydd y sefyllfa'n gwella.

Bu'r gangen hefyd yn helpu yn y Ffair Wanwyn a gynhaliwyd Mai 15 yng Nghaernarfon i godi arian i ddileu dyled y Blaid.

Bydd cyfarfod i holl aelodau'r Blaid yn niwedd Mehefin i drafod y tâl aelodaeth newydd, ac i lunio cynigion i'r Gynhadledd a gynhelir yn Llandudno Hydref 28-31. Mae'r cynigion i fod i mewn erbyn **Gorffennaf 19**.

YR YSGOL FEITHRIN – Cafwyd amser prysur ofnadwy yn yr Ysgol Feithrin yn ddiweddar. Rydym wedi bod yn dathlu'r Ŵyl Feithrin. Fore dydd Mawrth Mai 11 fe gafwyd Bore Agored yn yr ysgol hefo Mrs Penrhyn Jones (Ymwelydd Iechyd) yno yn rhoi sgwrs fer. Fe gafwyd adloniant gan y plant. Fe hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb am ddod ac am y rhoddion a dderbyniwyd.

Drannoeth fe aeth y plant a'u mamau i Fangor lle roedd holl ysgolion meithrin Arfon wedi cael gwahoddiad i ddod ynghyd. Roedd y plant bach wedi'u gwisgo mewn gwisg ffansi ac roedd pob ysgol yn cymryd rhan.

Mae'r lluniau a ddathlodd pen-blwydd yr ysgol yn 10 oed ar gael o hyd gan Heulwen Jones, Cyrnant Lodge, oes oes rhywun eisiau eu gweld. Mae hi'n fraint fawr i'r Ysgol Feithrin fod Mudiad Ysgolion Meithrin, Caerdydd wedi bod mewn cysylltiad â ni i gael hanes yr ysgol o'r dechreuad. Fe fydd hanes Ysgol Feithrin Waunfawr yn ymddangos yn rhifyn Awst, sef rhifyn yr Eisteddfod Genedlaethol, o *Papur y Mudiad*.

Y GANOLFAN – Mae'r gronfa bellach wedi cyrraedd £4,600. Dyna'r newyddion calonogol a gyflwynwyd gan y dirprwy drysorydd, Mr Steve Jones yng nghyfarfod blynyddol y Ganolfan yn Neuadd yr Eglwys. Dywedodd Mr Gwilym Williams ei fod yn hapus dros ben ar y modd yr oedd y gwaith adeiladu yn dod yn ei flaen ac yn arbennig am y gefnogaeth a gawsai gan bawb, yn enwedig gan yr ieuenctid.

Enillwyr y Clwb 300 am fis Ebrill oedd: 1.– (£40) Rhif 92, Cennin Griffith, Llys Gwyrfai. 2. (£25) Rhif 74, Emyr Wyn Evans, Bron y Graig, Betws Garmon. 3. (£10) Rhif 227, Maureen Griffiths, Bryn Eilian.

Dewisir yr enillwyr nesaf mewn Sioe Ffilmiau gan y 'Play School' yn Neuadd yr Eglwys Mai 25 am 7.00.

Gofynnir i bawb gadw mewn cof y cyngerdd nos Wener, Mai 28, pan fydd Dylan Parry a Pharti Eryri yn diddanu.

Mae'r Cyngor Cymuned wedi dewis cynrychiolwyr i weithredu ar banel arbennig a fydd yn trafod y datblygiadau ar gaeau Tŷ Hen gyda Chyngor Arfon, sef – Bob Eaglestone, Geraint Davies a Rol Williams. Y cynrychiolwyr eraill ar y panel hwn fydd Eurig Wyn, Gwilym Willliams a Humphrey Roberts ar ran y Ganolfan, a Lleufer Pritchard, Dr Raymond Williams a Mr Leslie Jones, prifathro'r ysgol, ar ran rheolwyr yr ysgol.

NOSON GOFFI – Cynhelir Noson Goffi Cangen Waunfawr o Gymdeithas Caernarfon a'r Cylch i Rai Araf Eu Meddwl yn Neuadd yr Eglwys am 6.30 o'r gloch nos Wener Mehefin 4. Buasai unrhyw gyfraniad tuag at y stondinau, megis cacennau neu nwyddau, yn dderbyniol iawn. Croeso cynnes i bawb.

CLWB 'GATEWAY' – Cynhaliwyd y Mabolgampau Ryng-Sirol yn y Coleg Technegol ym Mangor, ddydd Sadwrn, Mai 1. Roedd Eira Wyn a Gwion o'r Waunfawr yn cynrychioli Clwb Segontiwm, Caernarfon, a llwyddodd y ddau i ennill medal Efydd, Eira yn dod yn 3ydd wrth chwarae tennis bwrdd, a Gwion yn 3ydd wrth chwarae Dominoes. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonynt. Ysgrifennydd y Clwb yw Mrs Maureen Griffiths, Bryn Eilian.

CYDYMDEIMLWN â Mrs Eurwen Chesworth, Gerallt yn ei phrogedigaeth o golli ei thad.

LLONGYFARCHIADAU i blant y pentref ar eu llwyddiant yn yr arholiadau Llafar ac Ysgrifenedig yr Ysgolion Sul Methodistiaid. Gwobrwywyd hwy yn y Gymanfa Ganu a gynhaliwyd eleni yng Nghapel Engedi, Caernarfon, ddydd Sul, Mai 2. Llongyfarchiadau hefyd i blant Ysgol Sul Croesywaun am ddechrau'r Gymanfa mor rhagorol ac i Haydn Jones, Rhandir Mwyn, fel Arweinydd y Gân.

YN YR YSBYTY – Anfonwn ein cofion at Mrs Alma Jones, Tan y Fron, Mr Daniel Pritchard, Bro Waun, Gwen Pritchard, Tref Eilian a Mrs Doris Roberts, Dwyros, sydd yn yr ysbyty ym Mangor. Dymunwn lwyr adferiad buan iddynt. Da yw deall fod Mrs Evelyn Anderson, Bod Arfon, yn gwella ar ôl dychwelyd adref o'r ysbyty.

WYTHNOS CYMORTH CRISTNOGOL – Cynhaliwyd Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yn Festri Capel Bethel eleni ddydd Sul Mai 16 a chymerwyd rhan gan aelodau o'r gwahanol eglwysi yn y pentref.

MERCHED Y WAWR – Cyfarfod mis Ebrill – Cafwyd gwledd o noson yng nghwmni Mr Gareth V. Jones o Goleg Pencraig, Llangefni, sydd hefyd ar banel y Rhaglen Garddio ar y Radio, yn sôn am 'Lliw yn yr Ardd'. Dangosodd yr aelodau ddiddordeb mawr yn yr oll oedd ganddo i'w ddweud sydd yn sicrhau y cawn weld gerddi gwych yn y Waun o hyn ymlaen, yn enwedig gardd enfawr Tŷ Capel Bethel. Llywydd y noson oedd Mrs M.V. Jones a diolchwyd i Mr Evans gan Miss Bessie Jones. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Iris Owen ac fe'i henillwyd gan Mrs Griffith, Bronallt.

YR YSGOL – Cyflwynwyd Tystysgrifau a Medalau Efydd am nofio i bump o blant yr ysgol gan Gadeirydd y Rheolwyr, y Dr R.S. Williams. Y plant oedd Elliw Iwan, Corinne Ackers, Suzanne Woods, Garem Jackson a Telor Iwan. Dechreuwyd gwersi i'r plant ym Mhwll Nofio Bangor ond oherwydd y pellter bu rhaid rhoi'r gorau iddi. Daeth cyfle newydd i ailgydio yn y gwersi nofio pan agorwyd y Ganolfan Hamdden yng Nghaernarfon. Mae'r plant yn mynychu'r pwll nofio yno'n wythnosol.

## YSGOL WAUNFAWR: PA BRYD?



*Llun gan Mr G.E. Ellis, Treflan, Llanrug. Beth tybed yw'r achlysur, a pham mae'r plant yn gwisgo blodau?*

YR EGLWYS – Cynhelir Noson Goffi ac Adloniant Ysgafn yn yr Eglwys nos Wener, Mehefin 18 am 6.30. Croeso cynnes i bawb.

YR AELWYD – Drwg yw clywed fod Dic a Steve yn rhoi'r gorau i'w swyddi fel arweinyddion yr Aelwyd. Os oes rhywun â diddordeb yn y gwaith, cysylltwch â Dic Jones, Llwyn Onn.


Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .



Gwesty'r Foelas
(Richard a Meirwen Thomas)
Llanrug
*Ffôn: CAERNARFON 4652*

I DRWSIO'R TELEDU NEU'R RADIO FFONIWCH...
**Osmond W. Shaw**
DEINIOLEN
*Ffôn: LLANBERIS 870545*
**Gwasanaeth 'run diwrnod os ffoniwch cyn 10 o'r gloch y bore**

MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI
Ffôn: Y Felinheli 670882
Perchennog: J. Evans

# BETHEL

Er cof am **J.D. Williams** (gŵr annwyl Nerys a phennaeth yr Adran Gwaith Coed, Ysgol Syr Hugh Owen)

**Gŵr cyson ei safonau – Gŵr union**
**A graen ar ei ddoniau;**
**Magwraeth cenhedlaeth iau**
**A naddwyd o'i rinweddau.**

*Gareth Wyn (athro)*

MERCHED Y WAWR – Cafwyd arddangosfa ar addurno cacennau y mis hwn gan Miss Jane Thomas, Plas Llanfaglan. Diolchwyd iddi gan Mrs Mair Price, Tan y Ffordd.

Enillwyd y raffl gan Mrs Eirlys Williams, Y Ddôl. Yn gofalu am y baned oedd Mrs Alys Jones a Mrs Elizabeth Hughes.

Wedi'r arddangosfa etholwyd swyddogion newydd am y tymor 1982-83: Llywydd, Mrs Rita Williams, Elan; Ysgrifennydd, Mrs Gwyneth Williams, Llain yr Ardd; Trysorydd, Mrs Mabel Jones, Eithinog; Is-lywydd, Mrs Ann Hopcyn Evans, Gorffwysfa; Is-ysgrifennydd, Mrs Alys Jones, Stad Eryri; Is-trysorydd, Mrs Mair Reed, Glan Llyn.

Yn ychwanegol at y swyddogion dewiswyd chwech aelod ar y pwyllgor – Mrs Eirlys Williams, Mrs M. Griffiths, Mrs Pat Millighcan (oll o Stad y Ddôl), Mrs Elizabeth Jones, Tyddyn Oer, Mrs Eurgain Jones, Y Rhos, Mrs Griffiths, Tref Gof.

Ar Fehefin 9 fe fydd Taith Ddirgel yn cychwyn yn brydlon am saith o'r gloch o'r ysgol. Pris y cwbl fydd £3 yn cynnwys pryd o fwyd sef cyw iâr a sglodion neu dwrci a sglodion neu ham oer. Os am scampi a sglodion bydd y pris 50c yn fwy.

Enwau ynghyd â'ch dewis o fwyd i Mair Price, Tan y Ffordd – rhif ffôn 670312 cyn Mehefin 5.

PLAID CYMRU – Nos Wener Ebrill 30 cynhaliwyd Ffair Wanwyn dan nawdd Plaid Cymru yn y Neuadd dan nawdd Plaid Cymru y Neuadd. Gwnaed elw da ac mae pwyllgor y gangen yn ddiolchgar i bawb am eu cyfraniad a'u cefnogaeth.

Y ffair oedd yr ail weithgaredd wedi ei drefnu gan y gangen yn ystod y gwanwyn. Ychydig wythnosau'n ôl cafwyd noson ddifyr iawn yng nghwmni Rovi a Gwlith. Cafod Gwlith y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth Cân Werin yn Kilarney yr wythnos ddiwethaf.

LLONGYFARCHIADAU i Ruth Evans, Rhos Alun a Helen Mai, Camlan ar gael eu pen-blwydd yn 18 oed yn ystod y mis. Roedd Helen yn 18 ar y 7ed a Ruth ar yr 20ed.

DYMUNIADAU GORAU i Stephen Farrer, 7 Rhoslan a Miss Amanda Williams, Y Groeslon a briodwyd yng nghapel Brynrodyn Mai 1af.

LLONGYFARCHIADAU i Angharad Elis, Ian a Kelvin Roberts ar eu llwyddiant yn yr Arholiad Sirol. Cafodd y tri, sy'n aelodau o Ysgol Sul y Cysegr eu gwobrwyo yn y Cyfarfod Misol yn Llanfairfechan ddydd Mawrth diwethaf.

YR YSGOL FEITHRIN – Fel rhan o weithgareddau'r Ŵyl Feithrin bu plant a mamau'r Ysgol Feithrin mewn bore o adloniant yn Neuadd John Phillips, Bangor. Roedd rhai o'r plant wedi gwisgo mewn gwisg ffansi ac fe fu'r plant i gyd yn canu 'Mi Welais Jac y Do' ar lwyfan J.P. Diolch i Mrs Lynwen Morris a Mrs Eirlys Sharpe am ddysgu'r plant.

DAWNSWYR MORRIS – Cafwyd Noson Goffi lwyddiannus iawn yn y Neuadd nos Wener, Mai 14 ac fe hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb am bob cyfraniad tuag at y noson.

Enillwyr y raffl oedd – Peiriant Torri Bwyd – Mrs Pat Owen, Cefn Cynrig (rhoddedig gan Mrs Gwenda Jones; Potel o Sieri (rhoddedig gan Mrs Jean Jones) – Mrs Gwyneth Jones, Fachell; Bocs Siocled (rhoddedig gan Treflyn Stores) – Mrs Jean Jones, Wenallt; Hambwrdd (rhoddedig gan Mrs Lynwen Morris) – Mrs Jean Jones, Wenallt.

**(Gadawodd un o'r mamau Hambwrdd (Tray) ar ôl yn y Neuadd, ond mae'n ddiogel yn nhy Nan yn Berwyn)**

DIOLCH – Dymuna Mrs Lydia Hughes, Brynaerau, Corra Linn, ddiolch i bawb o'i ffrindiau, cymdogion a pherthnasau am bob caredigrwydd a dangoswyd iddi tra'n Ysbyty'r Bwth, Caernarfon ac ar ôl dychwelyd adref. Diolch yn fawr iawn.



*Mae Mr Eifion Williams, Cefn Gwyn, Bethel yn adnabyddus yn yr ardal oherwydd ei het, ond mae Mr Williams yn gwneud enw iddo'i hun mewn maes arall yn ddiweddar sef byd y ceffylau. Ar Fai 1 yn Sioe Stalwyni 'Glan Usk' ar faes y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd daeth ei stalwyn Wynswood Little Acorn yn bencampwr yn Adran A allan o 197 o stalwyni, ac yn bencampwr 'Reserve Supreme' y Sioe i gyd. Yn y llun gwelir meibion Mr Williams, Dewi yn dal y ceffyl a Huw yn gafael yn y gwpan. Yn ogystal â chystadlu, mae Mr Williams yn gweithredu fel beirniad mewn sioeau lleol.*

*Llongyfarchiadau gwresog iddo.*



*Dyma lun dau hogyn o Fethel sydd wedi cael llwyddiant ym myd y beiciau modur yn ddiweddar. Mae Geraint a Dewi Wyn Jones yn byw yn Rhos Chwilog, Bethel ac yn cystadlu o bryd i'w gilydd mewn treialon a drefnir gan Glwb Sgramblo'r Ddraig. Mewn cystadleuaeth yn Frodsham yn ddiweddar daeth Geraint yn wythfed, ac wedyn yn Abergele mewn cystadleuaeth arall daeth yn ail. Daeth Dewi yn nawfed hefyd. Llongyfarchiadau hogiau a phob lwc yn y dyfodol.*



ARHOLIADAU CERDDORIAETH – Bu nifer o ddisgyblion o'r Ysgol Gynradd yn llwyddiannus yn ddiweddar mewn arholiadau canu'r recorder a gynhaliwyd dan nawdd Coleg Cerdd y Drindod Llundain. Enillodd Meinir Dauncey Williams ac Angharad Price dystysgrifau anrhydedd yn Arholiad Gradd 2. Bu Meriel Hughes ac Andrew Kettle yn llwyddiannus yn Arholiad Gradd 1, a derbyniodd y canlynol dystysgrifau teilyngdod yn yr un arholiad: Gail Williams, Angharad Elis, Eirlys Jones, Amanda Lingard, Arwel Elwyn Jones, Aled Lewis Jones, Carys Owen ac Elwyn Parry.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs D. Owen, 20 Cremlyn ar ddathlu eu priodas ruddem Mai 14.

## ABERTH

**Daeth y rhyfel yn Ne'r Môr Iwerydd yn greulon o agos atom y Sadwrn cyn cyhoeddi'r rhifyn hwn o'r Eco. Brawychwyd y fro a pharlyswyd ei deulu gan y newyddion trist fod Raymond Roberts o Lanberis yn un o'r ugain a gollodd eu bywydau pan suddwyd y llong ryfel Ardent ger Ynysoedd Malfinas (Falkland).**

**Roedd Raymond yn 25 oed. Ef oedd chef y llong.**

**Ein cydymdeimlad dwysaf â'r holl deulu yn eu profedigaeth.**

## GAIR O DDIOLCH

Annwyl Olygydd,

Hoffwn ar ran yr Ysgol ac yn enwedig ar ran 'Gwlith' ysgrifennu gair o ddiolch cyffredinol i'r cyn-ddisgyblion a gymerodd ran yn y Cyngerdd 'Doniau Brynrefail Ddoe a Heddiw' nos Iau Ebrill 22. Hyfrydwch mawr oedd gweld cymaint o gyn-ddisgyblion o sawl cenhedlaeth yn rhoi o'u gwasanaeth yn gwbl wirfoddol a llawen er mwyn cefnogi talentau newydd o'u hen ysgol. Diolchaf felly yn gyntaf i Tom Alun Williams, disgybl o'r pumdegau a wnaeth enw iddo'i hun yn canu yn y dull 'Country and Western' ac a fu'n rhannu llwyfan gyda'r diweddar Ryan Davies ac amryw eraill. Yna Mrs Megan Roberts, disgybl o'r chwedegau cynnar sy'n delynores o'r radd flaenaf ac yn adnabyddus yn genedlaethol. Wedyn grŵp poblogaidd y chwedegau diweddar a recordiwyd fwy nag unwaith sef 'Genod Ni' – Luned, Gwyneth, Anne a Margaret gyda Marcia wrth y piano, yn ailymgynull mewn modd swynol iawn yn arbennig ar gyfer yr achlysur. Annette Roberts a fu'n ddisgybl yn y saithdegau cyn mynd i Goleg Cerdd Manceinion yn rhoi datganiad feistrolgar ar y piano. Yn wir y mae dyfodol disglair o'i blaen. Yn olaf i Hogia'r Wyddfa a fu'n gyfrifol am gloi noson lwyddiannus dros ben. Nid dyma'r tro cyntaf i'r Ysgol fod mewn dyled i'r Hogia ac mae'n destun llawenydd mawr i mi mai 'Gwlith' oedd y grŵp i ennill tlws a gyflwynwyd gan yr Hogia fel gwobr am Grŵp Gwerin Modern gorau Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, 1981.

Wedi diolch i'r cyn-ddisgyblion hoffwn hefyd ddiolch i'r disgyblion presennol a'r athrawon a fu'n eu hyfforddi am eu cyfraniad ond yn arbennig i Mrs Carys Jones a fu'n gyfrifol am drefnu'r noson ac sydd wedi bod yn gefn i Gwlith ar hyd yr amser. Pwrpas y Cyngerdd oedd codi arian i yrru Gwlith i Cill Airné. Cafwyd oddeutu £180 wrth y drws ond y mae gennym le i ddiolch i gyn-ddisgybl arall, sef Mrs Lennon, nid am ei chyfraniad ar y llwyfan ond am drefnu raffl ar y noson a wnaeth £77 o elw, i godi'r cyfanswm i dros £250, digon i dalu costau Gwlith a gwneud cyfraniad i'r Urdd. Fe ŵyr pawb bellach am lwyddiant Gwlith. Hoffwn feddwl fod cefnogaeth disgyblion ddoe a heddiw wedi bod yn ysbrydoliaeth iddynt.

Diolch yn fawr,
W. Elfyn Thomas,
Prifathro,
Ysgol Brynrefail.

# AR DRYWYDD HEN FRYTHONIAID



*O weld y gŵr ar y maen llog a'i wrandawyr o'i gwmpas, gellid synio mai rhyw gylch cyfrin sy'n ymgynnull dan y llwyni i osod trefn ar Eisteddfod Bro'r Eco 1982! Choelia'i fawr, Aelodau Ysgol Nos Llanrug sydd yn dysgu, gefn dydd golau, eu gwers yn y maes. Llun I.L. Jones.*

Dyma rai o'r dwsin yn Nosbarth Archaeoleg fu'n dilyn trywydd yr hen Frythoniaid yn y bröydd hyn ar bnawn Sadwrn yn Ebrill eleni. Rôl treulio'r gaeaf yn astudio hen feddau a chaerau Oes yr Haearn, dan y tiwtor, y Dr John Llywelyn Williams o'r Brifysgol, dyma gyfle ar bnawn o wanwyn tyner i droedio'r maes a chynefino ag olion yr hen wersyll amlycaf ym mro'r Eco.

Er bod y rhan fwyaf ohonynt wedi troi eu cefnau ar y camera efallai yr adwaenwch rai o'r aelodau, yn enwedig y gŵr ger y maen llog.

Dinas Dinorwig (neu Pencaerau) yn Llaniolen oedd cyrchfan y dosbarth gyda chaniatâd caredig y perchennog. I'r sawl a edwyn y fan, mae'n safle arbennig fel gwylfa dros ardal eang o Faenor Bangor hyd odre'r Eifl, dros erwau Arfon a ffriddoedd Nant yr Wyddfa. On'd oedd yr hen Frythoniaid yn graff wrth ddwis eu gwarchodfeydd?

O gopa creigiog y gaer gwelir cadwyn o wersylloedd tebyg o Dre'r Ceiri ar yr Eifl, Dinas Dinlle ger y môr, Craig Dinas ar Afon Llyfni a Dinas Prif Llanwnda, heb sôn am y ddwy gaer sy'n gwarchod Nant yr Wyddfa, ar Garreg y Frân, Cwm-y-glo a Chraig y Dinas Penisarwaun. O gofio fod llawr y Nant a gwastadeddau Arfon dan goed trwchus yn Oes yr Haearn, cyn dyfod na Rhufeiniwr, Sacson na Norman erioed i'r cylchoedd hyn, roedd y ceyrydd hyn yn barod i rybuddio am unrhyw gyrch gelyn o'r môr.

Er imi fod yno droeon, 'dydi tro i Ddinas Dinorwig fawr o werth heb rhywun wrth eich penelin, i egluro arwyddocâd y meini mud, unig dystiolaeth barhaol o'r dycnwch di-ildio a fu i warchod y fro.

Pwy well na'r gŵr hynaws John Llywelyn i brocio meddyliau a gwneud y disylw yn eglur a hynny yn acenion Bro'r Eco, gan esgymuno'r iaith fain o'r drafodaeth yn llwyr.

Ar gyrrau'r gaer, dan y brwgaets a'r llwyni eithin trwchus, gwelir amlinell y ffosydd o amgylch y dinas. Yn groes i'r hyn dybiem, 'doedd dim dŵr yn y rhain ond fod gan yr amddiffynwyr safle o fantais o ben y gwrthglawdd i fwrw'u cynddaredd ar elyn yn y ffos mewn cyrch ar y gaer.

Galwyd ein sylw at y meini enfawr ym môn y cloddiau, gyda cherrig cilbost lle bu adwyon i'r llannerch agored. Tystia y rhain fod cylchoedd cadarn i'r gwrthgloddiau. Dilynwyd y meini heibio i gefn y ffermdy, Pendinas, ar gwr dwyreiniol y safle a thrwy'r coed i'r garth serth uwchben Eglwys Llaniolen. Wrth sylwi ar batrwm safle'r meini a'r pantiau rhwng y cylchoedd, gellid amgyffred cadernid y rhagfuriau.

Yn y darlun gellwch weld patrwm y meini yn ffurfio cant ar hanner cylch rhwng y twitor a'i wrandawyr.

Er fy mod yn gynefin â'r safle, ni thaniwyd fy nychymyg erioed fel hyn i werthfawrogi pwysigrwydd y fan yma i'r Brython i warchod câr ac anifail dan fygythiad gelyn. Tebyg yw, yn ôl tystiolaeth, fod y gwrthgloddiau wedi eu hymestyn a'u cadarnhau mewn cyfnod diweddarach yn oes y Rhufeiniaid.

Mae'r safle mewn cyflwr cyffredinol da ond anrheithiwyd llawer o'i cherrig a bwriwyd gwastraff adeiladol mewn mannau. Trowyd pridd y llannerch mewnol yn gyson wrth amaethu ac felly diflannodd olion un o gytiau crwn a fuasai yno gynt. Treuliwyd orig ddifyr ar y pegwn hwn yn Llaniolen cyn symud ymlaen i ucheldir Mynydd Llanllyfni i sylwi ar batrwm amaethu'r ffriddoedd yn y cyn-oesoedd.

R.W.

# MENTRO A LLWYDDO

Dywedir fod pawb yn dda am wneud rhywbeth neu'i gilydd. Yn ddi-os gyda thrin llechan, ei siapio a'i lliwio y gorwedd dawn Gwilym Williams, Crefft Elidir.

Mae trigolion Deiniolen yn gyfarwydd â'r enw 'Crefft Elidir' ond os mynn rhywun o bentrefi'r fro weld cynnyrch llechen Crefft Elidir gellir eu gweld mewn siop fach ddel a chartrefol dros y ffordd i dafarn y Wellington ar Stryd Fawr, Deiniolen.

Yn ffatri Bernard Wardle yng Nghaernarfon yr arferai Gwilym weithio, a gweithio gyda'r llechen yn ystod ei oriau hamdden. Sylweddolodd yn fuan ei bod yn bosibl troi pleser amser hamdden yn alwedigaeth. Yn 1975 rhoddodd y gorau i'w swydd yn ffatri Peblig a mentro fel crefftwr llechi amser llawn. Oddi ar 1975 mae wedi bod mor grwydrol â Sipsi (ei erlid a gafodd cofiwch). O dan siop E.B. Jones gynt y cododd ei stondin gyntaf. Oddi yno symudodd i stafell o dan Cwt Band. Llwyddodd i ddod o hyd i le addas i weithio ac i arddangos ei waith pan symudodd i'w siop bresennol – siop sydd ar agor nos a dydd! Gwelodd y siop hon lawer o newid dwylo. Flynyddoedd yn ôl Owen Williams (Bryn Deiniol) a arferai werthu dillad ynddi. Yna bu Jacob James yn gwerthu bwydydd ynddi. Ef a'i galwodd yn Amman House. Gwnaeth Owen Hughes, Rhydfadog ddefnydd ohoni fel man gwneud a gwerthu nwyddau haearn cyn i Gwilym symud i mewn iddi.

Ychydig cyn Nadolig 1981 y dechreuodd Gwilym farchnata yn y siop, a chyn ac oddi ar hynny, bu'n arddangos ei waith, yn glociau, raciau llythyrau ac yn y blaen, ac erbyn hyn, mewn ffeiriau crefftau, eisteddfodau ledled Cymru ac mewn sioeau lleol. O'r Sulgwyn hyd at ddiwedd tymor gwyliau'r haf, gellir gweld Gwilym wrth ei waith yn un o'r unedau crefftau yn y Gilfach Ddu, Llanberis.

Dibynna Gwilym cryn dipyn ar farchnad dramor, â llawer o'i waith wedi mynd i nifer o wahanol wledydd. Ond Gwilym yw'r cyntaf i ddweud bod y gefnogaeth leol iddo wedi bod yn dda iawn hyd yma, yn enwedig ar achlysuron megis y Nadolig, pen-blwydd, etc.

Mae Stryd Fawr, Deiniolen wedi newid llawer yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae nifer o siopau wedi eu cau, a rhai adeiladau wedi eu gadael i ddirywio a dadfeilio. Calondid o'r mwyaf yw gweld pobl leol megis Gwilym Williams yn mentro mewn busnes, ac yn llwyddo.

Gwyn Parry, Bro Dawel



*Gwilym Williams wrth ei waith.*

**CARNIFAL LLANBERIS 1982**

**GEMAU GIAMOCS**

**Nos Iau, Gorffennaf 15 am 6.45 o'r gloch.**

**Y mae UN lle ar ôl i dîm o Fro'r Eco yn y gystadleuaeth eleni. Bydd yn rhaid i'r tîm fod yn dîm pentref. Y timau eraill yn y gystadleuaeth fydd: Cwm-y-glo, Deiniolen, Llanberis, Llanrug a Phenisarwaun.**

**Os am gystadlu cysylltwch â Iwan Lloyd Williams, 39 Stryd Newton, Llanberis. Rhif ffôn – Llanberis 515.**

**Y tîm cyntaf i wneud cais gaiff ei dderbyn. Ni dderbynnir cais ar ôl Mehefin 10.**

**CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR**




**BECWS DEINIOLEN**
(D.E. & R.P. JONES)
Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS



**Newydd Sbon! Gweithdy Crefftau**




**SIOP AMAN Stryd Fawr DEINIOLEN** *Ffôn: Llanberis 871210*

**Crefftwaith llechi, anrhegion a chofroddion lleol.**

# PWY YDI GORONWY OWEN?

**Bu llawer yn holi ynglŷn ag awdur y ddwy erthygl 'Diwrnod o Wanwyn' a 'Bat Harri Coed'. Yma, mae Mrs Mair Roberts, Cheadle Hume yn adrodd peth o'i hanes. (Gol.)**

Un o hogia Llainwen ydi Goronwy. Mae'n bosib fod amryw o ddarllenwyr yr *Eco* heb erioed glywed sôn amdano, ond i'r plant oedd gydag ef yn Ysgol Brynrefail, ac yn enwedig i ni oedd yn byw gydag ef yn Llainwen, 'roedd Goronwy yn gymeriad unigryw. 'Dwi ddim wedi ei weld ers bron i ddeugain mlynedd, ac heb glywed fawr o'i hanes chwaith, ar wahân i ddeall ei fod ar un cyfnod yn brifathro ym Mhontrhydyfen. Ond 'dwi'n ei gofio fel petai ond ddoe oherwydd mae Goronwy yn "gymeriad" ac fe allaf eich sicrhau fod pob gair o'i ddwy erthygl "Diwrnod o Wanwyn" a "Bat Harri Coed" yn berffaith wir. Mae'i stamp ar bob gair ohonynt.

'Roedd yn hogyn ysgol yn y tridegau ac yn byw yn Llwyn Du yng ngwaelod Llainwen. Mab i Mr a Mrs Owen Goronwy Owen, yr ieuengaf o bedwar o blant. Maent hwy eu dau wedi eu claddu ers blynyddoedd, a'i frawd Rhys hefyd erbyn hyn. Symudodd William ei frawd arall i Loegr i fyw, ond mae Julia ei chwaer yn byw yn Llanberis o hyd.

Pan oeddem i gyd yn blant yn Llainwen, 'roedd hen wraig ddi-briod yn byw drws nesaf iddynt a 'doedd wiw i neb ohonom chwarae pêl tu allan i'w thŷ hi rhag ofn i'r bêl fynd i'w gardd oherwydd ni chaem ni byth mohoni'n ôl. Fyddem ni'r plant byth yn galw'r hen wraig wrth unrhyw enw ond "Miss Williams dwyn peli". Gwisgai het fawr bob amser, a thaerai rhai o'r plant ei bod yn cuddio'r peli yn ei het.

Dwn i ddim ym mha gyflwr corfforol mae Goronwy erbyn hyn, ond yn ei arddegau a'i ddauddegau pan oeddwn i'n ei adnabod, gofalai ei fod bob amser mewn "peak condition" chwedl y Saeson. Mae llawer o sôn heddiw am loncian a rhedeg Marathon. Gwnâi Goronwy hynny mewn cyfnod pan oedd pethau felly yn anghyffredin iawn – bron yn od. Enillodd wobrwyon lu ym Mrynrefail ac yn y coleg ar ôl hynny.

'Roedd yn chwaraewr ffwtbol rhagorol, yn gricedwr penigamp ac yn un o'r nofwyr cryfaf welais i erioed. Gwn iddo nofio ar draws y llyn, ac os cofiaf yn iawn gwnaeth hynny yn ôl a blaen. Ond yr hyn sydd yn gwneud y cyfan mor arbennig yw nad oedd o, na rhai tebyg iddo, yn cael dim hyfforddiant cyn belled ag y gwn i; ac 'rwy'n siŵr nad oedd ganddynt ddim o'r gêr maent yn gredu heddiw sy'n anhepgor i ddysgu sgiliau. Dwi'n siŵr mai dysgu nofio yn Ffwndri a'r Ynys Felen wnaeth Goronwy fel pawb arall o hogiau'r pentre, a 'doedd neb yn berchen "strip" i chwarae ffwtbol. Ond 'doedd ei ddisgrifiad o'r gêm yn y Waunfawr yn anfarwol? "Pawb wedi cyrraedd a'u sgidiau ffwtbol yn crogi dros eu 'sgwyddau. 'Doedd dim angen newid, 'doedd neb â dillad pwrpasol. 'Roeddem ni'n tynnu'n cotiau, torchi'n llewys a throi ati . . . ar yr asgell chwith 'roeddwn i yn chwarae a'r hanner cyntaf yn rhedeg 'nol a 'mlaen wrth ochr y wal yng nghanol hen duniau wedi rhydu."

'Roedd yn gorffen yn Ysgol Brynrefail pan oeddwn i'n cychwyn yno, ond pan ddôi adref o'r coleg a neb o'r hogiau yn rhydd i fynd gydag ef, fe gâi Vera fy chwaer a finnau gynnig mynd gydag ef i fynydda; boed hi'n wyliau'r Nadolig, Pasg neu'r haf. 'Roedd yn gwmnïwr difyr, gwybodus; ond 'roedd yn waith caled ar brydiau trïo dal i fyny ag ef. 'Roedd mor ffit bob amser a'i gamau'n hir a sicr. Mae gen i gof unwaith o ddringo'r Elidir gydag ef ac 'roedd mor oer yn yr eira ar y copa fel bod ein hanadl yn dalpiau o rew ar y sgarff am ein ceg. Ond ddaru ni 'rioed beryglu bywyd neb arall i ddod i chwilio amdanom. 'Roeddem yn 'nabod y mynyddoedd a'u peryglon yn rhy dda.

Dywedais yn gynharach ei fod yn un da am chwarae criced, ac mi 'roedd; ond nid ar chwarae bach y datblygodd yn chwaraewr cystal. 'Roedd yn gredwr digamsyniol bod rhaid bod o ddifrif ynghylch popeth oeddech yn ei wneud. 'Roedd wedi clymu pêl wrth linyn ar lein ddillad ei fam, ac yno y byddai yn cyro a churo'r bêl heb dynnu ei lygaid oddi arni. "Sbïwch arno, Mair," meddai'r fam wrthyf droeon pan awn heibio â rhyw wên yn ei llygaid wrth ddweud.

Gwraig radlon, braf oedd ei fam, ac fel y dywedodd Goronwy yn un o'i erthyglau – "Roedd hi'n deall hogiau." 'Roedd ei dad yn fwy difrifol, neu'n ymddangos felly i ni'r plant beth bynnag. Dyn da i'w ardal, dyn cyfrifol. Yn flaenor a chodwr canu yng Nghapel Coch. Y cof mwyaf byw sydd gen i ohono yw treulio oriau yn ei gwmni mewn festrioedd oer yn dysgu canu tuag at Eisteddfodau'r Urdd. 'Roedd yn gefnogwr brwd o'r Urdd a dim yn ormod i'w wneud er ei lles. 'Rwyf i'n diolch am gael bod yn aelod o'i gôr mewn sawl eisteddfod.

Diolch i ti Goronwy am dy erthyglau. 'Roeddech chi ychydig yn hŷn na fi; ac wrth gwrs, 'doeddwn i ddim yn cael dod i chwarae ffwtbol a nofio efo chi, ond mae gen i atgofion melys iawn amdanoch chi i gyd. Hen hogia clên, caredig wrth hogan fach oedd yn byw yn Nymbar 14. Chdi a Tomi a Jackie yn Nymbar 6, Harri Bach a Dafydd yn Nymbar 12 ac Eric yn Nymbar 19. Arthur Pen Graig; Willie Glyn, Goronwy Glyn a Dic yn Bryn Padarn a Bob Coed Mawr a'r llu hogia eraill ddeuai atoch i chwarae. Nowi Maes Llwyn, Meic a John Glyn Ddôl, Alun Sam, Harri Coed, Tom Cae'r Frân ac Ifan Huw 'Rallt Goch.

Ambell i nos Wener cawn fynd i gysgu i dŷ nain i Ogwen Terrace, ac yn amal fe fyddech chi yn chwarae yn griw o dan y lamp ar waelod Llainwen pan awn heibio, ond fu gen i erioed ofn yr un ohonoch. I'r gwrthwyneb, 'roeddech bob amser yn garedig ac ystyriol, a mwy nag unwaith y daeth rhai ohonoch i'm danfon os oedd hi'n noson dywyll iawn.

Erbyn hyn bu farw amryw o'r rhain, ond mae gynnon ni sydd ar ôl atgofion hyfryd amdanynt.

**Mair Roberts (Davies gynt)**

## LLANBERIS *parhad*

GENEDIGAETH – Ebrill 19 ganwyd mab i Mary a Dennis Carr, 86 Maes Padarn – Christopher Paul – brawd i Gavin.

DIOLCH – Dymuna Mona a Dylan, 6 Rhes Fictoria ddiolch yn gynnes iawn am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar achlysur genedigaeth eu merch fach, Mari Wyn.

### LLWYDDIANT EISTEDDFODOL

Llongyfarchiadau i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, ein golygydd erthyglau, ar ei lwyddiant yn Eisteddfod Môn yn ddiweddar. Traethawd Dafydd ar y testun 'Newid ddaeth o rod i rod' – sef arolwg ar unrhyw ardal – a ddyfarnwyd yn fuddugol. Dewisodd Dafydd wneud arolwg o blwy' Llanrug o ddiwedd y ddeunawfed ganrif.

# O BANTRI BETH

Pan ddaeth yr *Eco* o'r wasg ym misoedd cynnar ei fodolaeth, cynhwyswyd risetiau buddiol iawn gan Miss Rhiannon James. Yr wyf wedi teimlo ers tro y byddai'r *Eco* yn gyfrwng da i gyfnewid risetiau – rhai 'dan ni'n gwybod sy'n llwyddo.

Felly, dyma fwrw ati i gyfrannu, am ychydig fisoedd beth bynnag, o'm stôr risetiau i. Os ydych yn teimlo yr hoffech rannu eich hoff risetiau chi, byddaf yn falch iawn o'u derbyn a'u cyhoeddi yma yn yr *Eco*.

Yr adeg yma o'r flwyddyn, teimlaf fod bara'n sychu'n gyflym iawn, hyd yn oed yn y tun bara. Dyma ffordd flasus iawn o'i ddefnyddio.

**Bara a Chaws Pôb**

**Cynhwysion**

*6 tafell o fara — heb grwstyn*
*1 peint o lefrith*
*halen a phupur*
*2 ŵy wedi eu curo*
*4 owns o gaws Cheddar wedi ei ratio*
*½ pwys o domatos wedi eu sleisio*

**Canllawiau**

Torrwch y bara'n fân a'u rhoi mewn dysgl.
Ar ôl i'r llefrith dorri'r berw, arllwyswch ef dros y bara a'i adael am chwarter awr.
Ychwanegwch yr halen, pupur, y caws a'r wyau a'u cymysgu'n dda.
Rhowch haenau o'r gymysgfa a'r tomatos mewn dysgl bobi, gan orffen gyda'r gymysgfa.
Pobwch am dri chwarter awr mewn ffwrn gwres 350°F neu nwy 4.
Gellir ei fwyta gyda salad gwyrdd neu datws wedi eu ffrïo.

A nawr rhywbeth melys, hawdd:

# DRAENOG



Pump, ie pump o weithwyr y Cyngor Sir yn torri un goeden fechan yn Llanrug ddiwedd y mis. Gwastraff ar lafur meddech chi? Wel, chwarae teg, rwan; roedd hi **yn** goeden ddrain, ac roedd hi **o leiaf** bum troedfedd o uchder.

# Ennyd i chwerthin

Meddai'r Co Cyrn wrth ferch ifanc siapus a ddaeth ato'n poeni am gyflwr ei thraed: "Fel dyn, rydwi'n mwynhau eich gweld yn cerdded mewn sgidia sodlau uchel, ond yn fy ngalwedigaeth, fedra'i yn fy myw ddeall **sut** rydach chi'n cerdded."

Glywsoch chi'r wraig ifanc honno oedd newydd briodi yn holi mewn siop cigydd lleol: "Oes ganddoch chi gig sy'n peidio â llosgi?"

**Cacennau Mars Bar**

**Cynhwysion**

*2 Mars bar*
*2 owns margarin*
*2 owns Rice Krispies*
*Siocled coginio (tua 6 owns)*

**Canllawiau**

Torrwch y mars bars a'u rhoi mewn dysgl gyda'r margarine. Toddwch y rhain dros ddŵr berw – ond rhaid cadw llygad ar y gymysgfa yn ystod y broses yma.
Ar ôl iddo doddi, ychwanegwch y Rice Krispies a'u cymysgu'n dda.
Rhowch y cwbl mewn tun 8″ wrth 10″ – un bas, gan orchuddio gwaelod y tun.
Toddwch y siocled a'i arllwys dros ben y gymysgfa yn y tun.
Ar ôl iddo oeri, torrwch yn ddarnau i blesio'ch dant chi – gair o gyngor – maent yn felys iawn – ddim yn dda i aelodau'r Weiren Gaws!!

**Os oes gennych risêt i'w chyfnewid, anfonwch i Mrs Bethanne Williams, Disgwylfa, Llanrug.**


CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR


## Blwyddyn Goffa Llywelyn II

Yn ystod mis Gorffennaf mae'r gweithgareddau i gofio llofruddiaeth Llywelyn ein Llyw Olaf yng Nghilmeri yn dod i fro'r Eco. Cynhelir 'Wythnos Llywelyn yr Ail' rhwng Gorffennaf 10 a Gorffennaf 17. Ddydd Sadwrn, Gorffennaf 10 cynhelir Rali yn Nolbadarn, rali a drefnir gan Blaid Cymru yn Arfon. Ar gyfer yr ail Sadwrn, sef Gorffennaf 17 mae'r gweithgareddau'n symud i'r De, i Abaty Cwm Hir, man claddu ein Llyw Olaf lle'r cynhelir Cynhadledd Hanesyddol a noddir gan Bwyllgor Cofadail Abaty Cwm Hir.

Wrth gwrs bydd y mudiad 'Cofiwn' yn chwarae rhan bwysig yn y gweithgareddau hyn hefyd. Mae arwyddair y mudiad – "Cenedl heb dreftadaeth – Cenedl heb enaid" yn addas i'w gofio gan bob Cymro yn ystod y flwyddyn bwysig hon, yn enwedig ar adeg pan mae'r cyfryngau "Prydeinig" yn gwneud eu gorau glas i wneud i ni anghofio ein gwreiddiau a'n hanwahanrwydd fel cenedl gan ymdoddi'n ddof ac yn ddi-rwgnach i fod yn rhan o ryw fudiad "cenedlaethol" Prydeinig gan chwythu utgyrn rhyfel ar draws y byd.

# Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

## DIC ABERDARON.

'Does fawr neb heb glywed rhyw dro sôn am Dic Aberdaron – ei enw bedydd oedd Richard Robert Jones.

Ganwyd ef mewn tŷ o'r enw Carn Eos tua milltir o Aberdaron ym mis Gorffennaf 1780. Bu farw yn 63 mlwydd oed a chladdwyd ef ym mynwent y plwy Llanelwy (nid ym mynwent yr Eglwys Gadeiriol, Llanelwy).

Dyma enwau ei rieni – Robert a Margaret Jones. Saer Coed a thyddynnwr oedd ei dad. Yr oedd ganddynt dri mab ac un ferch Jane. Gwnaeth Robert Jones ei oriau i wneud Dic yn saer ond ofer fu pob ymgais i'w gael i ddysgu unrhyw fath o grefft. 'Doedd ganddo ddiddordeb mewn dim byd ond dysgu ieithoedd. Cafodd ei geryddu'n greulon a'i guro, oherwydd ei ddiogi ond i ddim diben. Penderfynodd Dic adael ei gartref a mynd i rodio'r ffordd fawr er mwyn cael tragwyddol heol o ryddid gyda'i lyfrau a'i ieithoedd ac i ysgrifennu.

Dywedir y gallai ddarllen 35 o ieithoedd, a siarad 15 iaith yn rhugl. Profwyd ef gan y Parch Thomas Phillips, Cennad Cymdeithas y Beibl, gan ddangos i Dic lyfr a gynhwysai ddau gant o wahanol ieithoedd. Darllenodd Dic 35 ohonynt. Heblaw hyn gallai gyfieithu'r ieithoedd, a deall gramadeg pob un. Yr iaith Saesneg oedd y fwyaf anodd i'w dysgu meddai ef.

Gofynnodd rhywun iddo – "Sawl iaith a fedrwch chi siarad Richard?"

"Dim ond un ar unwaith," atebodd.

"A ydych yn Titotal Richard?"
"Titotal fel tŷ tatws
A'i ben draw heb un drws," meddai.

### Breuddwyd Dic

Cafodd Dic freuddwyd ofnadwy un noson, sef gweld y diafol yn bwyta cath hefo cyllell a fforc. Anfonodd yr hanes i Esgob Llundain. Yr oedd bron yn gynddeiriog oherwydd y digwyddiad.

Cafodd freuddwyd arall, sef gweld telynau'r Iddewon ar yr helyg ar law afonydd Babilon a hithau'n glawio.

"A ydych yn meddwl fod yn bosibl dweud ffortiwn Richard?"

"Fuo dim erioed haws, oherwydd does dim ond dwy ffordd amdani – yr ydych yn siŵr o fod yn iawn neu fethu bob tro."

Os oes arnoch eisiau gwybod hanes Dic Aberdaron yn fanylach mynnwch gael llyfr Gwilym R. Jones, Dinbych, *Dynion Dawnus*, argraffwyd gan Wasg y Sir, y Bala, Gwynedd. Cyhoeddwyd gan Lyfrau'r Faner, y Bala, 1980. Ei bris – £1.50. Cyflwynwyd y llyfr sy'n hynod o ddiddorol i John Roberts Williams, BBC. Y mae'r gyfrol yn cynnwys hanes deuddeg o ddynion dawnus ein cenedl.

Fel hyn y dywed G.R. Jones (yn y llyfr) – "Mae'n rhaid fod gan Dic Aberdaron afael go lew ar lawer o ieithoedd. Mae'r llawysgrifau a adawodd ar ei ôl ym mhrif eglwys Llanelwy yn profi hynny, ac yn dangos fod ganddo law gain i ysgrifennu llythrennau Hebraeg a Groeg. Prif orchwyl ei oes oedd llunio Geiriadur Cymraeg, Groeg a Hebraeg, gwaith nas cwblhawyd ganddo. Fe amheuid ei wybodaeth o ieithoedd gan rai ysgolheigion, ond daeth trwy brofion go lym rai gweithiau."

Edrychaf ymlaen at gael gweld olion o gartref Dic pan fydd Trip Blodau'r Grug yn mynd i Aberdaron yn fuan.

### Y BEDDARGRAFF

*Bedd Richard Robert Jones*
*(Dic Aberdaron)*
*A anwyd yn 1780,*
*A gladdwyd Rhagfyr 21, 1843*
*yn 63 oed.*

**Ieithydd uwch ieithwyr wythwaith**
**gwir ydoedd**
**Geiriadur pob talaith:**
**Aeth angau â'i bymthengiaith:**
**Obry'n awr mae heb 'run iaith.**

*Ellis Owen*

**Yma dygwyd gramadegydd – hynod**
**I hunaw yn llonydd**
**O'i boen: a dyma lle bydd – fud**
**feudwy**
**Tra rhed Elwy trwy ro y dolydd.**

*Talhaiarn*

# NANT PERIS

LLWYDDIANT – Llongyfarchiadau unwaith eto i blant Ysgol Sul Rehoboth ar eu llwyddiant yn arholiadau'r Gymanfa Dosbarth Llanberis. Cafodd bob un ohonynt farciau uchel iawn, hefyd bu pump yn llwyddiannus yn yr Arholiad Sirol a byddant yn derbyn gwobr yn y Cyfarfod Misol yn Llanfairfechan ar Fai 25. Dyma enwau'r buddugwyr: Helen Mai Pritchard, Sian Elen Pritchard, Sharon Roberts, Arwyn Roberts a Iestyn Roberts.

PENODIADAU – Dirprwy-brifswyddog Iechyd yr Amgylchfyd Cyngor Arfon yw'r swydd y cafodd Emyr Searell Jones ei apwyntio iddi yn ddiweddar a llongyfarchwn ef ar ei lwyddiant. Ar ôl graddio aeth Emyr i weithio i Sir Fynwy gan wneud astudiaeth ym Mholitechnig Bryste. Symudodd oddi yno i gyrion Llundain lle bu'n arbenigo mewn llygredd yr amgylchfyd. Dychwelodd i Arfon ddwy flynedd yn ôl ac mae'n byw gyda'i briod a'i fab yn Llanwnda.

Dymunwn hefyd longyfarch Robert Wyn Williams, mab Mrs Ch. Williams a'r diweddar Barch. A.L. Williams, ein cyn-weinidog, ar ei apwyntiad yn athro yn ysgol Bodedern, Ynys Môn. Mae ar hyn o bryd yn athro yn yr Almaen a balch ydym o groesawu'ef a'i briod a'r plant yn ôl i Gymru unwaith eto.

LLONGYFARCHIADAU i Sian Elen, Llys'Awel, ar basio arholiad gradd tri ar y piano a hefyd Sharon Roberts – gradd 2, dan nawdd Coleg Cerdd Brenhinol Llundain.

**CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR**

# WELE'N CYCHWYN . . .



*. . . ddwsin o anturiaethwyr glew o ysgol Llanrug ar daith feic noddedig o gwmpas y fro. Er mor enbydus yr antur o'u blaenau daliodd ein ffotograffydd y criw, oedd yn cynnwys glanhawyr, athrawon a staff gegin, mewn hwyliau da.*
*Wrth deithio drwy Benisarwaun bu'n rhaid i ambell un gael tendars. Wrth lwc roedd nyrsus deniadol iawn yn barod i roi o'i gwasanaeth!*
*Ar ddiwedd y daith cawsant luniaeth ysgafn wedi'i baratoi gan Mrs Jean Williams a rhai o staff y gegin.*
*Casglwyd tua £250 at gronfa Apêl Nant Gwrtheyrn.*




**Wrth droed yr Wyddfa . . .**




**BWYTY FFERM**
**BRON ERYRI**
**LLANBERIS** Ffôn 870391

Perchnogion: Mr a Mrs AW Hughes

# TAN-Y-COED

GWERTHFAWROGIAD – Nos Wener, Ebrill 23 ym Mhlas Tan Dinas cyfarfu aelodau Eglwysi Ceunant a Than-y-coed i ddatgan eu gwerthfawrogiad a'u diolch am dros ugain mlynedd o wasanaeth arbennig eu gweinidog y Parch W.O. Roberts a'i briod Mrs Nansi Roberts.

Daeth cynrychiolaeth dda ynghyd, yn aelodau, cyn-aelodau a phlant. Trefnwyd y cyfarfod gan chwiorydd Eglwys Tan-y-coed. Llywyddwyd gan Mr R. Arfon Jones a thalodd deyrnged i'r Parch a Mrs W.O. Roberts.

Wedi ciniawa cafwyd eitemau ar y delyn a'r piano gan Manon Llwyd Evans, ar y recorder gan Bethan Lewis Parry, Annwen Parry a Lona Pierce Roberts, unawd gan Ffion John Williams ac unawdau gan fam Ffion, Mrs Menna Williams, a darlleniad gan Glenda Roberts.

Cyflwynwyd siec ar ran eglwys Ceunant i Mrs Nansi Roberts gan Mrs Owen Jones. Ar ran Ysgol Sul Tan-y-coed cyflwynodd Alwena Roberts dusw o flodau i Mrs Roberts, Miss Megan Humphreys gyflwynodd siec i Mrs Roberts dros chwiorydd Tan-y-coed. Cyfansoddodd Mrs Iola Butler benillion addas o deyrnged i'r Parch a Mrs W.O. Roberts.

Treuliwyd noson ddifyr gyfeillgar ac er gorfod dibynnu ar olau gwan canhwyllau am ennyd ychwanegu at y diddosrwydd wnaeth hynny.



Dyma lun y Parch a Mrs W.O. Roberts a dynnwyd y noson honno. Ein dymuniadau da iddynt i'r dyfodol.

LLONGYFARCHIADAU i Margaret Ellen Roberts ar ei llwyddiant ym Mabolgampau Ysgol Brynrefail eleni – y gyntaf ar y Picell a'r Ras Gyfnewid, ail yn y ras 100 medr, 200 medr, 400 medr, ac 800 medr, ac ail hefyd yn y Pwysau a'r Naid Hir.

Yr wythnos hon – sy'n dechrau ar Fai 17 – mae Amlyn Llwyd Evans, Rebecca Ann Hughes, Wyn Parry ac Alwena Roberts yn mwynhau egwyl yn Ysgol Rhyd-ddu. Pob hwyl iddynt.

Y GYMANFA – Yn y Gymanfa Ysgolion Sul yng Nghapel Engedi gwobrwywyd y rhai a ganlyn o Ysgol Sul Tan-y-coed:

**Arholiad Llafar**: Catrin Williams, Jonathan Prys Williams, John Elwyn Jones, Mark Wyn Jones, Tudor Wyn Jones, David R. Jones, Aled Parry, Annwen Parry, Wyn Parry, Bethan Parry, Lona Pierce Roberts, Alwena Roberts a Richard W.J. Roberts. **Arholiad Ysgrifenedig. Dan 9**: Annwen Parry a Ffion J. Williams. **Dan 11**: Alwena Roberts, Lona P. Roberts a Wyn Parry. **Dan 14**: Bethan Lewis Parry a Glenda Roberts.

Yn Horeb, Llanfairfechan ar Fai 25 gwobrwyir am eu llwyddiant yn yr Arholiad Sirol – **Dan 9**: Annwen Parry a Ffion John Williams. **Dan 14**: Bethan Lewis Parry a Glenda Roberts.

### RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu cyfraniadau hael:–

50c – Mrs K. Jones, Rhos Wian, Penisarwaun. £1 – Di-enw, Y Waunfawr. £2 – Mrs Jane Evans, 16 Maes Gwylfa, Deiniolen.

£2– Mrs J.Jones, Tŷ Uchaf, Ceunant.

### PENILLION I LONGYFARCH Y PARCHEDIG A MRS W.O. ROBERTS AR EU HYMDDEOLIAD

**Yn dawel fe droediodd hyd lwybrau ein pentref**
**Y gŵr mwyaf addfwyn a'i troediodd erioed,**
**Yn gymorth i'r gweiniaid, yn gysur i'r unig**
**A'i ffydd yn ei Arglwydd yn glir i bob oed.**

**Fe gerddodd filltiroedd i fferm ac i dyddyn**
**I sbyty a charchar, ble bynnag roedd poen,**
**Ei wên a'i ffraethineb yn codi y gwannaf**
**O ddyfnder anobaith i obaith a hoen.**

**Nid gormod yw dwedyd, mai angel fu'n cerdded**
**O gwmpas ein pentref, nid ymffrost mo hyn,**
**Ond y gwir yw y gwiriau, rwy'n sicr o'm ffeithiau,**
**Mae'n galed ei ollwng oddi wrthym fel hyn.**

**Ei briod ef hefyd, deilynga ein clodydd**
**Bu'n ffyddlon a siriol, a'i gweddi'n rhoi nerth,**
**I rai pur digalon, a'i ffydd yn ddiysgog**
**Bu'n gymorth i'w phriod, mor fawr yw ei gwerth.**

**I'r ddau fe ddymunwn hir oes a dedwyddwch,**
**A iechyd a heulwen, a bywyd reit sbriws**
**A da gennym oll eich bod yma'n ein hardal**
**Cawn eich gweled chwi felly, a'ch clywed wrth gwrs.**

*Iola Butler.*

### YMGYRCH DIARFOGI

Daeth rhai cannoedd i fwynhau'r Ffair Heddwch a gynhaliwyd yn Llanberis ar Sadwrn braf ddechrau Mai. Agorwyd y Ffair gan Mrs Betty Williams, darpar-ymgeisydd seneddol Llafur, a chafwyd amrywiaeth o weithgareddau yn cynnwys sioeau babis, anifeiliaid anwes a chlowns. Un o uchafbwyntiau'r dydd oedd yr arddangosfa o waith plant ysgolion Brynrefail, Llanrug a Phenisarwaun ar y thema Heddwch. Dyma rai o'r enillwyr:

**Arlunio, Dan 11:** 1. Hayley Barton, Penisarwaun, 2. Adrian Wyn Evans a John Elwyn Evans, Llanrug, 3. William Griffith, Llanrug. **11-14:** Louise Barnard, Ysgol Brynrefail. **14 i fyny:** Gwyneth Evans, Ysgol Brynrefail. **Barddoniaeth Gymraeg. 11-14:** 1. Sion Rees Williams, Ysgol Brynrefail, 2. Bethan Jones, Ysgol Brynrefail. **Barddoniaeth Saesneg. 11-14:** 1. Sion Rees Williams, Ysgol Brynrefail, 2. Catherine Roberts, Ysgol Brynrefail, 3. Paul Been, Ysgol Brynrefail. **14 i fyny:** Gareth Davies, Ysgol Brynrefail. **Babis:** 1. Emrys, 2. Harry, 3. Rache, 4. Catherine. **Helfa Drysor:** Catherine Blackhurst, Caernarfon. **Anifeiliaid Anwes: Cyffredinol – Dwy Iâr** – 1. Arwel Hughes, Stryd Ianci, Llanberis. 2. **Cwningen** – Nicola Stott, Garth Maelog, Llanberis. 3. **Cath** – Linda Prydderch, Bronallt, Stryd Olgra, Llanberis. **Cŵn** – 1. Teulu Bayliss, Vaynol Arms, Nant Peris, 2. Kerry Stott, Garth Maelog, Llanberis, 3. Paul Trower.

Dymuna'r grŵp CND Dyffryn Peris ddiolch i'r holl ardalwyr am y gefnogaeth ardderchog ac yn enwedig i'r bobl ifainc sy'n gweithio'n gyson a distaw dros yr achos heddwch. Mae bysiau wedi eu trefnu i fynd i lawr i'r brotest fawr yn Llundain Mehefin 6. Cost £6; gostyngiad i'r digyflog. Manylion – Llanberis 870640.

### HEDDWCH

**Cod y cwmwl madarch i fyny yn ara'**
**Oddi tano, gorweddai dinas dawel,**
**Ddinistriwyd gan drachwant dyn.**
**A gorweddai'r cyrff yn anystwyth**
**Ym mhlith y rwbel clwyfedig.**
**'Cawn heddwch fel hyn' medd rhai yn y tir,**
**Ond beth am gri yr C.N.D.?**

**Nid ydynt eisiau ail adroddiad o ddigwyddiad Japan;**
**'Nid ydym eto eisiau gweld y cwmwl hwn**
**Yn codi'n unman yn y byd'.**
**Onid cysgod hwn uwchben y byd**
**Sy'n cadw'n ddiogel bris ein heddwch drud?**

*Sion Rees Williams,*
*Y Gors,*
*Allt Riwth,*
*PONTRHYTHALLT,*
*Llanrug.*

*(Dosbarth 3A. I, Ysgol Brynrefail)*

## AR Y RHAGLEN "CEFN GWLAD"

Fel y mae'n hysbys i ddarllenwyr yr Eco y mae gennym arbenigwr ar golomennod yn byw yn y fro. Cyfeirio'r ydym at Raymond Williams, ac yn ddiau chwi gofiwch amdano yn Eco'r Wyddfa.

Yn ddiweddar bu Raymond ar y teledu yn cymryd rhan yn y rhaglen "Cefn Gwlad". Y tro yma cawsom olwg ar y colomennod a'r tlysau a enillodd Raymond. Yn ogystal clywsom Raymond yn trafod ei bwnc yn ddeallus mewn Cymraeg graenus hyfryd i'r glust.

Y mae i'w longyfarch ar ei berfformiad caboledig.

### GWERTHWR O FRI



*Dyma lun Rheon Larsen, Llygad yr Haul, Penisarwaun a enillodd wobr yn ddiweddar gan Gwmni Recordiau Sain ar ei lwyddiant ysgubol yn Ymgyrch Gwerthu Recordiau'r Cwmni. Llwyddodd Rheon, sydd yn ddisgybl ar ei ail flwyddyn yn Ysgol Uwchradd Brynrefail i werthu dros £163 o recordiau a chasetiau. Fel gwobr cafodd bump o recordiau sengl a'r hawl i ymweld â Stiwdio Sain yn Llandwrog i glywed grŵp yn cael eu recordio.*



*Dyma lun o enethod Ysgol Brynrefail cyn iddyn nhw gystadlu mewn cystadleuaeth hoci yr ysgol. Ond dim ond enwau'r genethod sydd ar gael. Wrth gwrs maent yn awr wedi priodi. Cafwyd y llun gan Mrs Mary Thomas, Tai'r Faenol gan mai Beryl, merch i chwaer Mrs Thomas, sydd yn dal y Darian yn y rhes flaen. Dyma eu henwau o'r chwith i'r dde.* **Rhes flaen**: *Nan Thomas, Buddug Owen, Beryl Evans, Nora Munro, Joyce Richardson.* **Ail res**: *Georgina Hudson, Freda Allen, Beti Wyn Williams, Beti Wyn Jones, Eurwen Lewis.* **Rhes ôl**: *Rosalin Hudson, Ann Parry, Menai Pritchard.*


**BILL ac EILEEN GRIFFITHS**



**Antiques**
**Ivy Cottage**
**BETHEL**

*Ffôn:*
*Y FELINHELI 670556*

**PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU**

*Telir prisiau da*
*Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol*

# PENISARWAUN

CYMANFA – Cynhaliwyd Cymanfa'r Wesleaid yng nghapel Seion, Bangor ddydd Sul Ebrill 25. Cymerwyd rhan y gwasanaeth gan y plant o'r gwahanol gapeli. Arweinydd yn yr hwyr oedd Miss Anwen Jones, Meilionydd, Penisarwaun. Llongyfarchiadau iddi ar yr anrhydedd. Cyflwynwyd Medal am wasanaeth hir i Dylan Edwin Jones am gasglu i'r Genhadaeth Dramor dros gyfnod o flynyddoedd. Cafodd Caroline Jones fedal a thystysgrif hefyd. Derbyniodd y rhai canlynol dystysgrif – Jonathan Vincent Richardson, Mark Porter, Dyfed Jones, am eu gwaith yn casglu at y Genhadaeth.

YSGOL SUL BOSRA – Bnawn Sul, Ebrill 25 bu nifer o Ysgol Sul Bosra yn y Gymanfa yng Nghapel Jerusalem, Llanberis. Diolch iddynt am fod mor barod i gymryd rhan a'i wneud yn raenus fel arfer.

YSGOL TAN-Y-COED – Yn ddiweddar fe gymerodd amryw o'r plant ran yn yr ymgyrch i godi arian ar gyfer Cartrefi Barnardo trwy Noddi Cyfnod Tawel yn Sinema'r Majestic Caernarfon. Trey eu hymdrechion fe gasglasant £55.53.

EGLWYS SANTES HELEN – Cafwyd cyfarfod o Undeb y Mamau nos Lun Mai 17. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Ficer. Cynhaliwyd Noson Goffi a chafwyd elw o £14 tuag at Gymorth Cristnogol. Diolch i'r rhai a ddaeth yno i'n cefnogi ac am y rhoddion.

Llongyfarchwn Sion Rees Williams ar ei lwyddiant yn ddiweddar fel rhan o Wythnos Heddwch Dyffryn Peris. Bu ei gerdd yn fuddugol yn y gystadleuaeth i'r rhai rhwng 11 a 14 oed am farddoniaeth Cymraeg neu Saesneg. Llongyfarchiadau hefyd i Rheon Larsen am ddod yn uchel iawn yn yr un gystadleuaeth. Bydd Dydd Gŵyl a Rhodd Sul y Sulgwyn Mai 30. Bydd gweinyddiad o'r Cymun am 10.30 yn y bore a'r Gosber a Phregeth yn yr hwyr am 5 o'r gloch. Y pregethwr gwadd fydd y Parch J. Hughes Rowlands, B.A., Golygydd Y Llan.

DYMUNWN wellhad buan i Mrs G. Williams, 15 Bryntirion sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

CROESO i Mrs Jean Jones, Joanna a Mathew i'n plith. Maent wedi dod i fyw i 12 Bryntirion.

CLWB Y MERCHED – Cafwyd cyfarfod o'r Clwb nos Fawrth Ebrill 28. Noson foes a phryn a gafwyd. Rhoddwyd y te gan Mrs N. Jones a Mrs B. Hughes. Enillodd Mrs R. Thomas y raffl. Bydd y wibdaith flynyddol yn mynd i Landudno ddydd Sadwrn Mehefin 26.

LLONGYFARCHWN Mrs Hart, Mr Owen ac April Madge, Waun ar eu llwyddiant yn yr arddangosfa a gynhaliwyd yng nghwesty'r Royal Caernarfon yn ddiweddar.

YSGOL SUL SANTES HELEN – Bydd trip Ysgol Sul Santes Helen yn mynd i'r Rhyl ddydd Sadwrn Gorffennaf 3. Cysylltwch â Mrs A. Paterson, 1 Bryntirion os gwelwch yn dda.

CLWB YR HEULWEN – Bu cyfarfod o'r Clwb ddydd Mawrth Mai 18. Y gŵr gwadd oedd y Parch Aled Edwards, Ficer y Plwyf, ac fe roddodd sgwrs ddiddorol iawn ar Hanes y Beibl o'r cychwyn. Dymunwyd yn dda i Carys Williams, Trevor Jones a Dilwyn John Williams sydd wedi dechrau gweithio.

Cydymdeimlwyd â Mrs Gwen Lewis, 6 Llys y Gwynt a theulu'r Gelli yn eu profedigaeth.

Rhoddwyd y te gan Mrs G. Lewis a Mrs D. Fisher. Enillodd Mrs A. Williams, Meillionydd y raffl. Cynhelir y cyfarfod nesaf Mehefin 15. Bydd y trip blynyddol yn mynd i Sir Fôn Gorffennaf 1.

YR YSGOL FEITHRIN – Cynhaliwyd parti dillad llwyddiannus er budd yr Ysgol Feithrin Mai 5. Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Ddydd Mercher Mai 12 cafodd y plant hwyl wrth gymryd rhan ym Miri Meithrin ym Mangor. Buont yn canu "Heno, heno hen blant bach."

YMDDIHEURO – Ar ran yr *Eco* hoffwn ymddiheuro'n arw iawn i Bwyllgor Ysgol Feithrin Penisarwaun am yr anffawd a ddigwyddodd yn rhifyn Ebrill o'r *Eco* pan ymddangosodd newyddion yr Ysgol Feithrin yng ngholofn Deiniolen. Mae'n wir ddrwg gennyf am hyn.
Tony Elliott – Golygydd Newyddion.

DIOLCH – Dymuna'r Parch a Mrs Aled Edwards, Y Ficerdy, Glasgoed, ddiolch yn fawr iawn i'r ardalwyr i gyd, ac i Eco'r Wyddfa am roi croeso mor gynnes iddynt i'r fro.

CROESO cynnes i'n plith i Gwenan a Huw, sef Mr a Mrs Huw Davies, sydd wedi symud i fyw i "Golygfa'r Wydddfa". Mae Gwenan yn athrawes yn Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen, ac mae Huw yn fwy adnabyddus fel yr actor Ifan Huw Dafydd sydd yn ymddangos yn wythnosol ar y rhaglen "Pobl y Cwm"!

AR Y TELEDU – Yn ddiweddar aeth Wendy a Gwilym Thomas, 4 Bryntirion i stiwdio HTV yn yr Wyddgrug i recordio ar gyfer y rhaglen "Sion a Sian". Darlledir y rhaglen yn yn dyfodol agos. Llongyfarchiadau i'r ddau.

AR Y RADIO – Braf oedd clywed Leslie Larsen, Llygad yr Haul yn siarad ar raglen Hywel Gwynfryn ar y radio yn ddiweddar. Roedd Leslie yn trafod ymweliad y Pab Ioan Pawl II â Chymru. Bnawn Llun, Mai 24 aeth Mary Elliot, Crud y Wawr, Bryn Eglwys i stiwdio'r BBC ym Mangor i recordio sgwrs i Radio Cymru i'w darlledu ar y dydd Iau ar ôl ymweliad y Pab. Cafodd Mary wahoddiad i fynd ar y rhaglen fel Pabyddes oedd wedi dysgu Cymraeg.

CARNIFAL PENISA'RWAUN – Cynhelir gweithgareddau'r Carnifal eleni yn ystod yr wythnos Mehefin 28 - Gorffennaf 2. Nid yw'r trefniadau wedi'u cwblhau eto ond dyma fraslun o'r gweithgareddau:

Nos Fawrth, Mehefin 29 – noson i'w threfnu gan Bwyllgor y Merched.

Nos Fercher, Mehefin 30 – chwaraeon rhwng ysgolion cynradd o'r ardal.

Nos Iau, Gorffennaf 1 – mabolgampau.

Nos Wener, Gorffennaf 2 – Carnifal.

Mae'r pwyllgor yn ddiolchgar iawn i Mr Dafydd Morris, Y Becws, Cwm-y-glo am ei ganiatâd i ddefnyddio Cae King, ac i'r Ficer, Y Parch Aled Edwards, am gytuno i arwain y gweithgareddau ar noson y Carnifal.

Bwriedir trefnu Helfa Drysor hefyd. Bydd y trefniadau yng ngofal Dafydd Wyn Evans, 5 Bryn Eglwys. Bydd plant yn dod o amgylch y tai yn y dyfodol agos yn gwerthu rhaglenni. Cofiwch brynu rhaglen oherwydd eleni, am y tro cyntaf, bydd rhif lwcus ar bob un. Rhoddir gwobr arbennig i'r person sy'n dal y rhif lwcus arbennig a dynnir o'r het yn ystod y carnifal.

EISTEDDFOD PENISARWAUN

Nos Wener, Mai 14 cynhaliwyd Eisteddfod lwyddiannus arall yng Nghapel Glasgoed, gyda chystadleuwyr niferus a brwdfrydig yn ymddangos ar y llwyfan. Hyderir i'r plant i gyd gael mwynhad o'r profiad, a diolchir i'r rheini o'r athrawon fu'n eu cymell i gystadlu ac yn eu hyfforddi ymlaen llaw.

Y beirniaid eleni oedd Mr Garrison Williams (Cerdd); Mr Derfel Gruffydd (Llên ac Adrodd); Miss Ann Owen (Gwaith Llaw a Choginio) a Mr Islwyn Williams (Arlunio); y ddau olaf yn 'blant' yr ardal. Y cyfeilydd oedd Mr Brian Williams, Pontllyfni.

Un o 'hogia'r ardal' sef Morgan Evans, Gaerwen, oedd Llywydd yr Eisteddfod am eleni hefyd; yn anffodus ni allai fod yn bresennol oherwydd anhwylder Mrs Evans, ond roedd y llythyr o'i eiddo a ddarllenwyd gan Miss Phyllis Ellis yn tystio i'w atgofion hoffus a'i feddwl mawr o'r ardal a'i chymeriadau. Roedd y rhodd a anfonodd, yn ogystal â'r Cwpan hardd a roddwyd fel Tlws yr Eisteddfod, yn deilwng iawn ohono.

Wele restr o ganlyniadau'r Eisteddfod:

**CANU. Dan 4**: 1. Eleri Jones a Rhys Owain (cyd.), **4-6**: 1. Nia Lewis, 2. Mórrigàn Ellis, 3. Jonathan Richards. **6-8:** 1. Rebecca Thomas, 2. Dyfan Evans, 3. Sioned Lewis, 4. Hefina Jones. **8-10:** 1. Amanda Orock ac Eurgain Haf Evans (cyd.), 2. Iola Williams a Bedwyr Evans (cyd.). **10-12:** 1. Sioned Roberts, 2. Dylan Pierce Williams, 3. Angharad Crew. **12-15:** 1. Mari Wyn. **Parti Canu. Dan 9**: 1. Parti Hefina. 2. Parti Andrea a Pharti Amanda. **Dan 12:** 1. Parti Steven, 2. Parti Rhian, 3. Parti Carys.
**ADRODD. Dan 4**: 1. Eleri Jones, 2. Rhys Owain, 3. Williams Lewis. **4-6**: 1. Llŷr Tegai, 2. Sioned Wyn Jones, Louise Jones, Osian Dafydd, 3. Nia Lewis. **6-8**: 1. Rebecca Thomas, 2. Dyfed Jones a Kenneth Richardson, 3. Andrea Paterson. **8-10**: 1. Eurgain Haf Evans, 2. Sioned Williams, 3. Iola Williams a Rhian Williams. **10-12**: 1. Sioned Roberts, 2. Rhian Price Williams a Dylan Pierce Williams, 3. Berwyn Paterson. **12-15**: 1. Nia Davies, 2. Sharon Owen.
**Parti Adrodd, Oed Cynradd**: 1. Parti Rhian, 2. Parti Kenneth. **Oed Uwchradd**: 1. Parti Gwenllian. **Adrodd Ail-Iaith, Dan 6**: 1. Owen Turner, 2. Jonathan Richards. **8-10**: 1. Cora Jeavons, 2. Steven Wroe. **Barddoniaeth. 8-10**: 1. Eurgain Haf Evans (a Chwpan Morgan Evans), 2. Amanda Orrock a Mark Porter, 3. Iola Williams. 10-12: 1. Gethin Griffith, 2. Dylan Rhys Jones, 3. Carys Wyn Griffith. **12-15**: 1. Fiona Jones.
**Rhyddiaith. 4-6**: 1. Sally Jones, 2. Mórigàn Ellis ac Osian Dafydd, 3. Llŷr Tegai, Owen Turner, Elizabeth Ann Jones. **6-8**: 1. Susan Williams, 2. Sion Roberts, Ken Richardson, Dyfan Evans, Yvonne Orrock, 3. Andrea Lewis, Ceirion Williams, Rebecca Thomas, Dyfed Jones. **8-10**: 1. Andrew Turner, 2. Sioned Williams, 3. Eurgain Haf Evans, 4. Mark Porter ac Emyr Williams. **10-12**: 1. Catrin Evans, 2. Dylan Pierce Williams, 3. Carys Wyn Griffith, Sioned Roberts, Elaine Lewis, Rhian Price Williams.
**Rhyddiaith Ail-iaith. 6-8:** 1. Stephanie Jeavons, 2. Seth Eagles, 3. Glenn Lamb ac Andrea Paterson. **8-10**: 1. Corinna Prescott, 2. Naethan Eagles, 3. Cora Jeavons. **10-12**: 1. Dominic Crowe, 2. Hayley Barton, 3. Karen Jeavons, 4. Angharad Crew a Michael Wroe.
**Arlunio. Dan 4**: 1. Penny Rose, 2. Eleri Jones. **4-6**: 1. Osian Dafydd, 2. Nia Lewis, 3. Sally Jones. **6-8**: 1. Dyfan Evans, 2. Hefina Jones a Sioned Lewis, 3. Andrea Paterson. **8-10**: 1. Steven Wroe, 2. Darren Lamb ac Eurgain Haf Evans. **10-12**: 1. Dominic Crowe, 2. Michael Wroe, 3. Sioned Roberts. **15-18**: 1. Sandra Jones.
**Gwaith Llaw. Dan 4**: 1. Lois Dafydd, 2. Gwenllian Turner. **4-6**: 1. Osian Dafydd, 2. Owen Turner, 3. Llion Roberts. **6-8**: 1. Andrea Paterson a Sion Roberts, 2. Yvonne Orrock. **8-10**: 1. Lucas Crowe, 2. Sioned Williams, 3. Amanda Orrock. **10-12**: 1. Berwyn Paterson, 2. Dylan Pierce Williams, 3. Lawrence Turner. **15-18**: 1. Sandra Jones.
**Coginio. Dan 13**: 1. Gwenllian Parry, 2. Karen Jeavons. **13-18**: 1. Fiona Jones a Sharon Owen (cyd.)

Dyma restr o roddion tuag at yr Eisteddfod. Dymuna'r Pwyllgor ddatgan eu diolch i bawb am eu haelioni:

Mr Morgan Evans, Gaerwen (£50), Cyngor Cymuned Llanddeiniolen (£20), Mr Evie Wyn Jones, 3 Bryntirion (£5), Mrs Rowena Williams, Llwyn Derw (£4), Mrs Gwennie Lewis, 6 Llys y Gwynt (£2), Mrs Kate Williams, 8 Llys y Gwynt (£1), Mrs Annie Hughes, Tŷ Newydd (£1), Mr a Mrs Porter, 7 Llys y Gwynt (£1), Mrs Jennie M. Jones, 4 Llys y Gwynt (£1), Mrs Doreen Fisher, 2 Tai Arthur (£1), Mrs Jones, 5 Llys y Gwynt (50c).

## GWASANAETH SEFYDLU'R PARCH. ALED EDWARDS

Cynhaliwyd gwasanaeth sefydlu y Parch Aled Edwards fel offeiriad i ofalaeth plwyf Llandinorwig a Phenisarwaun nos Wener, Ebrill 30. Roedd yr Eglwys yn llawn ar gyfer yr achlysur arbennig gydag aelodau o blwyfi Glanogwen, Bethesda, Trawsfynydd a'r fro hon yn bresennol. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan yr Archddiacon, Yr Hybarch H. Arfon Evans; Y Deon Gwlad, y Parch Canon Alun Jones, a thraddodwyd y bregeth gan y Gwir Barchedig G.O. Williams, Archesgob Cymru. Croesawyd y ficer newydd i'r plwyf ar ran capeli'r fro gan y Parch Trefor Lewis. Ar ôl y gwasanaeth trefnwyd lluniaeth ar gyfer pawb yn Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen. Yno rhoddwyd gair o groeso i'r ficer newydd gan Mrs B. Griffiths (Warden Eglwys Crist, Llandinorwig) a Mr Tegid Roberts (Warden Eglwys y Santes Helen, Penisarwaun). Hefyd dymunodd y Parch Elwyn Roberts, Ficer Plwyf Glanogwen, Bethesda bob bendith a hapusrwydd i'r ficer yn ei ofalaeth newydd. I ddiweddu'r cyfan mynegodd y ficer ei ddiolchiadau i bawb a gyfrannodd at lwyddiant noson y sefydlu. Dymunwn ninnau bob dymuniad da i'r Parch Aled Edwards, ei briod a Simon Dewi y mab, yn ei ofalaeth newydd.

### CROESO GAN BRIFARDD

Penillion i gyfarch y Parchedig Aled Edwards, B.A., ar achlysur ei sefydlu yn Ficer plwyfi Penisarwaun a Llandinorwig yn Eglwys Crist, Deiniolen, nos Wener Ebrill 30, 1982.

**Croeso i Landinorwig,**
**Penisarwaun, a'r Fro**
**A gododd un Archesgob**
**(Y pennaf sglaig, efô);**
**Os Darfu sŵn Y Gwaith o'n clyw,**
**Bydd sŵn Y Pulpud eto'n fyw.**

**Yn haul a niwl Trawsfynydd,**
**Dan 'Leuad Borffor', glaf,**
**Y fro a anfarwolwyd**
**Hyd byth gan Fardd yr Haf**
**Trwy gyfres englynion o goffâd**
**Am aberth Bugail dros ei Wlad, –**


**Yno, gyfeillion annwyl,**
**Yn hud Yr Ysgwrn, gynt,**
**A miwsig Afon Brysor**
**Ar hen hiraethus hynt,**
**Yr ardal sydd mor fawr ei bri,**
**Yno y codwyd ein Ficer ni.**

**Plwy enwog am Bregethwyr**
**Yng ngwres Yr Ysbryd Glân**
**Lle'r aeth Y Gair mor danbaid**
**Nes gyrru'r Llan ar dân!**
**A dyma rybudd ymlaen llaw**
**I ninnau am yr hyn a ddaw!**

**Heb gellwair, Bugail arall**
**A ddaeth i'n plith i fyw**
**Ac arwain cant o ddefaid**
**Bob un, i Gorlan Duw:**
**Boed bendith ar ei waith i gyd**
**A'i deulu bach yn wyn eu byd.**

*Y Prifardd Emrys Edwards*

# CROESAIR MEHEFIN



**AR DRAWS:**
1. Croes i ryddhau (7)
5. Ar ben (5)
8. Gwelir rhai mewn regata (5,6)
9. Cyfoeth mewn cawg o ludw (5)
10. Dan a mi yw'r awgrym (6)
12. Un sy'n caru'n angerddol (6)
14. Gwaredwr (6)
17. Offeryn pwyso (6)
18. Iorwg (5)
20. Diod (4,7)
22. Hapus (5)
23. Lluosog (7)

**I LAWR:**
1. "Ond . . . Aberdaron . . .
   A thonnau gwyllt y môr." (8)
2. Mynd yn ôl (7)
3. Mae'n werth gofalu amdano (5)
4. Gohiriad (6)
5. Cwyno (7)
6. Nid y gorau, – ond reit agos (3)
7. Tori bron yn barod i newid cyfeiriad! 
11. Ofnadwy (8)
13. Rhywbeth i chwarae gan yr iâr? 
15. Enillydd (7)
16. Chwilio am (6)
18. Diwedd (5)
19. Mae bwgan yng Nghell y Llan! (4)
20. Nid yw'r hen Lew yn gwneud colled (3)

Cyfrifir y llythrennau ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th fel un llythyren.

**ATEBION CROESAU MAI.**

**AR DRAWS:** 1. Diwrnod, 5. Gwaed, 8. Dylni, 9. Blaenor, 10. Ysbeidiau, 12. Budd, 13. Diddori, 14. Gweddïo, 17. Egr, 18. Gwrthnysig, 20. Dirfawr, 21. Bwyta, 23. Diffodd, 24. Dau lawr.

**I LAWR:** 1. Dodwy, 2. Wil, 3. Neithior, 4. Dibaid, 5. Gwadu, 6. Adnabyddus, 7. Diraddio, 11. Beddargraff, 13. Drewdod, 15. Wynebau, 16. Eryrod, 18. Gwaedd, 19. Gwawr, 22. Yma.

Enillydd **G.S. Jones, 4 Nant Ffynnon, Nant Peris.** Gwobr o £2 i'r ateb cywir cyntaf i'w dynnu. Anfonwch eich cynigion i Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug.

**RHODD**
£2.00 – Di-enw Llanberis.
Diolch yn fawr.

**CLWB CEFNOGWYR YR ECO**
Dyma enillwyr cynta'r clwb:
£20 – Mrs Nancy Rowlands, 12 Pentre Helen, Deiniolen.
£10 – Arwel Jones, Gwên y Wawr, Llanrug.
Tynnwyd y gwobrau nos Iau Mai 20 yn neuadd Ysgol Brynrefail.

# GWASANAETH DINESIG YN EGLWYS SANT PADARN



Maer newydd Cyngor Bwrdeistref Arfon, y Cynghorydd Francis Jones, Y.H., a'i wraig Mrs Jones, y Fonesig Faeres gyda'r Parch. Ganon Alun Jones, Caplan y Maer. Tynnwyd y llun brynhawn Sul Mai 16 y tu allan i Eglwys Sant Padarn, Llanberis ar achlysur y Gwasanaeth Dinesig. Cyfrannodd y Parch Gwynfor Williams, y Parch Marcus Robinson, Y Parch Huw John Hughes, Y Parch Tad. P. McNamara, Y Parch Alun Jones, Y Maer a Chôr Plant Ysgol Dolbadarn. Yr organyddion oedd Mr Huxley Thomas a Mr H. Peris Pritchard.

# DYDDIADUR MEHEFIN

MEHEFIN
1-5: Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mhwllheli.
Mehefin 3 a 4: Sioe Amaethyddol Gogledd Cymru ym Methel.
Iau, 3: WAUNFAWR – Sefydliad y Merched – sgwrs ar Hen Bethau gan Mr a Mrs Twiss, Nantlle.
Gwener 4: WAUNFAWR – Noson Goffi Cymdeithas Caernarfon a'r Cylch i Rai Araf eu Meddwl yn Neuadd yr Eglwys am 6.30.
Sul 6: LLANBERIS – Dirwyn yr Achos yng Nghapel Coch i ben.
Llun 7: LLANBERIS – Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.
DEINIOLEN – efydliad y Merched – sgwrs gan Mrs Hazel Bradley, Llanfairfechan ar ei gwaith fel fferyllydd yn yr India.
Mawrth 8: LLANRUG – Gwibdaith Ddirgel Merched y Wawr.
YR ARDAL – Recordio Sioe Madam Sera ar gyfer S4C yn Theatr Gwynedd, Bangor am 7.00.
Mercher 9: BETHEL – Gwibdaith Ddirgel Merched y Wawr.
Iau 10: WAUNFAWR – Clwb y Mamau – Taith Natur o amgylch y pentref.
LLANRUG – Gwibdaith Ddirgel Undeb y Mamau.
Clwb Blodau'r Grug.
Noson Goffi yng Nghanolfan Hafan Elan am 7.00 – yr elw at y Sefydliad Coffa.
Gwener 11: LLANBERIS – Te yr Henoed.
Llun 14: BETHEL – Gwibdaith Clwb Bro Bethel i Wrecsam.
LLANBERIS – Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.
Mawrth 15: PENISARWAUN – Clwb yr Heulwen.
Sul 20: LLANBERIS – Dathlu Canmlwyddiant yr Achos ym Mhreswylfa a dirwyn yr Achos i ben yno.
Llun 21: LLANBERIS – Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.
DEINIOLEN – Cyfarfod Blynyddol Merched y Wawr yn Ysgol Gwaun Gynfi am 7.00.
Iau 24: DEINIOLEN – Gwibdaith Flynyddol Clwb Elidir.
LLANBERIS – Taith Ddirgel Sefydliad y Merched.
Gwener 25: LLANBERIS – Te yr Henoed.
Sadwrn 26: LLANBERIS – Rasus Hwylio Bôrd Llyn Padarn.
PENISARWAUN – Gwibdaith Flynyddol Clwb y Mamau i Landudno.
Mehefin 27-Gorffennaf 3: Wythnos Garnifal Bethel.
Mehefin 28-Gorffennaf 3: Wythnos Garnifal Penisarwaun.
Sul 27: LLANBERIS – Dirwyn yr Achos yng Ngorffwysfa i ben.
WAUNFAWR – Cymanfa Ganu y Carnifal yng Nghapel Croesywaun am 7.30.
Llun 28: LLANBERIS – Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30.
LLANRUG – Darlledu Rhaglen Radio 'Malu ar yr Awyr' yn yr Ysgol Gynradd am 7.30.

**DYDDIADAU I'W COFIO**

**Gorffennaf 2:** Gwasanaeth arbennig yn adeilad Capel Coch am 7 o'r gloch i Sefydlu Eglwys Bresbyteraidd newydd yn Llanberis. Disgwylir cynrychiolwyr o'r Henaduriaeth, Cyfarfod Dosbarth, Cyngor Eglwysi Llanberis a chyn-weinidogion i'r gwasanaeth hanesyddol hwn.
**Gorffennaf 2-10:** Wythnos Garnifal Waunfawr.
**Gorffennaf 10:** Rali Genedlaethol Plaid Cymru yng Nghastell Dolbadarn.
**Gorffennaf 11-17:** Wythnos Garnifal Llanberis.
**Gorffennaf 31:** Ras Nofio Llyn Padarn.


**Awdurdod Datblygu Cymru**

**A ydych chi mewn busnes?**
**A ydych chi'n meddwl cychwyn ar eich pen eich hun?**

**Mae Uned Diwydiannau Bychan yr Awdurdod yma i'ch helpu i fod yn llwyddiannus.**

**Fe gewch gyngor gan arbenigwyr profiadol ym mhob agwedd o redeg busnes. Yr ydym wedi dysgu sut i ddewis y ffordd orau i lwyddo ac yn gwybod am yr anawsterau.**

**Gallwch fanteisio ar ein cysylltiadau niferus gyda mudiadau eraill sydd yn awyddus i'ch cynghori, ac mae benthyciadau ar log isel ar gael i rai mathau o weithgareddau.**

**Mae eich swyddfa leol ym Mangor.**

**Cysylltwch â ni i drefnu cyfarfod gydag un o'n cynghorwyr; cewch drafod eich syniadau a'ch gofynion yn rhad ac am ddim.**

Uned Diwydiannau Bychan,
Awdurdod Datblygu Cymru,
Isnant, Ffordd Glynne,
Bangor. Ffôn Bangor 52606

**Welsh Development Agency**

# CHWARAEON

## 500!

**ROEDD pnawn Sadwrn, Mai 15 yn ddiwrnod arbennig yn hanes Clwb Pêl-droed Llanrug, ac yn enwedig felly yn hanes un o'u chwaraewyr. Ar y diwrnod hwnnw, chwaraeai Alan Vincent Owen i dîm y pentref am y 500ed tro! Record anhygoel fel ag y mae, ond y syndod yw y gallai fod yn fwy na hynny, oherwydd roedd Alan yn chwarae yng Nghynghrair Caernarfon cyn i dîm presennol Llanrug gael ei ffurfio. Felly, mae'n bosibl i'w record bersonol fod yn nes at fil o gemau!**

Dechreuodd ar ei yrfa yng Nghynghrair Caernarfon dros ugain tymor yn ôl, gan chwarae i dimau Tryfan Rangers, Mountain Rangers, Llanberis a YMCA Caernarfon. Ond pan ailffurfiwyd clwb pêl-droed yn Llanrug ym 1968 daeth Alan yn ôl i'w gynefin, a bu'n aelod ffyddlon o'r tîm bum cant o weithiau ers hynny.

Fel cefnwr canol bu'n achos cur pen (a chur mewn amryw o lefydd eraill hefyd) i lawer o flaenwyr gorau'r Gynghrair, ond ymddangosodd mewn safleoedd eraill yn y tîm hefyd, yn enwedig fel gôl-geidwad. Yn y swydd honno, mae'n dal record arall, sef na chollodd Llanrug yr un gêm tra'r oedd Alan rhwng y pyst. Sawl gôl-geidwad arall sydd â record gyffelyb? Mae hefyd wedi ymddangos fel blaenwr, ond byddai Alan ei hun y cyntaf i gyfaddef nad oedd yn llwyddiant ysgubol yn y safle hwnnw. Er hynny, mae wedi sgorio i'r Clwb, y mwyafrif o'r goliau gyda'i ben, a llawer ohonynt wrth redeg o'r cefn i gyfarfod â chic gornel.

Yn ystod ei yrfa gyda Chlwb Llanrug, enillodd lu o dlysau, gan gynnwys medal pencampwyr y Gynghrair dair gwaith a medal Cwpan Iau Gogledd Cymru ddwywaith. Efallai mai medal y Cwpan Iau oedd un o'i brif wobrwyon, oherwydd tua'r cyfnod hwnnw, cafodd anaf i'w goes a'i cadwodd allan o'r gêm am fwy na hanner tymor, a chredai amryw y pryd hwnnw fod diwedd ei yrfa wedi dod. Ond roedd dycnwch Alan a'i galon fawr a'i gariad tuag at y gêm yn drech na'r anaf, ac yn fuan iawn ar ôl dechrau ailchwarae roedd wedi hen ennill ei le'n ôl yn y tîm.

Bellach, anodd meddwl am dîm Llanrug **heb** Alan ynddo, ac yn ôl safon ei chwarae, mae'n ymddangos fod yr amser hwnnw ymhell ar y gorwel yn rhywle, ac y gwelir Alan yn chwarae am flynyddoedd i ddod. A phwy a ŵyr na fydd dathlu 500 arall o gemau ganddo mewn blynyddoedd i ddod?

## AELODAU CLWB PWYSAU PŴER



*Aelodau o Glwb Pwysau Pŵer Dinorwig a fu'n llwyddiannus yn Llanelli'n ddiweddar. Daeth Gwilym Williams o Benisarwaun yn 3ydd yn ei adran; Cemlyn Thomas o Ddeiniolen a ddaeth yn 2il, ei frawd Carwyn a ddaeth yn 4ydd, a Bryn Jones a ddaeth yn 3ydd. Len Jones, Deiniolen yw eu hyfforddwr.*

# PÊL-DROED YN GRYNO

A thymor pêl-droed arall yn dirwyn i ben, nid yw'n ymddangos ar hyn o bryd fod cymaint o dlysau'n dod yn ôl i fro'r 'Eco' â'r llynedd. Llanberis sydd â'r gobaith gorau am dlws, oherwydd gydag un gêm ar ôl i'w chwarae, dim ond pwynt sydd eisiau arnynt i ennill Cwpan Deanfield am ddod yn ail yn y Gynghrair. Bydd Llanrug yn sicr o ddarfod yn bedwerydd yn y Gynghrair, ond braidd yn siomedig fu'r tymor iddynt hwy. Mae Bethel unwaith eto'n ôl pob tebyg am ddiweddu ar waelod y Gynghrair.

Yn ystod yr wythnos nesaf bydd Llanberis yn cystadlu am ddau gwpan – Cwpan Wil Evans yn erbyn Hirael a Chwpan Moorings yn erbyn un ai Llanrug neu'r Felinheli. Dyma unig obaith Llanrug am dlws eleni, ond mae'r Felinheli eisoes wedi eu curo bedair gwaith y tymor hwn yn barod, ac felly nid yw'r argoelion yn rhy dda.

## CHWARAE GÊM HANESYDDOL



*Aelodau o dîm Llanrug a chwaraeodd ym 500ed gêm Alan V. Owen. Mae Alan ei hun i'w weld yn y rhes flaen, yr ail o'r chwith. Does ryfedd fod gwên fawr ar ei wyneb!*

## LLWYDDIANT YSGUBOL



*Tîm pêl-droed ieuenctid Llanberis 1981-82.*

Tîm Ieuenctid Llanberis wedi eu buddugoliaeth ar gae Parc Meurig, Bethesda yng nghystadleuaeth Cwpan Ieuenctid Gogledd Cymru.

Dyma, mae'n debyg binacl eu llwyddiant y tymor hwn, yn dilyn tymor eithriadol o lwyddiannus. Am yr ail dymor yn olynol, roedd y tîm yn bencampwyr Cynghrair Ieuenctid Caernarfon, gan golli dim ond un gêm o'r pedair ar ddeg a chwaraewyd, a sgorio 75 gôl yn y broses.

Roeddynt yn llwyddiannus hefyd yng nghystadleuaeth 5-bob-ochr y Gynghrair Ieuenctid, gan anfon dau dîm i'r gystadleuaeth, a'r ddau dîm yn cyrraedd y rownd derfynol! Felly, Llanberis enillodd!

Erbyn y daw'r 'Eco' i chi, byddant hefyd wedi chwarae rownd derfynol Cwpan Ieuenctid Cynghrair Caernarfon ar gae Llanrug yn erbyn Bethesda. Hyd yma, maent wedi chwarae 8 gêm cwpan gan sgorio 30 o goliau, a cholli un yn unig, yn erbyn tîm o Ddinbych yng Nghwpan Ieuenctid Cymru.

Da iawn hogia, am ddod â chlod i'r ardal – ie i'r ardal sylwch, oherwydd daw aelodau'r tîm o wahanol bentrefi ardal yr 'Eco' ond eu bod yn chwarae dan adain Clwb Llanberis dan reolaeth Iwan Williams.

## O FYD Y PYSGOTWYR

### CYMDEITHAS PYSGOTWYR SEIONT, GWYRFAI A LLYFNI

Ar Fai 1af bydd chwech o aelodau'r gymdeithas yn cystadlu ar Lyn Clywedog, am le yn y rownd derfynol i ddewis tîm pysgota Pluen Cymru, yn y gystadleuaeth ryngwladol, i'w chynnal ar Lyn Trawsfynydd ymhen ychydig wythnosau. Roedd y tywydd yn ofnadwy gyda chawodydd eira, ac yn anffodus, dim ond un o'r tîm sef Oscar Evans, Bethel a fydd yn cynrychioli'r Gymdeithas yn y rownd yma.

Fel y dywedais y mis diwethaf, rhoddwyd nifer o bysgod yn yr afonydd ac yn Llyn Dywarchen, ac mae nifer o'r rhain wedi eu dal – gwelais ddau frithyll ddau bwys wedi eu dal gan Bill Bailey o Fethel, ac un arall dros drip phwys gan Edwin Lewis o Benygroes. Clywais hefyd am un arall dros bedwar pwys wedi ei ddal gan Davie Jackson o'r Bontnewydd a dim rhai o'r pysgod stoc oedd y rhain – a'r uchod i gyd o Lyn Dywarchen, sydd ar hyn o bryd yn pysgota'n eithriadol o dda, ond does 'na neb am ddweud be yw'r bluen wyrthiol – does dim fel cadw cyfrinach nagoes!

Wrth droi i'r afonydd, daeth dau frithyll tri phwys ar Afon Llyfni – y pysgotwyr lwcus oedd Alun Fawr a Gwilym o Dalysarn – ond doedd neb mor ffodus i ddal un mawr ar y Seiont. Ond mae stori Clifford Thomas o'r Felinheli wedi colli un mawr iawn ar Lyn Glanrafon – anffodus 'rhen Cliff! ond cofiwch, mae rhai o'i gydweithwyr yn Ferodo yn dweud ei bod yn iawn i'r pysgod gael un drosto weitha!

Cyn cau, mae newydd fod Norman Davies o Gaernarfon wedi cael brithyll tri phwys a hanner ar Seiont ym Mhont Rug – mae hwn hefyd yn 'sgodyn gwyllt, tybed ai hwn yw'r un trymaf o'r afon erioed? – os nad oes rhywun wedi clywed am un mwy, wrth gwrs!

Hefyd, mae'n rhaid sôn am Dewi Jones o Fethel sydd yn pydru arni yn ddiwyd ar Lyn Glanrafon. Cafodd helfa dda un gyda'r nos, sef pedwar brithyll – dal ati Jones – mi gei Eog cyn bo hir!

Pry genwair.